- CÓNFÓUND**, (v. a.) dygymmysgu, dyffysgu, cymmysgu; annhrefnu—dyrys—cywilyddio, yswilio—matharu, dystrywio, gwaradwyddo
- CÓNFRONT**, (v. a.) wynebu, gwrthwynebu—cymharu, cystadlu

- CONFÚSE**, (v. a.) *edr. Confound*  
**CONFÚSEDNESS**, (s.) annybenrwydd, annhreffnusdra, annybendod  
**CONFÚSION**, (s.) cymmysg—annhrefn, annhreffniad—annybendod—cynnwrf—cywilydd, syndod  
**CONFÚTABLE**, (adj.) gwrthbrofadwy  
**CONFUTÁTION**, (s.) gwrthbrofiad, dibrawf, dadbrawf, dadbrofiant  
**CONFÚTE**, (v. a.) diddadlu, dibrofi, gwrthbrofi, gwrthdystio  
**CÓNGE**, } (s.) ymgrymiad, cyweith-  
**CONGEE**, } asrwydd, cyweithasiad—cymmeriad cenad  
**CONGÉAL**, (v.) ceulo, rhewi, tewychu, cyd-dewychu, cydgeulo  
**CONGÉALABLE**, (adj.) rhewadwy  
**CONGÉALATION**, (s.) rhewiad, ceulad, tewychiad, cyd-dewychiad  
**CONGÉNEROUS**, (adj.) cydryw, o'r un rhyw, cydgynneddfol  
**CONGÉNIAL**, (adj.) cydryw, o'r un natur, o'r un rhyw, cydrywiol  
**CÓNGER**, (s.) congen, morlysofen  
**CONGÉSTION**, (s.) cydtyriad, cronriad, crown, crown-gasgliad  
**CONGLÓMERATE**, (v. a.) pellenu, dirwyn, sypio: (adj.) wedi ei dirwyn, neu'i pellenu  
**CONGLÚTINATE**, (v.) ysgrawlingo, gludio; cyssylltu  
**CONGLUTINÁTION**, (s.) ysgrawlingad, gludiad ynghyd  
**CONGRÁTULATE**, (v. a.) cyd-lawenychu am lwyddiant un  
**CONGRATULÁTION**, (s.) cydlawenychiad, llon-gyfarchiad  
**CONGREET**, (v. n.) cydanerch, cydgyfarch  
**CONGRÉGATE**, (v. a.) casglu ynghyd, ymgasglu, cydgasglu, cynnull  
**CONGREGÁTION**, (s.) cynnulleidfa, eymmanfa  
**CONGREGÁTIONAL**, (adj.) cynnulleidfaol, yn perthyn i gynnulleidfa  
**CONGRÉSS**, (s.) cyfarfod, cyfrwch, cynnaddl—ymdrin, ymdrech, ymladd  
**CONGRUÉNCÉ**, (s.) cydgorriad, cytundeb, cyssondeb—cyfaddasrwydd, cymmwysra, cyffelybrwydd  
**CONGRUÉNT**, (adj.) addas, cyfaddas, cymmwys, cyngweddol, gweddus, cyfladd, cytunol, cydgorriadawl  
**CONGRÚITY**, (s.) cyfaddasrwydd, cymmwysder; cyssondeb, cytundeb  
**CÓNGRUOUS**, (adj.) *edr. Congruent*  
**CONJÉCTURAL**, (adj.) tebygol  
**CONJECTURE**, (s.) tÿb, amcan, trawsamcan, lledtyb, dyfais, dychymmyg, amcaniaeth, tybiad  
**CONJÉCTURE**, (v. a.) dyfalu, tybio, amcanu, bwrw amcan  
**CONJÉCTURER**, (s.) amcanwr, dyfalwr, dychymmygydd  
**CONJÓIN**, (v.) cyssylltu, cydgyssylltu, cwplysu; uno, duno; cyfathrachu  
**CONJÓINT**, (part. and adj.) cyssylltiedig, clymiedig—cyfun, cytun  
**CONJÚGAL**, (adj.) dyweddiol, yn perthyn i briodas, cydweddog  
**CÓNJUGATE**, (v. a.) cydieuo, cwplysu, hyweddu, dyweddio, priodi  
**CONJUGÁTION**, (s.) cyfieuo, cyfrwym, cyssylltiad, cydieuo  
**CONJUNCT**, (part. and adj.) *edr. Conjoint*  
**CONJÚNCTION**, (s.) cyssylltiad, cydgyssylltiad, cydiad—*fig.* cyngair, cyfammod  
**CONJÚNCTLY**, (adv.) ynghyd, yn gyssylltiedig  
**CONJÚNCTURE**, (s.) cysswllt, cydystâd, neu ansawdd pethau  
**CONJURÁTION**, (s.) cyttwng, cydlw—cynllwyn, cysswyn, cydfradswyniad, arganfod, rheibiad  
**CONJÚRE**, (v. a.) tynghedu; ymhwedd—cydfwriadu, cynllwyn—swyno, arganfod  
**CÓNJURER**, (s.) consyrwr, dewin, swynwr, chwarydd ysgafn law  
**CONNÁTE**, (adj.) cynenid, cynhwynol, wedi ei eni yn un  
**CONNÁTURAL**, (adj.) naturiol, cydnaturiol, cydanian, cydryw  
**CONNÉCT**, (v. a.) cydgylymu, cwplysu, cyssylltu, cyfrwymo  
**CONNÉXION**, (s.) undeb, cyfundeb; cyfrwymiad, cyssylltiad, cydiad  
**CONNÍVE**, (v. n.) cau llygad—pasio heibio, goddef, cyd-ddwyn  
**CONNÚBIAL**, (adj.) dyweddiol  
**CÓNQUER**, (v. a.) cefnu, gorfod, gorchfygu, goresgyn, (neut.) cael y fuddugoliaeth, cael yr oruchafiaeth  
**CÓNQUEROR**, (s.) goresgynwr, gorfodawg, buddugawl, concwerwr, Rhuf, viii. 37.

- CÓNQUEST**, (s.) buddugoliaeth, goruchafiaeth, gorfod, gorfodaeth
- CONSÁNGUINEOUS**, (adj.) cydwaed, cydgar, o'r un gwaedoliaeth
- CONSANGUÍNITY**, (s.) cydwaedoliaeth, gwaedoliaeth, cydgarennydd, carennydd o waed
- CONSCIENCE**, (s.) cydwybod, tystiolaeth meddwl un ei hunan
- CONSCIÉNTIOUS**, (adj.) cydwybodol
- CONSCIÉNTIOUSLY**, (adv.) yn gydwybodol
- CONSCIÉNTIOUSNESS**, (s.) pryder cydwybod, cydwybodoldeb
- CÓNSCIONABLE**, (adj.) cydwybodus, cyfiawn, iawn, union, rhesymol
- CÓNSCIONABLENESS**, (s.) uniondeb, rhesymoldeb, uniawnder
- CÓNSCIOUS**, (adj.) cyfrin, syniol, ymsyniol, ymwybodol, cydwybodus
- CÓNSCIOUSNESS**, (s.) ymwybodaeth, ymhyspysrwydd, hyspysrwydd tufewnol, tystiolaeth cydwyb. d
- CÓNSECRATE**, } (part. and adj.)
- CÓNSECRATED**, } cyssegredig; sanctaidd: (v. a.) cyssegru, sancteiddio, bendigo
- CONSECRÁTION**, (s.) cyssegriad
- CONSECTARY**, (adj.) canlynol, a fo'n canlyn: (s.) canlyniad
- CONSÉNSION**, (s.) cydsyniad, cytundeb, dundeb, cysswyn
- CONSÉNT**, (s.) cysswyn, cydsyniad, dundeb—cenad, caniatâd: (v. a.) cytuno, cyssynio, cydsynio, cordio, cydgordio; cennadu, caniatâu
- CONSENTÁNEOUS**, (adj.) cyson, cymmwys, addas, cydsyniol, cytun
- CONSENTÁNEOUSLY**, (adv.) yn gydsyniol, yn gyson, o wirfodd
- CONSÉNTIENT**, (part.) yn cydsynio, yn cytuno mewn barn
- CÓNSEQUENCE**, (s.) canlyniad, dilynriad, cyd-ganlyniad, pwys
- CÓNSEQUENT**, (adj.) yn canlyn, dilynol, canlynol, cydganlynol
- CONSEQUÉNTIAL**, (adj.) canlynadwy
- CÓNSEQUENTLY**, (adv.) yn ganlynol
- CONSERVÁTION**, (s.) cadwriaeth, ceidwadaeth
- CONSERVÁTOR**, (s.) ceidwad
- CONSERVATORY**, (s.) y lle y cedwir un peth mewn modd cyfaddas i'w natur, megis pysgod mewn llyn, &c. (adj.) cadwedigol
- CONSERVE**, (s.) ancwyn, cywir
- CONSIDER**, (v. a.) ystyried, pwyllo, synied, darbod, dwysfyfyrio
- CONSIDERABLE**, (adj.) teilwng o ystyriaeth; pwysfawr, o bwys; gwerthfawr; cryn helaeth, cryn fawr
- CONSIDERABLENESS**, (s.) gwerthfawrogrwydd; dwysder, mawrder
- CONSIDERATE**, (adj.) ystyriol, pwyllog, darbodus, call, hamddenol
- CONSIDERATELY**, (adv.) yn bwyllog, yn ystyriol
- CONSIDERATENESS**, (s.) pwylledd, callineb, ystyrioldeb
- CONSIDERATION**, (s.) ystyriaeth, ystyr, darbodiad, darbod, hamdden
- CONSIGN**, (v. a.) trosglwyddo; danfon i arall: (neut.) ymostwng; cydsynio â. Shakes. *A hard condition for a maid to consign to*
- CONSIGNMENT**, (s.) trosglwyddiad; arwydd ysgrifenad, da ymddiriad
- CONSIMILAR**, (adj.) tebyg, cynnhebyg, cyffelyb
- CONSIST**, (v. n.) cynnwys; bod; cydsefyll, bod yn gynnwysedig
- CONSISTENCE**, } (s.) sylwedd—add-
- CONSISTENCY**, } arwydd, cymmwysdra, cytundeb, cysondeb
- CONSISTENT**, (adj.) cyson, cymmwys, cytun, a fo'n cydsefyll
- CONSISTORY**, (s.) cynghordy, cabidwl, cwusli, barnlys esgob
- CONSÓCIATE**, (s.) cyfaill, cydymaith, affeithiwr, cydbleidiwr: (v.) cymdeithasu; cyssylltu, uno
- CONSOCIÁTION**, (s.) cymdeithas; cyssylltiad, undeb, cydweddiad
- CONSÓLABLE**, (adj.) cymfforddus, cysurus, dyddanadwy
- CÓN SOLATE**, (v. a.) cysuro, cymfforddio, dyddanu, dyhuddo
- CONSOLÁTION**, (s.) cysur, dyddanwch, comffordd, dyhuddiant
- CONSOLATORY**, (adj.) cysurus
- CONSOLE**, (v. a.) sirio, llonni, cysuro, dyddanu
- CONSÓLIDATE**, (v.) ffurfhau, cryfhau, caledu, cydrwymo
- CONSOLIDÁTION**, (s.) ffurfhâd, cryfhâd
- CÓN SONANCE**, (s.) cydsain, cydgorodiad, cytundeb, cysonedd

- CONSONANT**, (adj.) cydseiniog, cys-on—cymmwys, addas, cytun : (s.) cydseiniaid, cysoniaid
- CONSONANTLY**, (adv.) yn gytunol, yn gydseiniol, yn gytun
- CONSONANTNESS**, (s.)edr. *Consistency*
- CONSONOUS**, (adj.) cydlais, cytun, cyson
- CONSORT**, (s.) cyfaill, cydymaith—cydwedd — cynghanedd, cytgan, cyssain, Eccl. xxxii. 5.: (v. n.) cyfeillachu, cymdeithasu, cyssylltu, uno
- CONSPICUITY**, (s.) amlygrwydd, eglurder, eglurdeb
- CONSPICUOUS**, (adj.) eglur, amlwg, goleu, hywel : *fig.* enwog, parchedig, ardderchog
- CONSPIRACY**, (s.) cydfrad, cydfwriad, cynllwyn, cydtwng
- CONSPIRE**, (v. n.) cydfwriadu, cynllwyn, ymwneuthur, ymddyuno
- CONSTABLE**, (s.) ceidwad heddwch
- CONSTANCY**, (s.) gwastadrwydd, dianwadalwch, sicrwydd
- CONSTANT**, (adj.) gwastad, dianwal, sefydlog, safadwy, diysgog
- CONSTANTLY**, (adv.) yn wastadol, yn ddiymmod, yn ddiysgog
- CONSTELLATION**, (s.) cydser, swp o ser, ser-gynnul
- CONSTERNATION**, (s.) synedigaeth, syndod, braw, cythrudd, dychryn
- CONSTIPATE**, (v. a.) tewychu, gwneuthur yn dew, gwneuthur yn gaead, tynhau, cysychu
- CONSTITUENT**, (adj.) hanfodol, angenrheidiol, anhepcor, cysail : (s.) ordeiniwr, trefnwr, gosodwr
- CONSTITUTE**, (v. a.) pennodi, ordeinio, trefnu, gosod, pwyntio, sefydlu, cyfleu, arosod
- CONSTITUTION**, (s.) sefydliad, gosodedigaeth, ordinhad—cyflwr, tymer, ardymer, naw, ystad
- CONSTRÁIN**, (v. a.) cymmell, dirio, gwthio, dirgymmell
- CONSTRÁINABLE**, (adj.) cymmelladwy, diriadwy
- CONSTRÁINT**, (s.) dir, cymmell, gormes, trais—caethiwed
- CONSTRÍCT**, (v. a.) rhwymo, gwasgu, cydwasgu
- CONSTRÍCTION**, (s.) rhwymiad
- CONSTRÍNGE**, (v. a.)edr. *Constrict*
- CONSTRÚCT**, (v. a.) cydosod, cyfansoddi, adeiladu, cydlynio
- CONSTRÚCTION**, (s.) cyfansoddiad, adeilad, trefnad, gosodiad—deongliad, ystyr—cystrawen
- CONSTRÚCTURE**, (s.) adeilad, cludair, adeiladaeth
- CÓNSTRUE**, (v. a.) deongli, cyfieithu, esponio
- CONSTUPRÁTION**, (s.) trais
- CONSUBSTÁNTIAL**, (adj.) o'r un sylwedd, neu natur
- CONSUBSTANTIÁTION**, (s.) cydsylwedd
- CÓNsul**, (s.) prif-swyddog yn Rhufain, hefyd, swyddog i olygu marsiendaeth, &c. mewn gwledydd pell
- CONSÚLT**, (v. a.) gofyn cyngor, ymgynghori, cydymgyngori
- CONSULTÁTION**, (s.) gofyniad cyngor, ymgynghoriad, cynghorfa
- CONSÚME**, (v.) treulio, difa, ysu, difrodi, dyfetha, afradloni, nychu
- CONSÚMMATE**, (v. a.) cwblhau, perffeithio, dybenu, gorffen, cyflawni, diweddu : (adj.) cwbl, hollol, cyflawan-gwbl, perffeith-gwbl
- CONSUMMÁTION**, (s.) cwblhad, perffeithiad, gorffeniad, diwedd
- CONSÚMPTION**, (s.) llifant, traul, darfodedigaeth, nychdod
- CONSÚMPTIVE**, (adj.) nychlyd, darfodedig, llifiannus
- CONSÚMPTIVENESS**, (s.) darfodedigrwydd, darfodedigaeth
- CONTÁBULATE**, (v.) llorio âg ystyllod
- CÓNTACT**, (s.) ymgyffwrdd, cyffyrddiad, cydgyffyrddiad
- CONTÁCTION**, (s.) cyffyrddiad
- CONTÁGION**, (s.) ymglwyf, haint, llyn, clefyd llusg, heinglwyf
- CONTÁGIOUS**, (adj.) llygrol, gwenwynig, heitnawsaidd, heintus
- CONTÁIN**, (v.) gweddu, cynnwys, annu, genni, dal
- CONTAMINÁTE**, (v. a.) halogi, diwyno, budreddu : (adj. or part.) halogedig, llygredig
- CONTAMINÁTION**, (s.) halogiad, diwynad, llwgr, llygriad
- CONTÉMn**, (v. a.) dirmygu, tremygu, dibrisio, diystyru, difrio
- CONTÉMPLETE**, (v. n.) ymsynied, sylwi, tremio, darsyllu
- CONTEMPLÁTION**, (s.) dwysfyfyriad,

- sylwad, darsylliad, synedigaeth, dwysdremiad, myfyrdod  
 CONTÉMPLATIVE, (adj.) syniol, myfyriol, tremiol, arystyriol  
 CONTÉMPT, (s.) dirmyg, tremyg, diystyrwch, dielwedd, gwawd  
 CONTÉMPtible, (adj.) dibris, dirmygus, salw, gwael, disas, diystyr  
 CONTÉMPtibleNESS, (s.) gwaelder, dibrisrwydd, dielwant  
 CONTÉMPtuous, (adj.) dibrisgar, a ddirmygo, diystyrllyd, trahaus  
 CONTÉMPtuousNESS, (s.) dibrisgarwch, trahausder, diystyrwch  
 CONTÉND, (v. n.) ymryson, ymrafael, cynhen, ymdaeru, trechedd, ymgeintach, ymddadleu  
 CONTÉNT, (adj.) boddlon, esmwyth: (v. a.) boddloni, boddhau  
 CONTÉNT, (s.) } boddlonrwydd,  
 CONTENTÁTION, } boddlondeb.—  
*A contented mind is a continual feast*, meddwl boddlongar sydd wledd barhaus  
 CONTÉNTED, (part. & adj.) boddlon  
 CONTÉNTION, (s.) cynnen, ymryson, amrafael, cywrysedd, cyfrysedd, ceintach, ymladd, ymddadleu  
 CONTÉNTIOUS, (adj.) ymrysongar, cynhenus, dadleugar, cecrus  
 CONTÉNTIOUSNESS, (s.) ymrysongarwch, ymrafaelgarwch, anhyweithdra, croesdyniad  
 CONTÉNTLESS, (adj.) anfoddog, anfoddlon  
 CONTÉNTMENT, (s.) boddlonrwydd  
 CONTÉST, (v.) ymsywyn, ymserthu, ymryson, ymeirio, ymgeinio, ymddadleu, ymdrechu, ymorwst, ymorchestu: (s.) ymryson, ymdrech, ymswrth, ymddadleu, ffrwgwd  
 CONTÉSTABLE, (adj.) ymrysonadwy, ymddadleuadwy, dadleuadwy  
 CÓNTEXT, (s.) swm, neu ystyr ymadrodd, gwersi amgylchiadol testun: (adj.) cydweüedig, cymmhleth, cyfrodedd  
 CONTÉXTURE, (s.) cymmhleth, cymmhlethiad, cydwëad, cyssylltiad, cyfansoddiad, gosodiad  
 CONTIGNÁTION, (s.) cledriad pen tŷ, ceibrad  
 CONTIGÚITY, (s.) cyffyrddiad  
 CONTÍGUOUS, (adj.) a fyddo'n cyffwrdd, cyfagos, cyfnesaf  
 CÓNtINENCE, } (s.) ymattal, ym-  
 CONTINENCY, } gynnal, ymarbed, diweirdeb, dianlladrwydd  
 CÓNtINENT, (adj.) ymattalus, diwair tymherus, dianllad: (s.) tir annosparthedig gan fôr  
 CONTÍNGENCE, } (s.) damwain, di-  
 CONTÍNGENCY, } chwain, dygwydd  
 CONTÍNGENT, (adj.) damweiniol, dygwyddol: (s.) damwain, dygwyddiad, dogniad, cyfran  
 CONTÍNGENTLY, (adv.) yn ddamweiniol, yn ddygwyddiadol  
 CONTÍNUAL, (adj.) gwastadol, parhaus, didrangc, didor, dibaid, digyfwng  
 CONTÍNUALLY, (adv.) yn wastadol, yn ddibaid, yn ddidor  
 CONTÍNUANCE, (s.) parhâd, gohiriad, hiriant, para, arosiad  
 CONTÍNUATE, (adj.) dibaid, didor  
 CONTINUÁTION, (s.) parhad, gohirad, estyniad, para  
 CONTÍNUE, (v. n.) parhau, bod yn ddidor, bod yn ddibaid, cyssylltu wrth, aros, estyn  
 CONTORT, (v. a.) croes-droi, nyddu yn wden  
 CONTÓRTION, (s.) croes-droad, nyddad, gŵyr-droad, croesdyniad  
 CONTÓUR, *pron. Contor*, (s.) cylchyniad, cylchluniad, amlunedd  
 CÓNTRA, (prep.) yn erbyn, gyfeirwyneb, gyferbyn  
 CONTRABAND, (adj.) anghyfreithlon, gwaharddedig  
 CONTRÁCT, (v.) tynu yn nghyd, casglu yn nghyd, byrhau, cwtoegi, cyfyngu — ammodi, dygymmodi, bargena: (s.) ammod, dogymmod, bargain, cyngair  
 CONTRÁCTION, (s.) byrhad, cwtoegiad, talfyriad, talgryniad  
 CONTRÁDÍCT, (v. a.) gwrthddywedyd, gwrthwynebu, gwrthddadleu, ammau, rhagu, gwrthddangos  
 CONTRADICTION, (s.) gwrthddywediad, gwrthiaith, croesddadl  
 CONTRADICTORY, (adj.) gwrthwyneb, gwrthwynebol  
 CONTRÁDÍCTORINESS, (s.) gwrthddadleugarwch, tueddiad i wrthddadleu, gwrthystyr

**CONTRADISTINCTION**, (s.) gwahan-redoliaeth, gwahaniad  
**CONTRADISTINGUISH**, (v. a.) gwrthwahanredoli, gwrthwahanu  
**CONTRARIETY**, (s.) gwrthwyneb, gwrthwynebedd, anghydfod, anghytundeb  
**CONTRARILY**, } (adv.) ar y gwrth-  
**CONTRARYWISE**, } wyneb, yn y gwrthwyneb, o'r tu arall  
**CONTRARY**, (adj.) gwrthwynebol, gwrthwyneb, anghytun  
**CONTRAVENE**, (v. a.) gwrthwynebu, rhwystro, troseddu  
**CONTRAVENTION**, (s.) gwrthwynebiad, trawsrediad, difuddiad  
**CONTRIBUTE**, (v.) rhoddi, cydroddi, cyfran, cynnorthwyo  
**CONTRIBUTION**, (s.) cydrodd, cyd-treth, cyfran, cyttal, casgl  
**CONTRITE**, (adj.) drylliog, briwedig, cystuddiedig, edifeiriol, edifarhaus, ysig  
**CONTRITION**, (s.) cystudd, edifeirwch, cystudd ysbryd  
**CONTRIVANCE**, (s.) dychymmyg, dyfais, ystryw, arfwriad  
**CONTRIVE**, (v. a.) dyfeisio, dychymmygu, bwriadu  
**CONTRIVER**, (s.) dychymmygwr, dyfeisiwr, lluniedydd  
**CONTRÓL**, (s.) cerydd, awdurdod, rhwysg, gallu: (v. a.) ceryddu, rheoli, rhwysgo, llywodraethu  
**CONTRÓLABLE**, (adj.) ceryddadwy, llywodraethadwy, ffrwynadwy  
**CONTRÓLLER**, (s.) llywodraethwr, rheolwr, gorchwyliwr, golygwr  
**CONTRÓLMENT**, (s.) rhwystr, luddias, gwrthwynebiad, attaliaeth  
**CONTROVERSIAL**, (adj.) dadleuol, gwrthddadleuol, ymrysonawl  
**CONTROVERSY**, (s.) ymryson, dadl, gwrthddadl, ymrafael, ymwrthryn  
**CONTROVÉRT**, (v.) ymddadleu, gwrthddadleu, gwrthwynebu  
**CONTROVÉRTIBLE**, (adj.) dadleuol, petrus, amheus, gwrthddadleuadwy  
**CONTROVÉRTIST**, (s.) gwrthddadleuwr, dadleuwr, cystedllydd  
**CONTUMÁCIOS**, (adj.) anufudd, cyndyn, anhydyn, afrywiog—anynd  
**CONTUMACY**, (s.) anufudd ded, cyn-

dynrwydd, anhydynrwydd, afrywiogrwydd, ystyfnigrwydd  
**CONTUMÉLIOUS**, (adj.) enllibus, dirmygus, sarhaus, amharchus  
**CONTUMÉLIOUSNESS**, (adj.) enllibrwydd, dirmygrwydd, gwarthus  
**CONTUMELY**, (s.) sarhad, amharch, dirmyg, diystyrwch, enllib, dryfri, edliwiant  
**CONTÚSION**, (s.) briwiad, duliad, pwyad, baeddiad, cymriw  
**CONVALÉSCENCE**, } (s.) adferiad ie-  
**CONVALÉSCENCY**, } chyd, gwelihad o glefyd, gwelliant  
**CONVENE**, (v. a.) galw yn nghyd, crynhoi yn nghyd, dyfynu  
**CONVÉNIENCE**, } (s.) cymmwysdra,  
**CONVÉNIENCY**, } cyngweddiad, cymmesurwydd, addasrwydd, cyfleu, amser cyfaddas, odfa, hamdden  
**CONVÉNIENT**, (adj.) gweddus, gweddol, addas, cyfaddas, cymmwys, cymmesur, cyfleus, buddiol  
**CONVÉNIENTLY**, (adv.) yn gyfleus, heb fod allan o ffordd un, neu yn anfanteisiol iddo, yn fuddiol  
**CONVENT**, (s.) cynnulleidfa, cymmanfa, ymgynnull, crefydd  
**CONVÉNTICLE**, (s.) cynnulleidfa, cyfarfod bychan. Y mae y gair yn cael ei gymmwysu, gan rai, at bob cyfarfodydd crefyddol sydd heb fod yn ol trefn Eglwys Loegr  
**CONVÉNTION**, (s.) cymmanfa—ammod, dygymmod, cyfammod  
**CONVÉRGE**, (v. n.) cydtueddu, cyfarfod yn yr un pwynt  
**CONVÉRGENT**, (part.) yn nesáu at eu gilydd, neu'n tueddu at yr un pwynt  
**CONVÉRSABLE**, (adj.) ymarweddadwy, hyfwyn, ymddyddangar  
**CONVÉRSANT**, (adj.) cynnesu, arferedig, hyddysg, cyfarwydd  
**CONVÉRSATION**, (s.) ymarweddiad, ymddygiad—cyfeiliach, ymddyddan  
**CONVÉRSE**, (v. a.) cydymddyddan, cydlesaru, ymchwedleua — ymgyfeillachu: (s.) cydymddyddan, cydsiarad—cyfeillach, cydnabod  
**CONVÉRSIBLE**, (adj.) cyfeillgar, siaradus, parablwyn  
**CONVÉRSION**, (s.) troad, troedigaeth, ymchweliad, cyfnewidiad  
**CONVERT**, (s.) ymchwelwr, cyfnew-



- idiwr, dychwelwr: (v. a.) ymchwelyd, troi, cyfnewido
- CONVERTIBLE, (adj.) ymchweladwy, troadwy, newidadwy
- CONVEX, (adj.) crwm, gogwyddedig: (v.) crymu, argrymu, gogwyddo
- CONVEXITY, (s.) crymedd, y tu allan i beth cau, gogwyddiad
- CONVEXNESS, (s.)edr. *Convexity*
- CONVEY, (v. a.) trosglwyddo, symud, mudo, cywain, dwyn i mewn, arallu, cludo, trosi
- CONVEYANCE, (s.) trosglwydd, mud, symudiad, dygiad
- CONVIC, (v. a.) argyhoeddi, profi yn euog: (s.) yn argyhoeddedig, un wedi ei gyhuddo
- CONVICTION, (s.) argyhoeddiad, cyhuddiad, gwrthbrawf
- CONVINCE, (v. a.) profi yn eglur, peri coelio, argyhoeddi, llwyr argyhoeddi, Judas 15.
- CONVINCEMENT, (s.)edr. *Conviction*
- CONVINCEABLE, (adj.) argyhoeddadwy
- CONVINCINGLY, (adv.) yn argyhoeddiadol, yn anwrthwynebol
- CONVIVIAL, (adj.) cydwleddol
- CONÚDRUM, (s.) gwatworair, gwawdair, mwysair
- CONVOCATION, (s.) cymmanfa, llwyrwys, cydwys, cyd-ddyfyn, seneddr. —*Convocation-house*, dadleudy
- CONVOKE, (v. a.) galw yn nghyd, cyd-ddyfynu, cydwysio
- CONVOLVE, (v. a.) dirwyn yn nghyd, trëiglo yn nghyd, cyd-ddirwyn
- CONVOY, (v. a.) canymdaith er amddiffyniad: (s.) amddiffynfa, porth, cynuorthwy
- CONVUSANCE, (s.)edr. *Cognizance*
- CONVULSION, (s.) y clefyd Spasmos —*tyniad*, crebychiad
- CONY, (s.) cwningen, ffiogen
- CONYCATHER, (s.) lleidr, twyllwr
- COO, (v. n.) lleisio fel colommen
- COOK, (s.) cog, cogydd, cyweiriwr bwyd, ceginwr, ceginwraig: (v. a.) cogyddio, trin bwyd
- COOKERY, (s.) coginiaeth, cogyddiaeth, arlwyaeth, ceginiaeth
- COOL, (v.) oeri, addoeri: (adj.) addoer, lled-oer, go-oer: (s.) oerni, addoerni
- COOLNESS, (s.) oerni, cerfel, oerder
- COOM, (s.) huddygl, iriad trol
- COOMB, (s.) mesur yd o bedwar ystaca
- COOP, (s.) adardy, cut iair
- COOPER, (s.) cylchwr, hwper
- CO-OPERATE, (v. n.) cydweithio
- CO-OPERATION, (s.) cydweithiad
- CO-OPERATIVE, (adj.) cydweithiol
- CO-ORDINATE, (adj.) cydradd
- COOT, (s.) coliar, rhyw fôr aderyn
- COP, (s.) copa, coryn, cobin
- COPARTNER, (s.) cydwr, cydymaith
- COPARTNERSHIP, (s.) cyfranogaeth, cydraniad, cydfasnach
- COPE, (s.) penwisg—mantell, neu wisg offeiriad yn cyrhaeddyd o'r ysgwyddau i'r traed—crib gwal
- COPIER, (s.) ysgrifenedydd, copiwr
- COPING, (s.) crib tŷ, corbel
- COPIOUS, (adj.) helaethlawn, lliosog, diamdlawd, fflwch, aml, goludog
- COPIOUSNESS, (s.) amledd, amlder, haflug, helaethrwydd, lliosogrwydd
- COPIST, (s.)edr. *Copier*
- COPPER, (s.) copr, alcan, alcan, latyn, rhydd-efydd
- COPPERAS, (s.) copras, du'r crydd
- COPPICE, } (s.) coedwig, mân goed,
- COPSE, } collwyn, glasgoed
- COPPLE, (s.) math o dawdd lestr
- COPULA, (s.) cyd, cydiad, cysswllt, cwplws
- COPULATE, (v.) cwplysu, cyssylltu, cydio, ymrain
- COPULATION, (s.) cwplad, cyssylltiad, cydiad, cydgnodiad
- COPY, (s.) copi, ail-ysgrifen, esampl, cynlyn, cynddelw: (v. a.) ysgrifenu allan, copio—canlyn esampl, neu cynddelw
- COPY-HOLD, (s.) meddiant o dir dan nodded arglwydd y maenor; dailfeddiant
- COQUET, (v. a.) ymoleithio, truthio, twyllo trwy ymddangosiad o gariad, twyll garu
- COQUETRY, (s.) ffug-gariad
- COQUETTE, (s.) coegen
- CORACLE, (s.) corwgl, cychyn pysgota
- CORAL, (s.) cwrel
- CORALLINE, (adj.) cwrelaidd
- CORANT, (s.) buan ddawns
- CORB, (s.) basged, cawell
- CORBAN, (s.) elusen gist, cist drysor, sylltdŷ, basged elusen; rhodd, elusen
- CORBEL, (s.) gobenydd-waith o

- bridd i ddiogelu milwyr : ysgwydd-drawst, corbel, corbed
- CORD**, (s.) cordyn, tennyn, rhaff, rheffyn: (v. a.) rhwymo â chordyn-au, neu reffynau
- CÓRDAGE**, (s.) rhaffau
- CORDELIÉR**, (s.) un o frawdoliaeth St. Francis; rheffynydd; mynach o urdd St Francis, â rheffyn ganddo yn lle gwregys, yr hyn yw nôd gwahaniaethol y frawdoliaeth
- CÓRDIAL**, (s.) diod feddyginiaeth, eli'r galon: *fig.* un peth a sirio'r ysbrydoedd, neu a beru orfoledd: (adj.) adfywiol, siriol, calonog
- CÓRDON**, (s.) talaith—rhestr o gerrig
- CORDWAINER**, (s.) crydd, gwniydd esgidiau
- CORE**, (s.) calon
- CORK**, (s.) corc, madarch
- CÓRMORANT**, (s.) mulfran, morfran: *fig.* dyn glwth neu reibus
- CORN**, (s.) ŷd, llafur
- CÓRNEOUS**, (adj.) corniog
- CÓRNER**, (s.) cornel, ongl, congl, cilfach, lloches
- CÓRNET**, (s.) udgorn, corn rhyfel, llummanwr, dygiawdr arwydd yn rhyfel, math o udgorn
- CÓRNICE**, (s.) ysgwyddiad colofnau mewn adail, talaith
- CORNÍGEROUS**, (adj.) corniog, cyrnig, yn dwyn cyrn
- CORNÚTE**, (v. a.) rhoddi cyrn, gwneuthŵr cwcwallt, cycwalltu
- CORNÚTO**, (s.) cwcwallt, cyrnucyll
- CORNY**, (adj.) cyrnig, caled megys corn, grawnaid
- CÓROLLARY**, (s.) casgliad, neu ganlyniad a dynir oddiwrth ryw beth a brofwyd, clod, diweddglo
- CORONÁTION**, (s.) coroniad
- CORONER**, (s.) crownwr, swyddog i'r hwn y perthyn ymholi am achos pob math o angen dysyfyd
- CÓRONET**, (s.) coronig
- CÓRPORAL**, (s.) yr iselaf o swyddogion milwraidd: (adj.) corfforol, corffog, corffawl, corffaid
- CORPORÁLITY**, (s. corffoldeb
- CÓRPORATE**, (v.) corffori, corffolaethu: (adj.) corfforedig
- CÓRPORATION**, (s.) corffolaeth—bwrdeisdref
- CORPS**, (s.) byddin o filwyr
- CORPSE**, (s.) corph marw, celain, burgyn, llurgyn.—*Corpse candle*, canwyll corff, sydd i'w gweled, neu a ddychymmygir ei gweled, yn myned oddiwrth dŷ tu a'r llan, o flaen marwolaeth un o'r teulu. Yn Esgobaeth Dewi, meddant, y mae'r ddrychiolaeth hon i'w cháel
- CÓRPULENCE**, } (s.) corffolaeth,
- CÓRPULENCY**, } corffoldeb
- CÓRPULENT**, (adj.) corffog, cnawdog, tew, corffawg
- CORPÚSCLE**, } (s.) corffyn, corff-
- CORPÚSCULE**, } ilyn, mymryn
- CORPÚSCULAR**, (adj.) mymrynaidd, corffilaidd, mymrynol
- CORRECT**, (v. a.) ceryddu, cospi—diwygio, difeio, gwella: (adj.) diwygiedig, cywraint, cywir, diwygiol
- CORRÉCTION**, (s.) cosp, cerydd, diwygiad, gwellhâd, adgyweiriad
- CORRECTLY**, (adv.) yn gywraint, yn ddiwygiol, yn gywir
- CORRECTNESS**, (s.) cywreinrwydd, manylrwydd, cyweirdeb
- CORRÉLATIVE**, (adj.) cydberthynasol, cydgâr, cydgenedl
- CORRESPOND**, (v. a.) cyd-ateb, at-ateb, cytuno, cydsynio, cyngweddu
- CORRESPONDENCE**, } (s.) cytundeb,
- CORRESPONDENCY**, } cyfattedbiad, cyngweddiad—gohebiad, cwsmeriaeth, cyfeillach epistolaid
- CORRESPONDENT**, (adj.) cyfattedbol, gohebol; cytun, cyfaddas: (s.) gohebwr
- CORRIGIBLE**, (adj.) ceryddadwy, cospadwy, diwygiadwy
- CORRÓBORANT**, (adj.) cydnerthol
- CORRÓBORATE**, (v. a.) cydnerthu cryfhau, flurfhau, cadaruhau
- CORROBORÁTION**, (s.) cyduerthad, cryfhad, cadaruhad
- CORRÓBORATIVE**, (adj.) cryfhaol
- CORRÓDE**, (v. a.) amgnoi, ysu'n raddol, difa
- CORRÓDENT**, (adj.) ysol
- CORRÓDIBLE**, (adj.) ysadwy
- CORRÓSION**, (s.) ysad, treuliad, difad
- CORRÚGATE**, (v. a.) crychu
- CORRÚPT**, (v.) llygru, halogi, diwyyno; pydru, crowni, gwobri: (ad., halogedig, llygredig

- CORRUPTIBILITY**, (s.) halogrwydd  
**CORRUPTIBLE**, (adj.) llygradwy, llygredig, halogedig  
**CORRUPTIBLY**, (adv.) yn llygredig  
**CORRUPTION**, (s.) llygriad, llygredigaeth, crawn, gor, llwgr  
**CORRUPTIVE**, (adj.) llygredig  
**CORRUPTNESS**, (s.) llygredigaeth  
**CORSAIR**, (s.) morleidr, morwylliad  
**CORSE**, (s.) edr. *Corpse*  
**CORSELET**, (s.) lluryg, curas; bron-gengl, dwyfroneg  
**CORTICAL**, (adj.) rhisglog, rhisgog  
**CORTICÓSE**, (adj.) rhisglog  
**CORUSCANT**, (adj.) dysglair, gloyw, llachar, llwyrchawl  
**CORUSCATION**, (s.) llwyrchiad, mell-teniad, llucheden, tywyniad  
**COSMÓGRAPHY**, (s.) *from* Gk. *Kosmos*, world, byd, and *γραφω*, to write, ysgrifenu; argraff o'r byd, disgrifiad o'r byd  
**COSSET**, (s.) oen llawfaeth  
**COST**, (s.) traul, cost; pris: (v. n.) *costio*  
**COSTARD**, (s.) pen afal crwn  
**CÓSTIVE**, (adj.) rhwym, rhesrwm, rhesrwym, bobrwym  
**CÓSTIVENESS**, (s.) rhesrwymedd  
**CÓSTLINESS**, (s.) drudaniaeth, uchelbris, gwerthfawrogrwydd  
**CÓSTLY**, (adj.) drud, pryd, costfawr, prisfawr, gwerthfawr  
**COT**, (s.) bwth, cuddigl, lluesty, cab, caban, twlc, cut, bwthyn  
**CÓTEMPORARY**, (adj.) cyfoed, cydoed, gogyfoed, cyfoediog  
**CÓTTAGE**, (s.) edr. *Cot*  
**CÓTTON**, (s.) cottwm, ceden.—*Cotton-grass*, plu'r gweunydd  
**COUCH**, (v. n.) gorwedd, Deut. xxxiii. 13. — cynllwyn — cynnwys: (s.) gwal, glwth, gwely  
**COVE**, (s.) cil, cilfach, nawdd, noddfa, llech, llechfan, lloches  
**CÓVENANT**, (s.) cyfammed, ammod, cyngair, dygymmod, cytundeb, bargein: (v. n.) cyfammodi, cytuno, bargena, gwneuthur cyngair  
**CÓVER**, (s.) clawr, caead, gwerchyr, cwfert: (v. a.) toi, gorthoi, euddio, gorchuddio, anhuddo—tanu  
**CÓVERING**, (s.) gorchudd, hws, hudling, tōad, gorchuddiad  
**CÓVERLET**, (s.) cwrlid, gwrthban  
**CÓVERT**, (s.) amddiffynfa, noddfa, lloches, llechfan, ymguddfa: (adj.) amddiffynedig; cuddiedig, dirgel  
**CÓVET**, (v. a.) chwennych, chwennychu, trachwantu, cybyddu  
**CÓVETOUS**, (adj.) cybyddlyd, trachwantus, awyddus, cybydd  
**CÓVETOUSNESS**, (s.) cybydd-dod, crintachrwydd, trachwant, ang-hawrdeb, cybyddiaeth  
**CÓVEY**, (s.) deoriad o adar, haid  
**COUGH**, *pron. Coff*, (s.) peswch, pas: (v. n.) pesychu  
**COVIN**, (s.) cytundeb rhwng dau, neu ragor, idwylllo un; dichell, ystryw, cyd-dwyll  
**COULD**, (preter-imperfect Tense of *Can*) gallwn, gallit, neu gallai  
**COULTER**, (s.) cwlltr, cwlltwr  
**COÚNCIL**, (s.) cwnsli, cyngor, cymmanfa. — *Privy-council*, cyfringyngor  
**COÚNSEL**, (s.) cyngor, cyssul—dadleuwr, cynghaws  
**COÚNSELLOR**, (s.) cyngorwr, dadleuwr, cynghaws, cyfreithwr  
**COUNT**, (v. a.) cyfrif, rhifo: (s.) cyfrif, rhif—iarll  
**COÚNTENANCE**, (s.) wyneb, wynebyrd, gwedd, edrychiad, trem, gosgedd—annogaeth, cymmorth: (v. a.) ffafrio, cynnorthwyo, cysuro, annog  
**COÚNTER**, (s.) bwrdd cyfrif: (adv.) yn erbyn, yn ngwrthwyneb  
**COÚNTERÁCT**, (v. n.) gwrthweithred, gwrthweithio  
**CÓUNTERBÁLANCE**, (v. a.) gwrthbwyso, cyfartalu: (s.) gwrthbwyso  
**CÓUNTERFEIT**, (v. a.) ffugio, amredu; elfyddu, cyffelybu: (adj.) ffugiol: (s.) ffug, amredydd, twyll—ffugiwr, amredwr, twyllwr, elfyddwr  
**CÓUNTERMÁND**, (v. a.) gwrthwynebu gorchymryn, gorchymryn rhyw beth yn wrthwyneb i'r hyn a orchymrynwyd  
**CÓUNTERMINE**, (v. a.) cloddio yn y gwrthwyneb, seithugio amcan un, siomi yn ddirgel  
**CÓUNTERPLOT**, (s.) ystrange yn erbyn ystrange, gwrthystryw  
**CÓUNTERPÓISE**, (v. a.) edr. *Counterbalance*

**COUNTERVÁIL**, (v. n.) bod yn union, bod yn gyfartal; talu'r pwyth, gwneuthur iawn, cyfiawnu  
**CÓUNTESS**, (s.) iarlles  
**CÓUNTLESS**, (adj.) anghyfrifol  
**CÓUNTRY**, (s.) gwlad, ardal, bro  
**CÓUNTY**, (s.) swydd, sir, rhandir  
**CÓUPLE**, (s.) pár, cwpl: (v. a.) cwplysu, cyssylltu, uno  
**CÓURAGE**, (s.) glewder, dewrder, eonder, hyder, calondid, gwychder, cefnogrwydd, gwroldeb  
**COURÁGEOUS**, (adj.) difiniawg, calonog, hyderus, cofn, anturiol, hŷ  
**COURÁGEOUSNESS**, (s.) mawrfrydigrwydd, calonogrwydd  
**CÓURIER**, (s.) cenad, negeswr  
**COURSE**, (s.) ystem, cylchddydd, gyrfa, cwrs, rhediad, helynt, hynt, hyt. tynt—trefn, ffordd: (v.) cwrsio, hela, canlyn, rhedeg  
**COURT**, (s.) llys—clos, cadlais, cadlas, talwrn, cynteddfa: (v. a.) caru—erlyn, adolwyn; gwenieithio, denu  
**CÓURTEOUS**, (adj.) cyweithas, dygiadus, tirion, moesol, medrus, mwynaid, caredigol, mwyn  
**CÓURTEOUSNESS**, (s.) cyweithasrwydd, tiriondeb, moesgarwch, medrusrwydd, mwyneidd-dra  
**CÓURTESAN**, } (s.) putain, godineb-  
**CÓURTEZAN**, } wraig, cyffoden  
**CÓURTESY**, (s.) cyweithasrwydd, tiriondeb, tirionwch, medrusrwydd, caredigrwydd—ymgrymiad  
**CÓURTIER**, (s.) gwr llys—carwr  
**CÓURTSHIP**, (s.) caredigaeth, cariad  
**CÓUSIN**, (s.) cefnderw, cefnder, cefnither—câr, carwr, cares  
**Cow**, (s.) buw, buwch, henfon: (v. a.) darostwng, cadw dan llaw.—*Cow-wheat*, glinogai  
**CÓWARD**, (s.) llwfr, ofnog, un gwan galon, cynffongi, cachgi  
**CÓWARDICE**, (s.) ciliad, llyfrder, gwan-galondid, ofnogrwydd, annewredd, cachgieiddrwydd  
**CÓWARDLINESS**, (s.) edr. *Cowardice*  
**CÓWARDLY**, (adj.) gwan-galon, digalon, llwfr, llesg, annewr, ofnog  
**COWL**, (s.) cwfl, cwll—llestr  
**COWSLIPS**, (s.) briallu Mair  
**CÓXCOMB**, (s.) cymmyreddwr.—*Red*

*coxcomb*, balog y waun, y fêl sugn, llysiâu'r eglwys  
**COXCÓMICAL**, (adj.) cymmyreddus, rhodresus, coegynaidd  
**COX**, (adj.) cyndyn, anhydryn, anynad; dirmygus, mersynaidd  
**CÓYNESS**, (s.) ymgynnal; anynad-rwydd, dirmyg, mersyndod  
**Coz**, (s.) edr. *Cousin*  
**CÓZEN**, (v. a.) twyllo, siomi, hudo, seithugio  
**CÓZENAGE**, (s.) twyll, dichell, hud, hudoliaeth, siom, siomiant  
**CRAB**, } (adj.) sur, sarrug, drwg-  
**CRÁBBED**, } naw, anhynaws, anynad, anhywaith—dyrus: (s.) crangc, crwban—afal sur: *fig.* dyn sur, drwgnaws  
**CRÁBBEDNESS**, (s.) sarrugrwydd, gerwindeb, anynadrwydd, anhyweithdra—anhawsder, surder  
**CRACK**, (s.) agen, hollt—diaspad, trwst—ymffrostiwr, rhodreswr: (v.) tori, dryllio; rhwygo, hollti, agenu—trystio, clindarddach, diaspedain—ymffrostio, ymfolychu  
**CRÁCKLE**, (v. n.) clindarddach  
**CRADLE**, (s.) ctud, cawell: *fig.* mabyd, maboed  
**CRAFT**, (s.) crefft, celfyddyd—cyfrwysder, ystryw, twyll, dichell, ystrangc—mân longau  
**CRÁFTILY**, (adv.) yn gyfrwys, yn ystrywgar  
**CRÁFTINESS**, (s.) cyfrwysedd, ystrangc, dichellgarwch  
**CRÁFTSMAN**, (s.) crefftwr, gwr o gelfyddyd, celfyddwr  
**CRÁFTY**, (adj.) cyfrwys, dichellgar, ystrywus  
**CRAG**, (s.) craig, ysgythredd  
**CRÁGGED**, (adj.) creigiog, caregog  
**CRÁGGY**, (adj.) creigiog, garw, ysgythrog, clegyrog  
**CRAM**, (v. a.) sengi, sechi, llenwi, pesgi, ymrythu, arsangu  
**CRÁMBO**, (s.) chwarae cynghaneddol, gwag rimynwaith  
**CRAMP**, (s.) cramp, wrwst, cwlwm gwthi: (v. a.) attal, rhwystro, ffirwyno, caethiwo: (adj.) dyrus, anhawdd  
**CRANE**, (s.) garan, cryr, cryhyr, aderyn garhir—peiriaut

- CRANK**, (adj.) iach, iachus—llawen, gorawenus, pendant  
**CRÁNKLE**, (v. a.) rhedeg mewn ac allan; rhedeg yn droeon  
**CRÁNNY**, (s.)edr. *Cleft*  
**CRÁPULANCE**, (s.) meddwdod, brwysgedd  
**CRÁPULOUS**, (adj.) meddw  
**CRÁSH**, (v. n.) trystio, darstain, diaspedain, clindarddach: (act.) tori, rhwygo, dryllio: *fig.* yfed, *I pray you come, and crash a cup of wine*, Shakes.—(s.) trwst, ysgort  
**CRÁSSITUDE**, (s.) brasder, tewedd, tewder, praffder  
**CRÁSTINATION**, (s.) oediad, gohiriad  
**CRATCH**, (s.) preseb, rhastal, rhesel, cornelig gaued  
**CRÁVAT**, (s.) cwrsi, gwddf-liain  
**CRAVE**, (v. a.) gofyn, dymuno, erfyn, adolwyn, ymgais, deisyf  
**CRAUNCH**, (v. a.) briwo â dannedd, rhygnu dannedd  
**CRAW**, (s.) crombil, crofa  
**CRAWL**, (v. n.) ymlusgo, cropian, criplan, ymgriplan  
**CRAWLER**, (s.) ymlusgwr  
**CRÁYON**, (s.) puntr lluniedyddion  
**CRÁZEDNESS**, (s.) gwendid  
**CRÁZINESS**, (s.) gwendid, anghynerth, eiddilwch — ynfydrwydd, gorffwyll, cynddaredd  
**CRÁZY**, (adj.) gwan, egwan, eiddil — ynfyd, gwallgofus, gorffwyllus, maes o'i gof, methedig  
**CREÁK**, (v. n.) crecian, grillian, gwichio, grilian  
**CREAM**, (s.) hufen: (v. n.) hufenu  
**CRÉAMY**, (adj.) hufenog  
**CREASE**, (s.) plyg, dull, rych, plygiad: (v. a.) plygu, dullio  
**CREATE**, (v. a.) creu, gwneuthur, peri, urddo  
**CREÁTION**, (s.) creadigaeth, cread, gwneuthuriad, creadwriaeth  
**CRÉATIVE**, (adj.) creuol  
**CRÉATOR**, (s.) Creawdwr  
**CRÉATURE**, (s.) creadur  
**CRÉDENCE**, (s.) crediniaeth, coel, cred, hyder, ffydd  
**CRÉDÉNDÁ**, (s.) erthyglau ffydd  
**CRÉDÉNTIAL**, (s.) tystiolaeth  
**CRÉDIBÍLITY**, (s.) tebygliaeth i wir  
**CRÉDIBLE**, (a.) credadwy, hygoel, hygred, coeladwy  
**CRÉDIBLENESS**, (s.)edr. *Credibility*  
**CRÉDIT**, (s.) cred, coel, hygoel, hyder—gwirionedd, dilysrwydd—bri, parch, cymmeriad, cymmyred  
**CRÉDITABLE**, (adj.) parchus, cymmeradwy, anrhydeddus, cyfrifol  
**CRÉDITABLENESS**, (s.) parch, cymmeriaeth, bri, cyfrifiad  
**CRÉDITABLY**, (adj.) yn gyfrifol, yn gymmerus, yn barchus  
**CRÉDITOR**, (s.) achretawr, coeliwr, perchen dyled, gofynwr  
**CRÉDÚLITY**, (s.) hygoeledd, crediniaeth  
**CRÉDULOUS**, (adj.) hygoel, hygred, ehud, coelgar, hygoelus  
**CRÉDULOUSNESS**, (s.)edr. *Credulity*  
**CREED**, (s.) cyffes ffydd, credo  
**CREEK**, (v. n.) grillian, gwichian: (s.) cil, cilfach, ebach  
**CRÉEKY**, (adj.) cilfachog, ebachog  
**CREEP**, (v. n.) criplan, cropian, ymlusgo, ymlithro  
**CREEPER**, (*bird*) (s.) y grepianog  
**CRÉPITATE**, (v. n.) clindarddach, grillian, diaspedain, rhingcian  
**CRÉPITÁTION**, (s.) grilliad, clindarddach  
**CRÉPÚSCLE**; (s.) cyfnos, gogyfnos, cyflychwyr, gorchyfarwy  
**CRÉSCENT**, (adj.) cynnyddol, tyfol, cynnyrchol: (s.) cynnydd y lleuad  
**CRÉSSET**, (s.) goleud mewn tŵr gwylled, trybedd, bigwrn  
**CREST**, (s.) crib, copa, crib helm, pen addurn: *fig.* balchder  
**CRÉSTED**, (adj.) cribog, cobynawg  
**CRETÁCEOUS**, (adj.) sialcog, calchog  
**CRÉVICE**, (s.) agen, hollt  
**CRÉVIS**, (s.) llamhidydd  
**CREW**, (s.) brodoriaeth, mintai o'r un gyfeillach — y gymdeithas o forwyr a fyddo yn yr un llong  
**CRÉWEL**, (s.) pellen o edafedd  
**CRIB**, (s.) preseb, rhastal, rhesel  
**CRÍBBLE**, (s.) gogr, gwagr  
**CRIBRÁTION**, (s.) gogryniad, rhuchiad  
**CRICK**, (s.) grill—anystwythder gwddf, anwyd-bigyn  
**CRÍCKET**, (s.) cricied, pry'r tân  
**CRÍER**, (s.) criwr, cyhoeddwr  
**CRÍME**, (s.) bai, caredd, sarhad, cyflafan, achwyn, y peth a roddir yn erbyn un, trosedd, camwedd

- CRIMINAL**, (adj.) beius, drygionus, euog, cylus, camgylus: (s.) troseddwr, camweithredwr, y cyhuddedig
- CRIMINOUS**, (adj.) beius, cylus, goganus, careddog
- CRIMINOUSNESS**, (s.) euogrwydd, drygioni, bai, beusrwydd
- CRIMP**, (adj.) brau, crych
- CRIMPLE**, (v. a.) crychu
- CRIMSON**, (s.) lliw coch, porffor
- CRINGE**, (v.) crychu—plygu—gwenieithio, tra ymostwng
- CRINKLE**, (sub.) crych, crychiad, rhych, rychni: (v. n.) crychu, rychu
- CRINÓSE**, (adj.) gwalltog, garw
- CRIPPLE**, (s.) crupl, cloff: (v. a.) cruplo, cloffi
- CRISIS**, (s.) amser nodedig
- CRISP**, (adj.) crych, crych-gras, (v. a.) crychu, troi, torchi
- CRISPATION**, (s.) crychiad, crasiad
- CRISPNESS**, (s.) crychrwydd
- CRITÉRIUM**, (s.) nód gwahaniad, neu farc wrth ba un y barnir pethau
- CRITICAL**, (adj.) barnol, manol, cywraint, llym, peryglus.—*Critical Days*, marwddydd; dyddiau barn am glefyd.—*Critical times*, amser niweidiol
- CRITICALNESS**, (s.) manylrwydd, cywreinerwydd, enbydrwydd
- CRITICISE**, (v.) beio, barnu ar—ysgrifenu sylwadau, neu chwilio allan gywreinerwydd, neu ddiffyg-iadau peth, diwygio
- CRÍTICK**, **CRÍTIC**, (s.) beirniad
- CRÍTICISM**, (s.) sylwad, barn
- CROAK**, (v. n.) creu, lleisio fel llyffaut, neu frân: (s.) llais cigfran, neu frân
- CRÓCEOUS**, (adj.) saffrymog, saffrymaidd
- CROCK**, (s.) crochan, callor—huddyl: (v.) pardduo
- CRÓCKERY**, (s.) llestri pridd
- CRÓCODILE**, (s.) crocodil; creadur tebyg i'r genau goeg, ond o faint anferth: y mae yn byw ar y tir ac yn y dwfr; ac yn dra chyffredin yn, ac o ddeutu Nilus, afon yn yr Aipht.—Fe dybia rhai mai hwn yw y creadur a ddarlunir yn Job xli. dan yr enw Lefiathan
- CRÓCUS**, (s.) saffrwm
- CROFT**, (s.) maesan, maes bychan
- CROÍSADE**, (s.) rhyfel sanctaidd, neu ymgychwyn yn erbyn anghredinwyr—darn o arian gwerth 2s. 6c.
- CROOK**, (s.) bach, crwbach: (v. a.) camu, crymu, crwbachu
- CRÓOKED**, (adj.) crwm, cam, bachog
- CRÓOKEDNESS**, (s.) camedd, crymiad, gwyredd, gwyrnl
- CROP**, (s.) crombil, cropa—cnwd: (v. a.) tocio, ysgythru, tori brig peth
- CRÓSIER**, (s.) bugeillfon esgob, bagl egob
- CRÓSLET**, (s.) croes fechan
- CROSS**, (s.) croes, crog—dryglam, anffawd: (adj.) croes, gwrthnysig, gwrthwynebus, anhynaws: (v. a.) croesi, gwrthwynebu—myned trosodd: (adv.) ar draws, yn groes
- CROSSBOW**, (s.) albras, bwa croes, albrys
- CRÓSSLY**, (adv.) yn wrthwyneb, ar draws—yn anffodiog, yn aflwyddiannus, yn wrthwynebus
- CRÓSSNESS**, (s.) croesineb, gwrthnysigrwydd, anhynawsedd, cildynrwydd, cyndynrwydd
- CRÓSSWAY**, (s.) croes-ffordd, llwybr croes
- CRÓSSWORT**, (s.) paderau Mair, llysiâu'r groes
- CRÓTCHET**, (s.) cromfach—dychymmyg, nód amser
- CROUCH**, (v. n.) gostwng yn isel, ymblygu—gwenieithio
- CROUP**, (s.) pedrain, ffolen
- CRÓUPER**, (s.) postolwyn
- CROW**, (s.) brân: (v. n.) canu fel ceiliog: *fig.* ffrostio
- CROWD**, (s.) cyrchfa, torf, tyrfa, lliaws, mintai, rhawd—crwth: (v.) gwasgu, cyfyngu, crynhoi yn dorf
- CROWN**, (s.) coron, talaith: (v. a.) coroni, taleithio.—*Crown of the head*, coryn, siol
- CRÚCIAL**, (adj.) o ddull croes
- CRÚCIATE**, (v. a.) poeni, dirboeni, arteithio
- CRÚCIBLE**, (s.) crochenyn toddi, llestr toddi, tawdd-lestr
- CRÚCIFIX**, (s.) llun Crist ar y groes
- CRUCIFÍXION**, (s.) croes-hoeliad
- CRUCIFY**, (v. a.) croes-hoelio, hoelio ar groes

- CRUDE**, (adj.) llymrwg, amrwd, ír, anaddfed, amhuredig  
**CRÚDENESS**, } (s.) amrydedd, llym-  
**CRÚDITY**, } rigrwydd—*anaddfed-*  
*twydd, amhuredigrwydd*  
**CRÚEL**, (adj.) creulon, ciaidd, tanog, cethin, dywal, ffyrnig, uthr, hyl  
**CRÚELNESS**, } (s.) creulonder, dy-  
**CRÚELTY**, } walder, ffyrnigrwydd, uthredd  
**CRÚET**, (s.) cunach, costreliog  
**CRUISE**, (s.) cwpan bychan: (v. n.) mordwyo yma ac acw  
**CRUISER**, (s.) llong a fyddo yn morio mewn ymofyniad am longau'r gelynyon, gwiblong  
**CRUM**, } (s.) briwionyn, briwsion-  
**CRUMB**, } yn, difyn, bywyn  
**CRÚMBLE**, (v. a.) briwio, briwsioni, malurio, difynio, malu  
**CRÚMMY**, (adj.) briwsionllyd, tyner  
**CRUMP**, (adj.) crwm, crwca  
**CRÚMPLE**, (v. a.) crychu, cuchio: (s.) rhych, crychiad, rhigol  
**CRÚPPER**, (s.)edr. *Crouper*  
**CRÚRAL**, (adj.) yn perthyn i'r goes  
**CRUSÁDE**, (s.)edr. *Croisade*  
**CRUSH**, (v. a.) cymriwo, cymhwyo, dulio, malurio, dryllio, gorthrech, gormelio, gormesu, llethu—*dinystrio, gorchfygu*: (s.) cymmwy, duliad—*dystrywiad*  
**CRUST**, (s.) crwst, cramen, crawen: (v.) crystio, crawenu, crestenu  
**CRUSTÁCEOUS**, (adj.) crestenog, crawenog, crogenog, cramenaid  
**CRUSTINESS**, (s.) surni, sarugrwydd  
**CRÚSTY**, (adj.) crystog: *fig. afryw- iog, anhynaws, anynad, sarug*  
**CRUTCH**, (s.) bagl, ffon-fagl, brysgyll  
**CRY**, (v.) crio, gweiddi, llefain, bloeddio, germain, dolefain: (s.) llef, bloedd, diasb, cri, gwaedd, dolef  
**CRÝTÓGRAPHY**, (s.) *from Gr. Κρυπτω, to hide, cuddio, and γραφω, to write, ysgrifenu, ysgrifeniad dirgel wrth nodau, neu arwyddion*  
**CRÝSTAL**, (s.) crisial, grisial, crisiant  
**CRÝSTÁLLINE**, (adj.) crisialaid, gloyw, dysglair, eglur, tryloyw  
**CUB**, (s.) cenau, cenaw  
**CUBE**, (s.) darn chwe' ochrog  
**CÚBICAL**, (adj.) chwech ochrog  
**CÚBIT**, (s.) cufydd, cyfelin  
**CÚCKOLD**, (s.) cwewallt: (v. a.) gwneuthur cwewallt o un  
**CÚCKOO**, } (s.) cóg, gwcw, cethlydd  
**CÚCKOW**, }  
**CUD**, (s.) cil boch.—*To chew the cud, cnoi cil*  
**CÚDDEN**, } (s.) carl, drel, delff, lle-  
**CÚDDY**, } ban, toledog  
**CÚDDLE**, (v. n.) llechu, cofleidio  
**CÚDGEL**, (s.) brysgyll, ffon, llaw- ffon, cwlbren: (v. a.) ffonodio  
**CUE**, (s.) cynffon, neu ddyben peth— anian, tymer; hwyl  
**CUFF**, (s.) cernod, bonclust, cis—*yr hyn a droir i fynu o lawes*: (v. a.) cernodio, taro â dwrn  
**CÚRASS**, (s.) curas, llurig  
**CÚLINARY**, (adj.) yn perthyn i gegin  
**CULL**, (v. a.) cwlio, ethol, dethol; dewis, pigo  
**CÚLLENDER**, (s.) hidl, hiddl  
**CÚLLY**, (s.) un a dwyllwyd gan fen- yw, un a hudwyd gan ferch: (v. a.) twyllo, seithugio, siomi  
**CÚLPABLE**, (adj.) beius, euog, cam- gylus  
**CÚLPRIT**, (s.) drwgweithredwr  
**CÚLTIVATE**, (v. a.) diwyllio tir, lla- furio tir, gwrteithio—*gwella, diw- ygio*  
**CÚLTIVÁTION**, } (s.) amaethad; di-  
**CÚLTURE**, } wylliad, arddwr- iaeth, llafurwriaeth  
**CÚLVER**, (s.) colommen, ysgythan  
**CÚLVERIN**, (s.) bwmbart  
**CÚMBER**, (v. a.) llwytho, pynio— llestair, luddias, goluddio—*afon- yddu, gofidio, traferthu, Luc x. 40.* (s.) rhwystr, attal, goludd; traferth, gofid  
**CÚMBEROUS**, (adj.)edr. *Cumbersome*  
**CÚMBERSOME**, (adj.) llwythog, pwys- fawr, traferthus, poenus, helbulus, gofidus, beichiawl  
**CÚMULATE**, (v. a.) tyru, pentyru, sypio, carneddu, cludeirio  
**CÚMULÁTION**, (s.) pentyriad, sypiad, cludeiriad, carneddiad  
**CÚNCTÁTION**, (s.) cyngyd, oediad, godrig, llercian, gohiriant  
**CÚNEAL**, (adj.) fel gaing, neu gyn  
**CÚNNING**, (adj.) ffalst, cyfrwys, dichellgar, ystrywgar, gochelgar: (s.) cyfrwysedd, dichellgarweh, ffes- od, ystryw; cywreinrwydd

- CÚNNINGNESS**, (s.) dichellgarwch  
**CUP**, (s.) cwpan: (v. a.) craffinio.—  
*Cup-bearer*, trulliad, pen-trulliad.  
 —*Cup moss*, aur bibau  
**CUPBOARD**, (s.) llogawd, almari  
**CÚPID**, (s.) duw cariad  
**CUPÍDITY**, (s.) chwant, cybydd-  
 iaeth, trythyllserch, nwyfserch  
**CÚPPREOUS**, (adj.) copraidd  
**CUR**, (s.) corgi, costog, bugeilgu  
**CÚRABLE**, (adj.) gwelladwy, a ellir  
 ei wella, neu iachâu  
**CÚRABLENESS**, (s.) posiblwydd o  
 iachâu, iachaolrwydd  
**CÚRACY**, (s.) curadaeth, periglor-  
 iaeth, bugeiliaeth  
**CÚRATE**, (s.) curad, periglor  
**CÚRATIVE**, (adj.) iachâol  
**CURB**, (v. a.) attal, rhwystro,  
 ffrwyno: (s.) haiarn-ffrwyn: *fig.*  
 rhwystr, attal, cymmesuriad, cym-  
 medroliad  
**CURD**, (s.) colfran, caws: (v. n.) ceu-  
 lo, cawsu  
**CURDLE**, (v. n.) *edr. Curd*  
**CÚRDY**, (adj.) cawsog, ceulog  
**CURE**, (s.) meddyg, meddyginiaeth,  
 iachâd, gwellhad, cyweir—offeir-  
 iadaeth: (v. a.) iachâu, gwneuthur  
 yn iach, gwella  
**CÚRELESS**, (adj.) difeddyg, aniachâol  
**CÚRER**, (s.) iachâwr, meddygwr  
**CURIÓSIETY**, (s.) cywreinerwydd,  
 manylrwydd, tradyfalwch  
**CÚRIOUS**, (adj.) manol, astud, di-  
 wyd, cywraint  
**CÚRIOUSLY**, (adv.) yn gywraint  
**CURL**, (s.) llywaeth o walit mod-  
 rwyog, crych-gydyn: (v.) crychu,  
 torchi, modrwyo  
**CÚRLEW**, (s.) math o fôr aderyn, y  
 gylfin hir  
**CURMUDGEON**, (s.) cybydd, crintach,  
 cyrith, crintachwr  
**CÚRRANT**, (s.) grawn y Corinthiaid,  
 cwrens  
**CÚRRENCY**, (s.) rhediad, cerddediad,  
 cerynt, dylifad—derbyniad  
**CÚRRENT**, (adj.) pasadwy, derbyni-  
 iol, cymmeradwy, cyfreithlawn:  
 (s.) firwd, gofer  
**CÚRRENTNESS**, (s.) *edr. Currency*  
**CURRICLE**, (s.) cerbyd ysgafu ar  
 ddwy olwyn
- CÚRRIER**, (s.) barcer, crwynwr,  
 cyffeithwr crwyn, lledrwr  
**CÚRRISH**, (adj.) ciaidd, creulon, cyn-  
 dyn, gwrthnysig, corgiaidd  
**CÚRRY**, (v. a.) cyffeithio—rhystillio,  
 ysgrafellu, cribo—gwenieithio, tru-  
 thio, ystwytho  
**CÚRRYCOMB**, (s.) ysgrafell, rhistyll  
**CURSE**, (s.) melldith, rheg, ymgein-  
 iad, ymreg: *fig.* poenedigaeth:  
 (v. a.) melldithio, melldigo, rhegu,  
 ymgeinio  
**CÚRSED**, (part.) melldigedig  
**CÚRSEDLY**, (adv.) yn ysgeler, yn  
 ddiriaid, yn gywilyddus  
**CÚRSEDNESS**, (s.) melldigedigrwydd,  
 ysgelerder  
**CURSORILY**, (adv.) ar gip, yn ddi-  
 symwth, ar ffrwst, yn ddiotal  
**CÚRSORINESS**, (s.) brys, diotalwch  
**CÚRSORY**, (adj.) disymwth, buan,  
 diotal, cip, ysgafnddull  
**CURST**, (adj.) melldigedig, creulon,  
 diriaid, anhynaws  
**CURT**, (adj.) byr, cwta  
**CURTAIL**, (v. a.) byrhan, cwtogi,  
 talfyru  
**CÚRTAIN**, (s.) llen, aras, caud  
**CÚRVATED**, (adj.) crwm, cam, crwca  
**CÚRVÁTION**, (s.) crymiad, gŵyriad,  
 camiad, doleniad  
**CÚRVATURE**, (s.) camedd, crymedd,  
 gŵyredd, crwcani  
**CURVE**, (adj.) cam, crwm, gŵyr,  
 gŵyrgam, crwca: (v. a.) camu,  
 crymu, gŵyro: (s.) camedd, crym-  
 edd  
**CÚRVET**, (s.) naid, llam, darwein,  
 llamsach: (v. n.) neidio, llamu,  
 llemain  
**CÚRVILÍNEAR**, (adj.) a wnaed o  
 linellau ceimion, crymlinell  
**CÚRVITY**, (s.) camedd, gŵyrni  
**CÚSHION**, (s.) clustog  
**CUSP**, (s.) cyn y lleuad, blaen saeth  
**CÚSTARD**, (s.) cwstart, brithawd  
**CÚSTODY**, (s.) cadwraeth, ceidwad-  
 aeth, cyfarchwyl, adne—carchar  
**CÚSTOM**, (s.) arfer, defod, gnotad,  
 gerddyfn, dull, gwedd, modd, gor-  
 ddyfn, cynncfod  
**CÚSTOMABLE**, (adj.) arferol, cyn-  
 nefinol, arferedig, trethadwy



- CUSTOMARILY, (adj.) yn arferol, yn gynefinol, yn gyffredinol  
 CUSTOMARY, (adj.) arferol, defodol, cynnefinol, arferedig, cyffredinol  
 CUT, (v. a.) tori, rhwygo, cwto, trychu, dryllio, lladd, difynio—naddu: (s.) cwt, rhwyg, toriad, ysgyriad, agen—llun, eilun, delw—damwain, cwtws  
 CUTÁNEOUS, (adj.) tonaid, croenaid  
 CUTICLE, (s.) croenen, tonen  
 CÚTLASS, (s.) bidog, math o gleddyf llydan, byr gleddyf  
 CÚTLER, (s.) cylllellwr, gwneuthurwr cyllyll, cleddof  
 CÚTTER, (s.) torwr, rhwygwr, ysgythrwr—ysgafn long rhyfel  
 CUTTLE-BONE, (s.) bron alarch.—*Cuttle fish*, ystiflog  
 CY'CLE, (s.)edr. *Circle*  
 CYCLOPÆDIA, (s.) cylch gwybod-aeth, corff o ddysgeidiaeth  
 CY'LINDER, (s.) trol, rholbren  
 CYLI'NDERICAL, (adj.) trolaid  
 CY'MBAL, (s.) symbal, 1 Cron.xiii.8.  
 CYNANTHROPHY, (s.) y gynddaredd  
 CYNEGETICS, (s.) llyfrau helwriaeth, llyfrau cynyddiaeth  
 CY'NIC, } (adj.) ciaidd, costog-  
 CY'NICAL, } aidd, anfwyn  
 CYNOSURE, (s.) enw a roddir gan y Groegiaid i'r arwydd wybrol yn y Gogledd, a elwir *Ursa Minor*, neu Arthes leiaf  
 CY'PRESS, (s.) cypreswydden  
 CZAR, (s.) titl ymerawdwr Rusia  
 CZARINA, (s.) titl ymerawdres Rusia

## D.

- D**, TRWY fyrhâd, a arferir yn lle *Doctor*, dysgawdwr, a *Divinity*, duwinyddiaeth: ac, fel rhifnod, neu rif-lythyren, y mae yn sefyll am *bum cant*  
 DAB, (s.) ergyd tirion. lwmp: (v. a.) paeledu â thom a llaid, trybaeddu  
 DÁBBLE, (v. a.) diblo, trybaeddu, yndrochi—gwneuthur peth yn anghelfydd: (neut.) ymyraeth  
 DACE, (s.) math o bysgodyn—darsen, golenbysg  
 DÁCTYLE, (s.) mesur mewn pryd-yddiaeth Groeg a Lladin, o un sillaff hir a dwy ferion  
 DAD, DÁDDY, (s.) tad  
 DÁGGER, (s.) dager, bidog, cleddyfan, clyu gylllell  
 DÁGGLE, (v.) diblo, lludrodi, budræddi, diwyno  
 DÁILY, (adv.) beunydd, yn feunyddiol, bob dydd, o ddydd i ddydd: (adj.) beunyddiol  
 DÁINTILY, (adv.) yn foethus, yn ddanteithiol  
 DÁINTINESS, (s.) danteithrwydd, amheuthunder, destlusrwydd  
 DÁINTY, (adj.) moethus, dantaidd, danteithiol, amheuthun, destlus, blysig, meddfaeth: (s.) acwyn, melusfwyd, amheuthunfwyd  
 DAIRY, (s.) llaethdŷ, ysbaddod.—*Dairy-maid*, llaethraeg, maeres, maerones, meiriones  
 DÁISY, (s.) aspygan, llygad y dydd  
 DALE, (s.) glyn, dyffryn, cwm, dôl, pant, allmor, ystrad  
 DÁLLIANCE, (s.) ysbleddach, maldod, maldodrwydd — nwyfiant — oed, gohir, aros, nwyf chwareu  
 DÁLLY, (v. a.) oedi, gohirio, ofera, chwarae, segura, gwneuthur arabedd, ymdrythyllu, cydgan  
 DAM, (s.) mam—cronfa, clawdd, argae: (v. a.) croni  
 DAMÁGE, (s.) colled, coll, niweid, argywedd: (v. a.) colledu, niweidio, argyweddu  
 DÁMAGEABLE, (adj.) colladwy, niweidiol, gwaethygadwy  
 DÁMASCENE, } (s.) math o eirinen,  
 DÁMSON, } eirinen Damascus  
 DÁMASK, (s.) lliain, neu sidan wedi ei wau yn llupiau  
 DAME, (s.) meistres—benyw  
 DAMN, (v. a.) damnio, condemnio, difarnu, coliffarnu; bwrw i farwolacthr, melldithio, rhegu

- DÁMNABLE**, (adj.) damnadwy, niweidiol, adwythig, peryglus, enbydus
- DÁMNABLY**, (adv.) yn ddamnedig
- DAMNÁTION**, (s.) damnedigaeth, colledigaeth, barnedigaeth
- DÁMNED**, (adj.) colledig, damnedig, melltigidig
- DÁMNIFY**, (v. a.) niweidio, colledu, gwneuthur colled
- DAMP**, (adj.) llaith, gwlyb, ynwst-prudd, alaethus: (v. a.) lleithio, mwydo—darostwng, lleihau, gostegu: (s.) irder, lleithder; niwl, tarth, prudd-der
- DÁMPNESS**, (s.) lleithrwydd
- DÁMSEL**, (s.) geneth, llangces, bachgenes, herlodes
- DANCE**, (s.) dawns: (v. n.) dawnsio
- DANDLE**, (v.) siglo plentyn, dyddanu plentyn—maldodi
- DÁNDRIFF**, (s.) mandon, mardom, cen, marwdon
- DÁNGER**, (s.) enbydrwydd, perygl, pyd
- DÁNGEROUS**, (adj.) enbyd, peryglus, enbydus, niweidiol, adwythig
- DÁNGEROUSLY**, (adv.) yn enbydus, yn niweidiol, yn beryglus
- DÁNGEROUSNESS**, (s.) enbydrwydd
- DÁNGLE**, (v. n.) ymddibynu, bod yn nghrog wrth, rhydd grogi
- DANK**, (adj.)edr. *Damp*
- DÁNKISH**, (adj.) iraidd, llaith
- DÁPPER**, (adj.) bach a bywiog, buan, cyflym
- DÁPPLE**, (adj.) brith, tryfrith, amryliw, cymmysgliw, manog: (v. a.) britho
- DARE**, (v. a.) beiddio, arfeiddio, osio, anturio, llyfasu, hyderu, rhyfygu
- DÁRING**, (adj.) hy, hyderus, anturiol, eofn, rhyfygus
- DÁRINGLY**, (adv.) yn hy, yn eofn, yn anturiol, yn feiddgar
- DÁRINGNESS**, (s.) eofndra, eonder, arfeiddrwydd, beiddgarweh
- DARK**, (adj.) tywyll, gwyll, tywyllwch: (v. a.) tywyllu, caddugo, erchryfynu
- DÁRKLY**, (adv.) yn dywyll
- DÁRKNESS**, (s.) tywyllwch, tywyllwng, tywyllni, gwyll, caddug
- DÁRKSSOME**, (adj.) tywyll
- DÁRLING**, (s.) anwylyd, hoff-ddyn
- DARN**, (v. a.) cyweirio, clytio
- DÁRNEL**, (s.) efre, efran
- DART**, (s.) dart, gaffach, tryfer, picell: (v. a.) ergydio, saethu, tafalu, picellu
- DASH**, (v. a.) taro wrth—taenellu, cymmysgu: (s.) ergyd, tarawiad—cymmysgedd—y marc hwn (—)
- DASTARD**, (s.)edr. *Coward*
- DÁSTARDLY**, (adv.)edr. *Cowardly*
- DATE**, (v. a.) gosod i lawr yr amser y gwnaed, neu y sgrifenydd peth: (s.) y dydd, neu'r amser y sgrifenydd, neu y dygwyddodd rhyw beth—parhad
- DÁTIVE**, (adj.) rhoddawl
- DAUB**, (v. a.) trybaeddu, llasarnu, llutrodi, diwyno
- DÁUGHTER**, (s.) merch
- DAUNT**, (v. a.) digaloni, peri ofn
- DÁUNTLESS**, (adj.) diofn, hy, calonog
- DAW**, (s.) cogfran
- DAWN**, (v. a.) gwawrio, dyddhau, goleuo: (s.) gwawr, cyfddydd, clais dydd, llug y dydd, glasiad y dydd
- DAY**, (s.) dydd, dwthwn, diwrnod, —*All the day long*, cydol, trwy gydol y dydd.—*Day book*, dydd lyfr.—*Days man*, cylafareddwr, dyddiwr, Job ix. 33.—*Dayspring*, gwawr-ddydd, Job xxxviii. 12.
- DÁZZLE**, (v. a.) dallu, tywyllu'r llygaid gan ormod dysgleirdeb
- DÉACON**, (s.) diacon, Phil. i. 1.
- DÉACONRY**, (s.) swydd diacon
ffodiog, adfydig, helbulus, blinder-  
og, gresynol, anffodus
- DISAVOUCH, (v. a.) llysu, gwadu
- DISAVÓW, (v. a.) gwadu, ymwadu,  
gommedd, llysu, anaddef, gwrthod  
—ffieiddio—diarddelwi
- DISAVÓWAL, (s.) gwad, ymwad,  
rhoddiad heibio, llysiant, gwrthod-  
iad—ffieiddiad—gwadiad
- DISAVÓWMENT, (s.) edr. *Disavowal*
- DISAÚTHORIZE, (v. a.) diawdurdodi
- DISBÁND, (v. a.) diswyddo rhyfel-  
wyr, diswyddo, gollwng ymaith,  
gollwng yn rhydd, rhyddhau
- DISBÁRK, (v. a.) tirio
- DISBELÍEF, (s.) anghrediniaeth, ang-  
hoel, anymddiried, gwan gred
- DISBELÍEVE, (v. a.) anghredu, ang-  
hoelio, pallu coelio, anffyddio
- DISBELÍVER, (s.) anghredadyn
- DISBÚRDEN, (v. a.) dadlwytho, dad-  
bynio, esmwytho, dadfeichio
- DISBÚRSE, (v. a.) treulio, gwario,  
costio, talu arian
- DISBÚRSEMENT, (s.) gwariad
- DISCÁLCEATE, (adj.) diesgidiau, di-  
archenog, troednoeth
- DISCALCÉATION, (s.) diarcheniad
- DISCANDY, (v. a.) toddi
- DISCÁRD, (v. a.) diswyddo, anfon  
ymaith, gollwng yn rhydd—taflu  
ymaith—diarddelwi, diarddel
- DISCÁSE, (v. a.) dihatru, diosg, di-  
noethi. “*I will discase me,*” Shak.
- DISCEPTATION, (s.) ymddadleuad,  
ymddadl, ymresymiad
- DISCÉRN, (v. a.) canfod, gweled,  
deall, gwybod—barnu, gwahan-  
iaethu, dosparthu, dirnad
- DISCÉRNIBLE, (adj.) a ellir ei ganfod,  
a ellir ei amgyffred—amlwg—a  
ellir ei wahaniaethu, dosparthadwy  
—gweledig
- DISCÉRNING, (adj. or part.) doeth,  
synhwyrol, dosparthus, yn canfod  
y gwahaniaeth sydd rhwng pethau
- DISCÉRNMENT, (s.) barn, neu'r gallu  
o wahaniaethu rhwng pethau, dos-  
parth, craffder
- DISCHÁRGE, (v. a.) dadlwytho—  
gollwng, rhyddhau—diswyddo, di-  
urddo, diraddio—talu dyled—cyf-  
lawni eiddyledswydd, gwasanaethu  
ei swydd yn ffyddlon: (s.) gollyng-  
dod, rhyddhad, cenad i ymado—  
diswyddiad—taliad dyled—cyf-  
lawniad dyledswydd
- DISCÍND, (v. a.) tori yn ddarnau,  
gwahanu, rhanu
- DISCÍNCT, (adj.) rhydd, wedi ei oll-  
wng yn rhydd, yslac, dirwym
- DISCÍPLE, (s.) dysgybl, ysgolhaig,  
athrylithgan, canlynwr
- DISCÍPLINABLE, (adj.) dysgadwy
- DISCÍPLINARY, (adj.) perthynol i  
ddysgyblaeth, dysgyblaidd
- DÍSCIPLINE, (s.) dysg, dysgyblaeth,  
addysg, athrawiaeth, dysgeidiaeth  
—rheolaeth: (v. a.) addysgu, hy-  
fforddi, cyfarwyddo, athrawiaethu  
—ceryddu, cospi
- DISCLÁIM, (v. a.) gwadu, llysu,  
gwrthod, gadaw, diarddelwi
- DISCLÓSE, (v. a.) datguddio, ymat-  
guddio, dadanhuddo, diachludd,  
egluro, egori, dinoethi
- DISCLÓSING } (s.) datguddiad, da-  
DISCLÓSURE, } danhuddiad, agor-  
iad, amlygiad, cyhoeddiad
- DISCÓLOUR, (v. a.) amliwio, dryg-  
liwio, llychwino, diliwio
- DISCÓMFIT, (v. a.) goresgyn, gorch-  
fygu, gorfod, ynnill y maes: (s.)

- buddugoliaeth, goruchafiaeth, gorfod, gorfodaeth, gyriad ar ffo
- DISCÓMFITING**, } (s.) dinystr, gorch-  
**DISCÓMFITURE**, } fygiad, dymchweliad
- DISCÓMFORT**, (s.) anghysur, prudd-der, trymfryd, trymder, tristwch : (v. a.) anghysuro, anghomfforddio, peri cystudd a gofid, gofidio, tristâu
- DISCÓMFORTABLE**, (adj.) anghysurus, anghomfforddus
- DISCOMMÉND**, (v. a.) goganu, cablu, anghanmol, rhoddi anghlod, beio, testudio, ceryddu, anfoli
- DISCOMMÉNDABLE**, (adj.) anghanmoladwy, beius
- DISCOMMENDÁTION**, (s.) anghlod, gogan, anghanmoliaeth, cabl, anair
- DISCOMMÓDE**, (v. a.) anaddasu, an-nhrefnu, anghymmwyso, anghymmesuro, aflesu
- DISCOMMÓDIUS**, (adj.) anghyfleus, anaddas, anghymmwyso, anweddus, anghytun
- DISCOMMÓDITY**, (s.) anghymmwyso-der, anghyfleusder, anfantais—afles, colled, niweid
- DISCOMPÓSE**, (v. a.) annhrefnu, gwneuthur annhrefn, terfysgu, cyffroi, cynhyrfu, trallodi, cythryblu, cythruddo, aflonyddu
- DISCOMPÓSURE**, (s.) annhrefn, cythrudd, cythrwfl, terfysg, trallod, cynnwrf meddwl, didrefniad
- DISCONCÉRT**, (v. a.) ansefydlu (aflonyddu, cythruddo, terfysgu) y meddwl—siomi, seithugio
- DISCONFÓRMITY**, (s.) anghytundeb, anghordiad, anghydfurfiad
- DISCONGRÚITY**, (s.) anghynghordiad, anghysondeb, anghytundeb, anghydfod
- DISCONSOLATE**, (adj.) anghysurus, prúdd, trist, trwm, galarus, alae-thus, athrist
- DISCONTÉNT**, (s.) anfoddlonedd, anfoddlondeb, anwes, anesmwythder
- DISCONTÉNTED**, (adj.) anesmwyth, anfoddlon, anfoddlongar
- DISCONTENTEDNESS**, } (s.) anfodd-  
**DISCONTENTMENT**, } lonrwydd, anesmwythder, cythrudd, dygnedd
- DISCONTINUANCE**, (s.) seibiant, hamdden, dyspeidiad, gorffwys, tollad, amharad, toliant
- DISCONTINUÁTION**, (s.) dyspeidiad
- DISCONTÍNUE**, (v. a.) peidio, ymat-tal, gorffwys, dyspeidio, gadael heibio, llaesu yn gwneuthur peth—tori ymaith, gwahanu
- DISCONTINÚITY**, (s.) dadymgyssylltiad, diundeb rhanau, toriad undeb, neu gyssylltiad
- DÍSCORD**, (s.) anghytundeb, anghydfod, anghordiad, ansgymmod, am-rafael, ymryson, anghymmodlonedd : (v. n.) anghytuno, anghordio, bod yn anghytun, bod yn anghyson, amrafaelio
- DÍSCORDANCE**, (s.) anundeb
- DÍSCORDANT**, (adj.) anghytun, anghyson, anghydsain, anghydwair
- DÍSCÓVER**, (v. a.) datguddio, dadan-huddo, diachludd, annirgelu, egluro, egori—gweled, syllu, canfod
- DÍSCÓVERABLE**, (adj.) a ellir ei gael allan, a ellir ei ganfod, a ellir ei ddatguddio, dirnadwy
- DÍSCÓVERY**, (s.) datguddiad, amlygiad, arddangos, mynag, caffaeliad, copinod, annirgeliad
- DÍSCÓUNSEL**, (v. a.) anghynghori, cynghori'r gwrthwyneb, gwrth-gynghori
- DÍSCOUNT**, (v. a.) tynu oddiwrth, tynu yn ol, tynu oddiwrth y cyfrif : (s.) dirdyniad, tyniad oddiwrth, tyniad yn ol, toliad
- DÍSCÓUNTENANCE**, (v. a.) anghanmol, casâu, rhwystro, goluddio—digaloni, cywilyddio
- DÍSCÓURAGE**, (v. a.) anghysuro. digaloni, Num. xxxii. 7. llyfrhau, Deut. i. 21. dychrynu, rhwystro
- DÍSCÓURAGEMENT**, (s.) digalondid, rhwystr, goludd, angbefnogiad
- DÍSCÓURSE**, (s.) ymddyddan, ymresymiad, siarad, ymadrodd, traethawd, adroddiad, araith : (v. n.) siarad, ymddyddan, chwedleua, ymresymu, ymadrodd, traethu
- DÍSCÓURTEOUS**, (adj.) anfwyn, anfoesgar, creulon, anwar, anhirion, anhynaws, difoes, anfoneddigaidd
- DÍSCÓURTEOUSLY**, (adv.) yn anfoesgar, yn anfwynaid
- DÍSCÓURTESY**, (s.) anfoesgarwch, sarhâd, anghymmwynas
- DÍSCOURS**, (adj.) llydan, dysglaid

- DISCRÉDIT**, (s.) anurddas, gwarth, amharch, gwaradwydd, gogan, anghlod, sarhâd, anair, hort: (v. a.) anghredu, anghoelio—anurddo, goganu, amherchi, hortio, enllibio
- DISCRÉBT**, (adj.) ystyriol, call, dosparthus, pwylllog, cymmen, doeth, dichlyn, deallgar, Gen. xli. 33.
- DISCRÉETLY**, (adv.) yn ddeallgar, yn synhwyrol, yn bwylllog, yn gall
- DISCRÉETNESS**, (s.) callineb, doethineb, synwyr, pwyllledd, ystyriaeth
- DISCREPANCE**, (s.) amrafael, anghydfod, anundeb
- DISCRÉTE**, (adj.) dosparthedig, neillduedig, gwahanedig
- DISCRÉTION**, (s.) dispwyll, pwyll, synwyr, callineb: *fig.* rhyddid, neu allu aflywodraethol, neu ddiammodol
- DISCRÍMINABLE**, (adj.) gwahanedig, gwahanredol, neillduol
- DISCRÍMİNATE**, (v. a.) rhoddi nôd gwahan ar beth, gwahanredoli, gwahanu, dosparthu, neillduo
- DISCRIMINATION**, (s.) amrywiaeth, gwahaniaeth, gwahanredoliaeth, dosparthiad, dynodiad
- DISCRÍMINOUS**, (adj.) peryglus, enbydus, niweidiol
- DISCÚMBENCY**, (s.) gorweddiad i fwyta, yn ol trefn y Rhufeinaid
- DISCÚMBER**, (v. a.) dadlwytho, dadbynio, dadrwystro
- DISCÚRSIVE**, (adj.) gwibiog, mewn cynhrifiad gwastadol—*in logic*, yn myned yn y blaen oddiwrth bethau adnabyddus, at bethau anadnabyddus
- DISCÚRSORY**, (adj.) yn tynu pethau anadnabyddus, oddiwrth bethau adnabyddus—dadleuol, ymresymadwy, rhesymiadol
- DISCÚSS**, (v. a.) holi, chwilio—egluro, amlygu
- DISCÚSSION**, (s.) holiad, chwiliad, ymofyniad, dattodiad—eglurhad, amlygiad, manwl driniad
- DISDÁIN**, (v. a.) dirmygu, tremygu, diystyru, dielwi, dibrisio, ffeiddio: (s.) dirmyg, diystyrwch, tremyg, ffeiddiad
- DISDÁINFÚL**, (adj.) llawn dirmyg a diystyrwch, dirmygus, dibris, diystyr, ffroen-uchel
- DISDÁINFULNESS**, (s.) diystyrwch, dirmyg, ffeiddiad, uchel-drem
- DISEASE**, (s.) clefyd, dolur, haint, anhwy, amhwynt, clwyf
- DISEASED**, (adj.) claf, dolurus, clwyfus, afiachus
- DISEMÁRK**, (v.) tirio, myned i dir
- DISEMBÍTTTER**, (v. a.) dichwerwi, melysu, dadchwerwi
- DISEMBÓDIED**, (adj.) wedi ei ddiosg o'r corff, anghorffedig
- DISEMBÓGUE**, (v. a.) rhedeg i'r môr
- DISENÁBLE**, (v. a.) analluogi
- DISENCÚMBER**, (v. a.) dirwystro, dilluddias, tynu allan o flinder
- DISENCÚMBRANCE**, (s.) rhyddhad oddiwrth attall, a rhwystr, gwaredigaeth oddiwrth flinder a gofid
- DISENGÁGE**, (v.) diddyrysu, dirwystro, gwaredu, rhyddhau oddiwrth, gollwng yn rhydd, dadrwystro
- DISENGÁGED**, (adj.) ar seibiant, ar hamdden, yn rhydd, heb addaw, heb ymrwymo, dirwym
- DISENGÁGEMENT**, (s.) rhyddhad, gollyngdod, dirwymedd
- DISENTÁNGLE**, (v. a.) dad ddyrysu, diddyrysu, dirwystro, gollwng yn rhydd, rhyddhau, rhwyddhau
- DISENTHRÓNE**, (v. a.) diorseddu
- DISESTEM**, (s.) amharch, dirmyg, diystyrwch, drygfri, anfri: (v. a.) dibrisio, goganu, bychanu, dirmygu
- DISFÁVOUR**, (s.) anghymmwynas, anffafr—dybrydedd, anharddwch: (v. a.) anffafrio, gwneuthur anghymmwynas, rhwystro un i fyned yn y blaen â'i amcan
- DISFÍGURE**, (v. a.) anffurfio, gwrthuno, anharddu, hagrhau
- DISFÍGURING**, } (s.) anffurfiad,
- DISFÍGUREMENT**, } gwrthuniad
- DISFRÁNCHISE**, (v. a.) difreinio
- DISFRÁNCHISEMENT**, (s.) difreiniad, difuddiad breintiau
- DISGÁRNISH**, (v. a.) dynoethi, diosg, dihatru, diaddurno
- DISGÓRGE**, (v. a.) chwydu, cyfogi, ymgyfogi—bwrw allan, taflu allan, arllwys, ymarllwys
- DISGRÁCE**, (s.) sarhâd, dirmyg, gogan, hort, enllib, anghlod, anair, amharch, gwarthrudd, gwarth, gwaradwydd: (v. a.) sarhâu,

gwarthruddio, gwaradwyddo, an-  
mherchi

DISGRÁCEFUL, (adj.) sarhaus, gwa-  
radwyddus, amharchus, cywil-  
yddus

DISGRÁCEFULNESS, (s.) anurddas,  
gwarth, gwaradwydd, cywilydd

DISCŪISE, (v. a.) dyeithro, ymddy-  
eithro, dirgelu, ffugio, anffurfio:  
(s.) ffug, ffuant, ymddyethrad, dir-  
geliad, gau-ymddangosiad

DISCŪST, (s.) ffeiddiad, dirmyg, di-  
ystyrwch, diflasrwydd, gloesyndod,  
casineb: (v. a.) ffeiddio, dirmygu,  
alaru, sarhau, anfoddhau, diflasu

DISH, (s.) disgl, dwbler, ffiol: (v. a.)  
seigio.—*Dish of meat*, saig

DISHABÍLLE, (s.) gwisg rydd

DISHÁRMONY, (s.) anghordiad, ang-  
hytundeb, anghydfod, annysgym-  
mod, anghysondeb

DISHEÁRTEN, (v. a.) digaloni, llwfr-  
hau, gwangaloni

DISHÉRSION, (s.) dietifeddiad, di-  
drefstadiad

DISHÉRIT, (v. a.) dietifeddu, didref-  
tadu, difuddio un o'i dreftadaeth

DISHÉVEL, (v. a.) sarnu gwallt yn  
aanhrefnus, dyrysu gwallt

DISHÓNEST, (adj.) anonest, anghyf-  
iawn, anaddwyn, diffraith, dihir,  
anffyddlon, twyllodrus, dichellgar

DISHÓNESTY, (s.) anonestrwydd,  
anaddwynder, dil irwch, diffeithder

DISHÓNOUR, (s.) ianrhydedd, sar-  
had, gwarth, gwaradwydd, an-  
mharch, anghlôl, gwarthrudd:  
(v. a.) dianrhydeddu, sarhau, an-  
mherchi, gwarthruddio, hortio

DISHÓNOURABLE, (adj.) dianrhydedd-  
us, sarhaus, amharchus, gwarad-  
wyddus, cywilyddus, gwarthus

DISINCLINATION, (s.) annhuedd, an-  
nhueddiad, gwrthwyneb, ffeiddiad

DISINCLÍNE, (v. a.) annhueddu

DISINGENÚITY, (s.) anfoneddigeidd-  
rwydd, anhaelder, annhegwch

DISINGÉNIUS, (adj.) anhael, anfon-  
eddigaidd, cyfrwys, gwael

DISINHÉRIT, (v. a.) dietifeddu

DISINTÁNGLE, (v. a.) edr. *Disentangle*

DISINTÉR, (v. a.) cymmeryd corff  
o'r bedd: *f.* diachludd, datguddio

DÍSINTEREST, (s.) anfantais, colled,  
anfudd

DÍSINTERESTED, (adj.) nad yw yn  
cymmeryd ei lywodraethu gan eg-  
wyddorion, neu annogaethau hun-  
anol

DISINTERÉSTEDNESS, (s.) diystyr-  
wch hunan eiw, neu fantais

DISJÓIN, (v. a.) dadgyssylltu, gwa-  
hanu, daduno, dosparthu

DISJÓINING, (sub.) dadgyssylltiad,  
gwahaniad

DISJÓINT, (v. a.) dadgymmalu, dat-  
tod yn y cymmal, chwarthorio,  
rhwygo, cryllio

DISJÚNCTION, (s.) dadgyssylltiad,  
gwahaniad, dosparthiad, dadundeb

DISJÚNCTIVE, (adj.) dadgyssylltiad-  
ol, gwahanol, dosparthol

DISJÚNCTIVELY, (adv.) yn ddo-  
parthedig, yn wahanol

DISK, (s.) ymddangosiad yr haul,  
neu'r planedau, y canol lygeidyn

DISKÍNDNESS, (s.) anghymmwynas,  
sarhâd, cam, camwedd, niweid,  
colled, adwyth, argywedd

DISLÍKE, (s.) ffeiddiad, diystyrwch,  
drygfri, dirmyg: (v. a.) ffeiddio,  
dirmygu, diystyru, gwrthwynebu

DISLÍKENESS, (s.) annhebygolrwydd

DÍSLOCATE, (v. a.) gosod, neu sym-  
ud peth o'i le priodol—datgymmalu

DISLOCÁTION, (s.) datgymmaliad,  
symudiad peth o'i le priodol

DISLÓDGE, (v. a.) bwrw, neu ddan-  
fon allan o letty, symud ymaith,  
symud gwersyll

DISLÓYAL, (adj.) anffyddlawn, brad-  
wraidd, bradog, hocedus, twyllod-  
rus, anghywir

DISLÓYALTY, (s.) anffyddlondeb,  
bradwriaeth, hoced, anffyddlondeb

DISLÓYALTY, (s.) anffyddlondeb,  
bradwriaeth, hoced, anffyddlondeb

DÍSIMAL, (adj.) erchyll, ofnadwy,  
tosturus, truenus, alaethus, dych-  
rynlyd, anguriol, cethin, hyll

DÍSIMALLY, (adv.) yn ddychryllyd,  
yn ofnadwy, yn druenus

DÍSIMALNESS, (s.) dychryn, alaeth,  
trueni, erchyllod, hyllder

DISMÁNTLE, (v. a.) diosg, dihatru—  
dystrywio, dinystrio, neu dori i

lawr amddiffynfa, dinoethi

DISMÁY, (v. a.) peri ofn, brawychu,  
dychrynu, digaloni, llyfrhau, ar-  
swydo: (s.) arswyd, dychryn, braw,

llyfrder, digalondid

DISMÉMBER, (v. a.) diaelodi, tori aelod ymaith, dryllio, darnio  
 DÍSMES, (s.) degwm  
 DISMISS, (v. a.) anfon ymaith, gollwng yn rhydd, rhyddhau, rhoddi cenad i ymadael—diswyddo, diawdurdodi, diurddo, darddanfon  
 DISMISSÍON, (s.) anfoniad ymaith, gollyngdod, rhyddhad—diswyddiad  
 DISMOUNT, (v.) disgyn oddiar geffyl, taflu oddiar geffyl, disgyn  
 DISOBÉDIENCE, (s.) anufudd-dod, cyndynrwydd, anhydynrwydd, afrywiogrwydd, anhyweithder  
 DISOBÉDIENT, (adj.) anufudd, cyndyn, anostyngedig, gwrthnysig  
 DISOBÉY, (v. a.) anufuddhau, gwrthwynebu, troseddu  
 DISOBLIGE, (v. a.) anfoddhau, digio, sarhau, anfoddloni  
 DISOBLÍGING, (part. or adj.) diserch, sarhaus, anfwyn  
 DISÓRDER, (s.) annhrefn, terfysg, cythrwfl, cythrudd, cynnwrf—anhwyl, clefyd, amhwynt: (v. a.) annhrefnu, dyfysgu, cymmysgu, cynhyrfu, cythruddo  
 DISÓRDERED, (part. or adj.) annhrefnus, afreolus, anllywodraethus, terfysgus—anhwylus, claf  
 DISÓRDERLY, (adv.) yn annhrefnus, heb reol na threfn, yn ddidrefn  
 DISÓRDINATE, (adj.) afreolus, anllywodraethus, anghymmedrol, anghymmesur, difesur, annhrefnus  
 DISÓRDINATELY, (adv.) yn afreolaidd, yn anghymmedrol  
 DISÓWN, (v. a.) gwadu, gommedd, gwrthod, diarddelwi  
 DISPÁND, (v. a.) lledu, tanu ar lled, egori, chengu, amledu  
 DISPÁNSION, (s.) chengiad  
 DISPÁRAGE, (v. a.) goganu, enllibio, dirmygu, hortio, dibrisio, cablu, gwarthuddio, amherchi  
 DISPÁRAGEMENT, (s.) dianrhydedd, anghlod, gwarthrudd, amharch, hort, dirmyg, enllib, gwarth, gwarradwydd, gogan  
 DISPÁRITY, (s.) anghyfartalrwydd, anghyflelybrwydd, annhebygoliaeth  
 DISPÁRK, (v. a.) tori cae i lawr  
 DISPÁSSION, (s.) esmwythdra, neu larieidd-dra tymer, diddigrwydd

DISPÁSSIONATE, (adj.) tawel, esmwyth, llariaidd, cymhedrol  
 DISPÁTCH, (s.) dyfrysiad, brys, ffrwst: (v. a.) cyflawni, cwblhau, gorffen, dybenu—brysio, ffrystio, prysuro, dyfrysiad, llwybro—anfon ymaith—lladd, dihenyddu  
 DISPÉL, (v. a.) gwrthio ymaith, gyru ymaith, gwasgaru, chwalu  
 DISPÉND, (v. a.) gwario, treulio  
 DISPÉNSARY, (s.) y lle y gwerthir meddyginiaethau—llyfr yn cynnwys cyfarwyddiadau i wneuthur meddyginiaethau, meddygdŷ  
 DISPENSÁTION, (s.) cenhadiad, caniatâd, triniad—gorchwyl, goruchwyliaeth; dyoddefgarwch, goddefiad  
 DISPENSATORY, (s.) edr. *Dispensary*  
 DISPÉNSE, (v. a.) cyfranu, dosparthu—cenhadu, caniatâu—esgusodi  
 DISPÉNSER, (s.) gweinydd, goruchwylwr, distain, cyfranwr  
 DISPÉOPLE, (v. a.) dibobli, difrodi, anrheithio  
 DISPÉRGE, (v.) taenellu  
 DISPÉRSE, (v. a.) gwasgaru, dosparthu, bwrw ar lled, gyru ar wasgar  
 DISPÉRSEDLY, (adv.) ar wasgar, ar y lled, yn wasgaredig  
 DISPÉRSION, (s.) gwasgariad, taniad, dosparthiad, gwahaniad, lled-daniad  
 DISPÍRIT, (v. a.) digaloni, anghysuro, gorddwyo, dychrynu, peri ofn, anwroli, dinerthu  
 DISPLÁCE, (v. a.) symud, gyru o'i le, gyru ymaith—diswyddo, troi un allan o'i swydd  
 DISPLÁCENCY, (s.) anfoddlonrwydd, anfodd, anfoddlongarwch  
 DISPLÁNT, (v. a.) dadblanu, tynu yr hyn a blannwyd, diblanu  
 DISPLANTÁTION, (s.) symudiad  
 DISPLÁY, (v. a.) lledu, chengu, rhoddi allan—egluro, dangos, amlygu, yspysu: (s.) ymatgudd, amlygiad, eglurhad, yspysiad, dadblygiad, dangosiad  
 DISPLÉASANT, (adj.) anhyfryd—anghymmeradwy, anfoddus  
 DISPLÉASE, (v. a.) anfoddhau, anfoddloni, digio, sarhau  
 DISPLÉASURE, (s.) anfoddlonrwydd, digofaint, dig, soriant, digllonrwydd, lldiawgrwydd, cawdd, coddiant

- DISPLÓDE**, (v. a.) rhoddi diaspad
- DISPÓIL**, (v. a.) yspeilio, anrheithio, difeddu, difuddio
- DISPÓRT**, (s.) chwarae, chwaraeyddiaeth, arabedd, difyrwch
- DISPÓSAL**, (s.) trefnad, trefnid, triniad, cyfraniad—llywodraeth, rheolaeth, rheoliad, gwerthiad
- DISPÓSE**, (v. a.) trefnu, gosod mewn trefn, dosparthu—rheoli, llywodraethu—addasu, cyfaddasu—tueddu, gogwyddo—rhoddi, rhoi, donio, anrhegu—gwerthu, arwerthu
- DISPOSÍTION**, (s.) trefnad, trefn, ordinhad, dosparthiad, trefnid—tuedd, tueddiad, gogwyddiad, athrylith, affaeth—tymer, hwyl, pwynt, cyflwr, dyli, gorddigor
- DISPOSSÉSS**, (v. a.) difeddiannu, difuddio, gyru allan o feddiant, dwyn o feddiant un, diberchenogi
- DISPÓSURE**, (s.)edr. *Disposal*
- DISPRÁISE**, (s.) anghlod, anair, gogan, hort, gwarth, gwarthrudd, bai: (v.) beio, anghanmol, rhoddi anair, rhoddi anghlod, goganu, gwarthruddo
- DISPRÁISING**, (s.) beiad, anghanmoliad, anfoliant. Edr. *Dispraise*
- DISPRÉAD**, (v. a.) lledu, tanu ar led
- DISPRÓFIT**, (s.) colled, afes, sarhad, niweid, argywedd, anfudd: (v. n.) afesu, afesau, niweidio, colledu
- DISPRÓOF**, (s.) gwrthbrawf. datbrawf, diddadl, dadbrawf
- DISPROPÓRTION**, (s.) anghyfartalrwydd, anghyfattebolrwydd, anghymmariaeth, anghyfaddasrwydd: (v. a.) anghfartalu, cyssylltu pethau ag ydynt anghyfartal, neu yn anghytuno â'u gilydd
- DISPROPÓRTIONABLE**, (adj.) anghyfartal, anghymmarus, anogystal, anogyfuwch, anghyfaddas, anghydran
- DISPROPÓRTIONABLENESS**, (s.) anghymmesurol. Edr. *Disproportion*
- DISPROPÓRTIONAL**, } (s.) anghym-
- DISPROPÓRTIONATE**, } mesur, anghydran. Edr. *Disproportionable*
- DISPRÓVE**, (v. a.) gwrthbrofi, datbrofi, diddadlu
- DISPÚTABLE**, (adj.) dadleuadwy, a f'o mewn dadl, hyddadl, anamlwg
- DISPÚTANT**, (s.) dadleuwr, ymresymwr, ymresymydd
- DISPUTÁTION**, (s.) ymresymiad, ymddadleuad, ymddadleu, dadl, dadlwriaeth, dadleuad
- DISPÚTATIVE**, (adj.) chwannog i ymddadleu, neu ymbyngcio
- DISPÚTE**, (v.) dadleu, ymddadleu, ymbyngcio, ymgomio, ymresymu, argymbhenu, priupan: (s.) dadl, ymresymiad
- DISQUALIFICÁTION**, (s.) anghymbwysiad, anghymhwysder i gyflawni rhyw swydd, neu orchwyl
- DISQUÁLIFY**, (v. a.) anghymhwysu, gwneuthur yn anghymhwys, anaddas, neu anabl
- DISQUÍET**, (s.) anesmwythder, aflonyddwch, anorffwys, cythrwfl, cynnwrf, gofid, cyfeiaeth: (v. a.) aflonyddu, cyffroi, blino, gofidio, trallodi, cystuddio, terfysgu, cynhyrfu, cythrublio: (adj.) anesmwyth, aflonydd, diorffwys, cythryblus
- DISQUÍETNESS**, (s.)edr. *Disquiet*
- DISQUÍETUDE**, (s.)edr. *Disquiet*
- DISQUISÍTION**, (s.) dyfalchwiliad, manolchwiliad, manolymofyniad, holiad, manylgais, arholiad
- DISREGÁRD**, (s.) anmharch, dirmyg, tremyg, diystyrwch, esgeulusdra: (v. a.) diystyru, dirmygu, dibrisio, tremygu, esgeuluso, diystyried
- DISREGÁRDFUL**, (adj.) esgeulus, dirmygus, dibris, diystyr, digariad
- DISRÉLISH**, (v. a.) diarchwaethu, diflasu, alaru—ffieiddio, dirmygu: (s.) drwgarchwaeth, diflasrwydd—ffieiddiad
- DISREPUTÁBLE**, (adj.) anmharchus, dibarch, digymmeriad, digyfrif—sarhaus, gwaradwyddus
- DISREPUTÁTION**, } (s.) anghlod, an-
- DISREPUTÉ**, } mharch, anghymmeriad, drygfri, anair, anfri
- DISRESPÉCT**, (s.) diystyrwch, dirmyg, dibrisdod, anfoesgarwch
- DISRESPÉCTFUL**, (adj.) anfoesol, dirmygus, diystyr, dibris, heb fri arno, heb gyfrif o hono, anmharchus
- DISRÓBE**, (v. a.) dadwisgo, diosg, dibatru, difeddiannu, diraddu
- DISRÚPTION**, (s.) rhwygiad, toriad yn gatau, ymdoriad
- DISSATISFÁCTION**, (s.) anfoddlonrwydd, anfodd, anfoddlonedd, co-

- ddiant, anfoddlondeb, anfoddedig-  
aeth
- DISSATISFACTORY**, (adj.) yr hyn ni  
rydd foddlonrwydd, anfoddlonad-  
wy, anfoddfaol
- DISSÁTISFY**, (v. a.) anfoddhau, an-  
foddloni, rhoddi anfoddlonrwydd
- DISSÉCT**, (v. a.) difynio, neu ddryll-  
io corff creadur er mwyn cael  
gweled ei osodiad: *fig.* manol chwi-  
lio, neu holi
- DISSÉCTION**, (s.) toriad yn rhanau,  
difyniad y corff, difyniaeth
- DISSÉIZE**, (v. a.) difeddiannu, di-  
fuddio, cymmeryd o feddiant un
- DISSÉMBLE**, (v.) dirgelu, ffuantu, ffug-  
io, rhagrithio, lledrithio, cymmeryd  
arno—dyeithro, ymddyeithro
- DISSÉMBLER**, (s.) ffuantwr, ffugiwr,  
lledrithiog, rhagrithiwr
- DISSÉMINATE**, (v. a.) hau, gwasgaru,  
cyhoeddi, tanu ar léd
- DISSÉMINATION**, (s.) heuad, gwas-  
gariad, cyhoeddiad, taeniad
- DISSÉNSION**, (s.) anghytundeb, ang-  
hydfod, anysgymmod, amrafael,  
ymryson, anghymmodlonedd
- DISSÉNT**, (v. n.) anghydsynio, ang-  
hytuno, tybio'r gwrthwyneb gwa-  
haniaethu mewn barn, amrywio:  
(s.) anghytundeb mewn barn
- DISSÉNTÁNEOUS**, (adj.) anghytun,  
amrafaelus, anghyson, anghydsyniol
- DISSÉENTER**, (s.) ymneillduwr, gwa-  
hanwr, ymwahanwr
- DISSERTATION**, (s.) traethawd, ym-  
resymiad, ymadrodd, ymadroddiad
- DISSÉVICE**, (s.) anghymmwynas, ni-  
weid, colled, argywedd, anwasanaeth
- DISSÉVICEABLE**, (adj.) anghym-  
mwynasol, anfuddiol, afesol, niw-  
weidiol, colledus, anwasanaethgar
- DISSÉVER**, (v. a.) dadgyssylltu,  
gwahanu, neillduo, dosparthu, rhanu
- DISSÍMILAR**, (adj.) annhebyg, ang-  
hyffelyb
- DISSÍMILARITY**, } (s.) anghyffelyb-  
**DISSÍMILITUDE**, } rwydd, annheb-  
ygoliaeth, annhebygolrwydd
- DISSIMULÁTION**, (s.) ymddyeithrad,  
dirgeliad, ffuant, ffugiad, rhagrith,  
lledrithiad, argeliad
- DÍSSIPABLE**, (adj.) hywasgar, gwas-  
garadwy
- DÍSSIPATE**, (v. a.) gwasgaru, tanu,  
dattod—afradloni, gwastraffu
- DISSIPATION**, (s.) gwasgarad, gwas-  
garfa—gwastraffiad, afradloniad
- DISSÓCIATE**, (v. a.) tori cyfeillach,  
datgyssylllylltu, gwahanu, dosparthu
- DISSÓLVABLE**, (adj.) toddadwy
- DISSOLÚBLE**, (adj.) gwahanredol, a  
ellir ei ddadmer, toddadwy
- DISSÓLVE**, (v. a.) toddi, dadmer,  
dadleithio, dattod, datgylmu, ysgar
- DISSÓLVENT**, (s.) dadmerydd, penrydd
- DÍSSOLUTE**, (adj.) afreolus, anllyw-  
odraethus, difrodus, afradlon, es-  
geulus, trythyll, penrydd
- DÍSSOLUTENESS**, (s.) trythyllwch, an-  
lladrwydd, anfoesgarwch, afradlon-  
rwydd, ymddygiad, anllywodraethus
- DÍSSOLUTION**, (s.) ymddattodiad,  
datgylmiad, toddiad
- DÍSSONANCE**, (s.) anghydsyniad,  
anghytonedd, anghydgordiad, ang-  
hytundeb, anghysondeb, anysgym-  
mod, anghysoniaeth
- DÍSSONANT**, (adj.) anghyson, ang-  
hyton, anghytun, anghynghordioli.
- DISSUÁDE**, (v. a.) anghynghori, gwrth-  
gynghori, cynghori'r gwrthwyneb
- DISSUÁSION**, (s.) gwrthgynghoriad,  
annogiad i'r gwrthwyneb
- DISSUÁSIVE**, (adj.) â thueddrwydd  
ynddo i ddifyru, neu i droi un oddi-  
wrth ryw ddyben, neu amcan
- DISSYLLABLE**, (s.) gair dau silaff
- DISTAFF**, (s.) cogail
- DISTAIN**, (v.) amliwio, halogi, dī-  
wyno—dirmygu, diystyru
- DISTANCE**, (s.) pellder, pellenig-  
rwydd, y cyfrwng rhwng un lle  
a'r llall—gwahaniaeth
- DISTANT**, (adj.) pell, pellenig, pell-  
edig—gwahanedig, didoledig
- DISTÁSTE**, (s.) diflasrwydd, casineb,  
anfodddhad
- DISTÉMPER**, (s.) anardymmer, an-  
hwyl, amhwynt, clefyd, afiechyd
- DISTÉMPERATE**, (adj.) anghymhed-  
rol, anardymherus, anghymhesur,  
annhymherus
- DISTÉMPERATURE**, (s.) anardymmer,  
anardymmerusrwydd, anghymmed-  
rolder, annhymoreiddrwydd
- DISTÉND**, (v. a.) ystyn, ehengu,  
rhythu

- DISTÉNTION**, (s.) ystyniad, ehengiad, arlediad
- DÍSTICH**, (s.) pennill deuфраich
- DISTÍLL**, (v. n.) dystylio, diferu, defnynu, distellu, dyhidlo
- DISTILLÁTION**, (s.) distylliad, distelliad, defnyniad, dyhidlad
- DISTÍLLERY**, (s.) dystillfa
- DISTÍNCT**, (adj.) gwahanredol, rhanedig, gwahanedig, dosparthedig—egllur, amlwg, dynodol
- DISTÍNCTION**, (s.) gwahaniaeth, gwahanredoliaeth, parthiad, dosparthiad, gwahan, rhagoriaeth
- DISTÍNCTIVE**, (adj.) gwahanredol, gwahaniaethol, dosparthiadol, abl i wahaniaethu rhwng pethau
- DISTÍNCTIVELY**, } (adv.) yn wa-
- DISTÍNCTLY**, } hanredol, yn drefnus, yn eglur, yn amlwg
- DISTÍNCTNESS**, (s.) dosparth, gwahanredolrwydd, eglurder
- DISTÍNGUISH**, (v. a.) dosparthu, gwahanredoli, gwahaniaethu, barnu rhwng deu-beth, canfod
- DISTÍNGUISHABLE**, (adj.) dosparthadwy, gwahaniaethadwy—teilwng o barch ac anrhydedd
- DISTÍNGUISHED**, (adj.) dosparthedig, neillduol—rhagorol, godidog
- DISTÓRT**, (v. a.) gŵygro, camu, gwyr-gamu, gwyrddroi, croeswyo
- DISTÓRTION**, (s.) gwyrad, gwyr-droad, gwyr-gamiad, camystumiad
- DISTRÁCT**, (v. a.) tynu ymaith—neillduo, rhanu—afonyddu, cythruddo, terfysgu, trallodi—peri ynfydu, peri gwallgofi
- DISTRÁCTEDNESS**, } (s.) annhrefn,
- DISTRÁCTION**, } gwahaniad—marwerydd, cynnwrf meddwl, cythrudd—gwallgof, ynfydrwydd
- DISTRÁIN**, (v. a.) gafaelu, attafaela
- DISTRÁINER**, (s.) gafaelwr
- DISTRÁINING**, (s.) attafael, gafaeliad
- DISTRÁINT**, (s.) attafael, attafaeliad
- DISTRÉSS**, (s.) cyfyngder, ingder, cyni, cyfni, trallod, gorthrymder, trueni: (v. a.) gafaelu—cyfyngu, gorthrymu, trallodi, gwneuthur yn druenus
- DISTRÉSSFUL**, (adj.) gorthrymus, truenus, cythryblus, adfydas
- DISTRÍBUTE**, (v. a.) dosparthu, rhanu, cyfranw, cyfscu
- DISTRÍBUTER**, (s.) cyfranwr, dosparthwr, distain, cyflëydd
- DISTRIBÚTION**, (s.) rhaniad, cyfran- iad, parthiad, dosparthiad
- DISTRÍBUTIVE**, (adj.) dosparthiadol, cyfraniadol, cyfrangar
- DÍSTRIC**, (s.) tiriogaeth, rhag- lawiaeth, ardal
- DISTRÚST**, (v. a.) gwangredu, ang- hoelio, anghredu, gwanffyddio, drwgdybio: (s.) anymddiried, ang- hoel, gwangred, anhyder, drwgdyb
- DISTRÚSTFUL**, (adj.) anhyderus, drwgdybus, ofnus, pryderus
- DISTRÚSTFULNESS**, (s.) anhyder
- DISTÚRB**, (v. a.) cynhyrfu, aflon- yddu, cythruddo, cythryblu, cyff- roi—rhwystro, lluddias, llestair
- DISTÚRBANCE**, (s.) terfysg, trallod, cythrwll, cythrudd, cynnwrf, aflon- yddwch, trabludd, godwrdd
- DISTÚRBER**, (s.) terfysgwr, cyffro- wr, aflonyddwr
- DISÚNION**, (s.) dadgyssylltiad, gwa- haniad, dadundeb, neillduad, ys- gariad, ysgar, anundeb
- DISUNÍTE**, (v. a.) datgyssylltu, gwa- hanu, daduno, neillduo, rhanu, ysgar
- DISÚNITY**, (s.) anundeb
- DISÚSAGE**, (s.) anarferiad, gadawiad arfer, newidiad arfer
- DISÚSE**, (s.) anarfer, annefod, ang- hynnefnder, diarferiad: (v. a.) an- arferu, diarferu, newidio arfer
- DITCH**, (s.) clawdd, flos, camlas
- DÍTCHER**, (s.) cloddiwr
- DÍTTO**, (s.) yr un peth, y rhagddy- wededig, yr un
- DÍTTY**, (s.) cân, cathl, canu, cyw- ydd, odl, cynw-gerdd
- DIVÁRICATE**, (v. a.) rhanu, gwaha- nu, dosparthu, cerdded yn goesgam
- DIVARICÁTION**, (s.) gwahaniad, neill- duad, dosparthiad, fforchogiad
- DIVE**, (v. n.) bwrio tan ddwfr, myned yn ddwfn, chwilio'r gwaelod
- DIVÉRGE**, (v. n.) gwasgaru
- DIVÉRGENT**, (adj.) yn gwasgaru, yn myned bellach-bellach oddiwith ei gilydd, ymhelläol
- DÍVERS**, (adj.) amryw, amrafal
- DIVÉRSE**, (adj.) amrywiol, annhebyg, gwahanredol, gwahanol



- DIVERSIFICÁTION**, (v.) newidiad, cyfnewidiad, amgeniad, cymmysgedd o amryw liwiau, amrywiol
- DIVÉRSIFY**, (v. a.) amrywio, amryfaelio, amgenu, britho âg amryw liwiau, newidio, brithnodi
- DIVÉRSION**, (s.) osgoad—difyrwch, digrifwch, dyddanwch
- DIVÉRSITY**, (s.) amrywiaeth, amryfaeliad, gwahaniaeth
- DIVÉRT**, (v. a.) troi oddiar y ffordd—difyrú, digryfu, dyddanu
- DIVÉRTING**, (adj. or part.) difyr, digrif, llawen, dyddan
- DIVÉRTISEMENT**, (s.) sarllach
- DIVÉRTIVE**, (adj.) difyrus, dyddanus
- DIVÉST**, (v. a.) diosg, dihatru—difuddio, difeddu, difeddiannu
- DIVÍDE**, (v. a.) rhanu, cyfranu, parthu, dosparthu, gwahanu, ysgar
- DÍVIDEND**, (s.) rhan, cyfran—nifer i'w barthu, dogn gyfran
- DIVÍDER**, (s.) rhanwr, dosparthwr
- DIVÍDERS**, (s.) math ar gwmpas
- DIVINÁTION**, (s.) dewiniaeth, dewindabaeth, rhagddywediad
- DIVÍNE**, (s.) duwinydd, difeinydd, dewin: (adj.) duwiol, dwyfol, nefol, sanctaidd: *fig.* rhagorol, ardderchog: (v. a.) dewinio, dewindabu, darogan, brudio, rhagddywedyd
- DIVÍNELY**, (adv.) yn nefol, mewn modd nefol, yn nefolaidd
- DIVÍNER**, (s.) dewin, daroganwr
- DIVÍNITY**, (s.) duwdod, duwiolaeth—duwinyddiaeth, difinyddiaeth, gwybodaeth am bethau dwyfol
- DIVISIBÍLITY**, (s.) gwahanredolrwydd, hyranrwydd
- DIVÍSIBLE**, (adj.) rhanadwy, parthadwy, dosparthadwy, a ellir ei ranu
- DIVÍSION**, (s.) rhaniad, parthiad, dosparthiad, rhanedigaeth, gwahanedigaeth, gwahaniaeth, ysgar
- DIVÓRCE**, (s.) ysgar, ysgariaeth: (v. a.) ysgar, ysgar priodas, ysgaru
- DIVÓRCÉMENT**, (s.) edr. *Divorce*
- DIVÓRCER**, (s.) ysgarwr, ysgarydd
- DIÚRNAL**, (adj.) dyddiol, beunyddiol: (s.) dydd lyfr
- DIUTÚRNITY**, (s.) hir-bara, hiriant
- DIVÚLGE**, (v. a.) cyhoeddi, gwneuthur yn gyhoedd, cyffredino, amlygu, datguddio, anghelu
- DIVÚLGING**, } (s.) cyhoeddiad,
- DIVULGÁTION**, } cyffrediniad
- DIVÚLSION**, (sub.) dadgyssylltiad, rhwygiad, tyniad ymaith
- DÍZEN**, (v. a.) trwsio, addurno
- DÍZZARD**, (adj.) gorffwyllus, syfrdan
- DÍZZINESS**, (s.) bendro, madronod
- DÍZZY**, (adj.) a'r bendro arno, pendröedig, pensyfrdan, penysgafn, penfeddw: *fig.* anfeddylgar
- DO**, (v. a.) gwneuthur, gwneud
- DÓCIBLE**, } (adj.) hyddysg, hawdd
- DÓCILE**, } ei ddysgu
- DÓCÍLITY**, (s.) cymmwyssder i dderbyn addysg, parodrwydd i gymmeryd ei ddysgu, eorth fryd
- DOCK**, (s.) gorsaf llongau, llongborth—cynffon, cloren, rhonell, conell: (v. a.) tori cloren, tori yn fyr
- DOCKET**, (s.) hyffordd nôd ar nwyfan
- DÓCTOR**, (s.) athraw, dysgawdwr
- DÓCTRINAL**, (adj.) athrawus, athrawaidd, addysgiadol
- DÓCTRINE**, (s.) athrawiaeth, dysgeidiaeth, dysg, addysg
- DÓCUMENT**, (s.) hyfforddiad, cyfarwyddiad, llith, addysg
- DODDER**, (s.) llindro, llindag
- DODGE**, (v. a.) rhedeg o un lle i'r llall—twyllo, siomi, cecru
- DOE**, (s.) ewig, gafr ddanas
- DÓBR**, (s.) gwneuthurwr
- DOFF**, (v. a.) diosg, dihatru
- DOG**, (s.) ei, costawg.—*Dog-days*, dyddiau'r cwn; y dyddiau yn mharai y mae seren y ci yn codi a gostwng gydâ'r haul.—*Dog-fish*, morgi, penci
- DÓGBOLT**, (adj.) truenus, tosturus, alaethus, truan
- DÓGCHEAP**, (adj.) newid fawr, isel bris
- DÓGGED**, (adj.) sarug, anhynaws, drwg anwydus, ciaidd, costogaidd
- DÓGGEDNESS**, (s.) sarugrwydd, anhynawsedd, anynadrwydd
- DÓGGER**, (s.) llong fechan, ysgoren
- DÓGGEREL**, (adj.) gwael, dirmygus
- DÓGGISH**, (adj.) edr. *Dogged*
- DÓGMA**, (s.) cyffredin dyb, ordinhad
- DOGMÁTIC**, } (adj.) a fyddo yn
- DOGMÁTICAL**, } bendant o hono ei hun, awdurdodol yn cymmell ei dyb ar creill, megis gwirionedd diamheuol, cryf-dybus

- DOGMATIZE**, (v. a.) haeru peth yn arglwydddaidd, megis gwirionedd sicr a diammheuol, cryf-haeru
- DÓINGS**, (s.) cyflawniadau, gwaith, ymddygiad, ymarweddiad, trafferth, terfysg, gorchwylion
- DOLE**, (s.) rhan, cyfran, rhodd, anrheg—tristwch, galar, alaeth: (v. a.) cyfranu, dosparthu, rhoddi
- DÓLEFUL**, (adj.) trist, galarus, truenus, alaethus, athrist
- DÓLEFULNESS**, (s.) tristwch, alaeth, galar, cwynalaeth, athristedd
- DÓLESOME**, (adj.)edr. *Doleful*
- DÓLESOMENESS**, (s.) alaethusrwydd
- DÓLLAR**, (s.) darn o arian o werth 4s. a 6ch.
- DÓLOROUS**, (adj.) dolurus, poenus, cystuddiol, alaethus, cwynfanus
- DÓLOUR**, (s.) gofid, dolur, poen, cysteg, cystudd, tristwch
- DÓLPHIN**, (s.) morhwch, morbysg a elwir delphin—dolffyn
- DOLT**, (s.) dyn hurt ffol, delff
- DÓLTISH**, (adj.) hurt, ffol, ynfyd, synhwyrbwl, penbylaidd
- DÓLTISHNESS**, (s.) hurtrwydd
- DOMÁIN**, (s.) etifeddiaeth, treftadaeth
- DOME**, (s.) teml, tŷ, adeilad
- DOMÉSTIC**, } (adj.) tŷaidd, teu-
- DOMÉSTICAL**, } luaidd, cartrefol
- DÓMÍCIL**, (s.) trefred, cartref, annedd, cyfannedd, trigfa, tŷgle
- DÓMINATE**, (v. a.) arglwyddiaethu, rhwysgo, rheoli, meistroli
- DOMINATION**, (s.) rheolaeth, arglwyddiaeth, llywodraeth
- DOMINÉER**, (v.) arglwyddiaethu, rheoli, llywodraethu, rhwysgo
- DOMÍNICAL**, (adj.) yn arwyddocau dydd yr Arglwydd. — *Dominical letter*, llythyren y Sul, neu y llythyren sydd yn arwyddocau y Sul mewn Almanac
- DOMÍNION**, (s.) arglwyddiaeth, llywodraeth, ymerodraeth, pendefigaeth, goruchafiaeth, rheolaeth
- DÓNARY**, (s.) rhodd, anrheg
- DONATION**, (s.) rhoddiad, doniad, anrhegiad, ced, elusen-rodd
- DÓNATIVE**, (s.) rhodd, dawn, anrheg, oseb, doniad
- DONE**, (part. pass. of *do*) wedi ei wneuthur: (interj.) diwedd, dyna ben
- DÓNOR**, (s.) rhoddwr, doniwr
- DOOM**, (s.) brawd, barn, barnedig-aeth, dedfryd, colledigaeth, darnedigaeth: (v. a.) difarnu, dedfrydu, colffarnu, condemnio.—*Doomsday*, dydd barn, dydd brawd
- DOOR**, (s.) drws, dŵr, porth.—*Door-case*, rhiniog drws
- DÓRMANT**, (adj.) cysglyd, yn cysgu, dirgel, cuddiedig, cysgiedig
- DÓRMITORY**, (s.) ystafell gwely, hundy, cysgwâl, cerner
- DÓRMOUSE**, (s.) pathew, bathor
- DÓRSEL**, } (s.) cawell, bancr, pyn-
- DÓRSEER**, } ner, cefn gawell
- DÓRTURE**, (s.)edr. *Dormitory*
- DOSE**, (s.) rhoddiad, cymmaint o physygwriaeth ag a gymmerir ar yr un pryd, amrant-hun
- DOT**, (s.) nôd, man: (v. a.) nodi
- DÓTAGE**, (s.) gorffwyll, ynfydrwydd, syfrdandod—mâl-ledd, marwerydd, maldod, dotian-oed
- DÓTARD**, (s.) dyn gorffwyllus, dyn syfrdan, dotianwr
- DOTE**, (v. n.) gorffwylllo, ymlyferydd, syfrdanu—maldodi
- DÓUBLE**, (adj.) dyblyg, dauddyblyg: (v.) dyblu, dyblygu: (s.) dybliad, dyblygiad
- DÓUBLER**, (s.) dwbler, dyblygwr
- DÓUBLET**, (s.) dwbled
- DÓUBLY**, (adv.) yn ddauddyblyg, yn ddeublyg, yn ddyblyg
- DOUBT**, (s.) petrusder, amhweuaeth: (v. n.) petruso, ammau
- DÓUBTFUL**, (adj.) petrus, amheus, ammwys, annilys, ansicr
- DÓUBTFULNESS**, (s.) amhweuaeth, petrusder, annilysrwydd, ammwysedd
- DÓUBTLESS**, (adv.) dioer, diammau, dinam, diedfydd, yn ddiau
- DOVE**, (s.) colomen.—*Dove-coat*, colomendŷ.—*Ring-dove*, ysguthan, cudon, cuddon
- DOUGH**, (s.) *pron. do*, (s.) toes
- DÓUGHTY**, *pron. dowty*, (adj.) hyderus, gwychr, hŷ, eofn, glew, calonog, dewr, cadarn
- DÓUGHY**, *pron. dowy*, (adj.) toeslyd
- DOUSE**, (v. a.) soddi, suddo, trochi
- DÓWAGER**, (s.) gwaddolog
- DÓWBY**, (s.) benyw wladaidd, annyben, benyw dew wrthua

- DÓWER,** } (s.) gwaddol, cynnysg-  
**DÓWERY,** } aedd, gweddi, egweddi,  
 argyfreu, cowyll  
**DÓWERLESS,** (adj.) diwaddol  
**DÓWLAS,** (s.) math ar liain cryf garw  
**DOWN,** (s.) plycan, goflew, draenblu,  
 manblu, rhôs blu — gwastadfaes,  
 gwastadtir, gwastadedd: (adv.) ar  
 y llawr, ar i waered, tu ag i wae-  
 red.—*Down-fall*, cwmp, codwm,  
 dinystr, dystryw.—*Down-hill*, gor-  
 waered, llethr, diffwys  
**DOWNRIGHT,** (adj.) syml, didwyll,  
 dihoced, onest  
**DÓWNWARD,** } (adv.) tu ag i wae-  
**DÓWNWARDS,** } red, ar i waered  
**DÓWNY,** (adj.) plüaidd, pludd, es-  
 mwyth, mân-blüawg  
**DÓWRY,** (s.) edr. *Dower*  
**DOWSE,** (s.) cernod, cis, ysgarlip  
**DOXÓLOGY,** (s.) *from Gr. δοξα, glo-*  
*ry, gogoniant, and λογος, word, or*  
*speech, gair neu ymadrodd, ymad-*  
*rodd byr yn cynnwys gogoniant i*  
*Dduw, megis Gogoniant i'r Tad*  
*ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân-*  
*mawl-wers*  
**DÓXY,** (s.) putain, anlladferch,  
 mwyglen, cyffoden  
**DOZE,** (v.) hepian, syfrdanu, synu  
**DÓZEL,** (s.) dwsel, pistyll, doreth  
**DÓZEN,** (s.) deuddeg, dwsain, dwsin  
**DÓZINESS,** (s.) trymluowgrwydd,  
 marweidd-dra, merwindod, mus-  
 grelli, trymsyrthni, cysgadrwydd  
**DÓZY,** (adj.) cysglyd, marwaidd  
**DRAB,** (s.) putain, dihiren, budrogen  
 —brethyn gwlan tew  
**DRACHM,** *from Heb. Drachmon,* (s.)  
 wythfed ran o wns—bath arian yn  
 mhllith y Groegiaid, o werth o am-  
 gylch saith ceiniog a dimai  
**DRAFF,** (s.) golchion, soeg, cibyn,  
 sorod, gwaddod, bwyd moch  
**DRÁFFY,** (adj.) gwaddodllyd, di-  
 ffwyth, budr, ffaidd, brwnt  
**DRAG,** (s.) car, carllysg—tynfach i  
 godi peth o'r dwfr, rhwyd tyn:  
 (v. a.) tynu, llusgo  
**DRÁGGLE,** (v. a.) diblo, llutrodi  
**DRÁGON,** (s.) draig.—*Dragon fly,*  
 gwas y neidr.—*Dragonlike,* cyff-  
 elyb i ddraig—tanllyd, creulon  
**DRAGÓN,** (s.) march-filwr  
**DRAIN,** (v. a.) dyhyspyddu, dispy-  
 ddu, sychu, dysychu, dyfr-ffosu  
**DRAKE,** (s.) mailart, ceiliog hwyad,  
 adiad, maelart  
**DRAM,** (s.) yr wythfed ran o wns—  
 trangcell, tarlwngc, traflwngc  
**DRANK,** (preter. of *drink*)  
**DRÁPER,** (s.) maeliwr, neu farsiaid-  
 wr lliain a brethynau  
**DRÁPERY,** (s.) gwaith brethynau, neu  
 y gelfyddyd o wneuthur brethynau  
**DRÁSTIC,** (adj.) cryf, nerthol, effeith-  
**DRAUGH,** (s.) edr. *Draff* [iol  
**DRAUGHT,** (s.) traflwngc, trangcell,  
 tarlwngc, llymaid—cynllun, dull,  
 llun, eilun, portreiad, copi—tyn,  
 tyniad—llu o filwyr wedi eu cym-  
 meryd allan o'r brif fyddin—lwf-  
 iedigaeth mewn pwysau—ysgrifen  
 a dynir gan un dyn ar un arall am  
 arian—ysgothfa, geudy, Mat xv.17.  
**DRAW,** (v. a.) tynu, llusgo, arwain—  
 denu, twyllo — heilio, gollwng—  
 llunio, llinellu, portreio: (s.) tyn,  
 tyniad  
**DRÁWBACK,** (s.) taliad yn ol  
**DRÁW-BRIDGE,** (s.) ysgrogell  
**DRÁWER,** (s.) tynwr—heilyn—pren-  
 nol—gollyngwr diod  
**DRÁWERS,** (s.) llawdrau, llodrau  
**DRÁWING,** (s.) llun, arlun, lluniad,  
 darluniad, portreiad  
**DRAWL,** (v. a.) llefaru yn gymmyr-  
 eddus, truth-siarad  
**DRAY,** (s.) tres, car, tyngar  
**DREAD,** (s.) ofn, dychryn, braw,  
 aiswyd, arynaig: (v. n.) ofni, dych-  
 rynu, brawychu, arswydo  
**DRÉADFUL,** (adj.) dychrynlllyd, ofn-  
 adwy, erchyll, arswydus  
**DRÉADFULLY,** (adv.) yn ddychryn-  
 llyd, yn ofnadwy  
**DRÉADLESS,** (adj.) hÿ, eofn, diofn,  
 diddychryn, diarswyd  
**DREAM,** (s.) breuddwyd, gweledig-  
 aeth drwy hun: *fig.* arabedd, coeg-  
 beth, peth annhebyg i wir: (v. n.)  
 breuddwydio  
**DRÉAMER,** (s.) breuddwydiwr  
**DREAR,** } (adj.) trist, galarus, al-  
**DREARY,** } aethus, tosturus, truen-  
 us, dychrynlllyd, anguriol  
**DREGS,** (s.) gwaddod, gwaelodion,  
 rhytion, llorion, ffwlbri

- DRÉGGY**, (adj.) gwaddodlyd  
**DREIN**, (v. a.) edr. *Drain*  
**DRENCH**, (s.) diod feddyginaeth : (v. a.) rhoi diod feddyginaeth; golchi, puro, glanhau, arloesi, mwydo  
**DRESS**, (s.) gwisg, trwsiad, dillad, archenad, addurn : (v. a.) gwisgo, trwsiadu, dilladu, addurno, prydfertu  
**DRÍBBLE**, (v. a.) glafoerio, difern, defnynu, distellu  
**DRÍBLET**, (s.) dryllyn, swm bychan o arian  
**DRIFT**, (s.) amcan, bwriad—cludair eira, llywchfa — gyriad : (v. a.) gyru—pentyr  
**DRILL**, (s.) ebill, trul, trwyddew : (v. a.) trulio, ebillio  
**DRINK**, (v. n.) yfed, sugno : (s.) diod, llyn, gwirod  
**DRINKABLE**, (adj.) yfadwy  
**DRINKER**, (s.) yfwr, diotwr  
**DRIP**, (s.) defnyn, diferyu, dôs : (v. n.) difern, defnynu, distellu, dafnu  
**DRIPPING**, (s.) diferion, toddion  
**DRIVE**, (v. a.) gyru, dirio, gwthio, hêl, hela, ymlid  
**DRÍVEL**, (s.) glafoerion, ymboer : (v. n.) glafoerio  
**DRÍVELLER**, (s.) ynfyd, glafoerwr  
**DRÍZZLE**, (v. a.) gw litho, difern fel gw lith, gwlychu, defnynu  
**DRÍZZLY**, (adj.) yn gw litho, yn disgyn fel gw lith, mân-ddefnynog  
**DROLE**, } (sub.) ysgentyn, croesan,  
**DROLL**, } cellweiriwr : (adj.) digrif, difyr, cellweirgar, arab : (v. n.) cellwair, cydcam  
**DRÓLLERY**, (s.) cellwair, cymhŵedd, digrifwch, croesanaeth  
**DRÓMEDARY**, (s.) camel â dau hwrwg ar ei gefn, gammarch  
**DRONE**, (s.) beggyr, gwenynen ormes: *fig* diogyn, dyn musgrell, llibyn  
**DRÓNISH**, (adj.) diog, llesg, anesgud  
**DROOP**, (v. n.) llesgau, edwi, ymollwng, methu, diflanu  
**DROP**, (s.) dafn, diferyn, defnyn, dôs, distell : (v.) difern, defnynu, distellu, gollwng i lawr, rhoi heibio  
**DRÓPSICAL**, (adj.) claf o'r dropsi  
**DRÓPSY**, (s.) dropsi, y dyfrglwyf  
**DROPWORT**, (s.) y grôg edau  
**DROSS**, (s.) sinidr, sinidro, gorferw, sorod, sothach, amhuredd  
**DRÓSSY**, (adj.) aumhur, llawn sinidr, gorferw, a sorod, sothachlyd  
**DROVE**, (s.) gyr, pari, llu, torf, cenfaint, caud, mintai, diadell  
**DRÓVER**, (s.) porthmon, gyrrwr, gyriedydd  
**DROUGHT**, (s.) sychder, hysprwydd, sychedd, sych-hin, crasder  
**DRÓUGHTY**, (adj.) sych, sychedig  
**DROWN**, (v. a.) boddi, suddo, soddi  
**DRÓWSINESS**, (s.) trymluogrwydd, marweidd-dra, diogi, syrthni, mysgrelli, cysgadrwydd, hin-haint  
**DRÓWSY**, (adj.) cysglyd; trymluog, musgrell, diog, marwaidd  
**DRUB**, (v. a.) dyrnu, curo, pwyo, ffusto  
**DRUDGE**, (v. a.) trafferthu, llafurio, gwasanaethu : (s.) gwas, gwasanaethwr, a wnel bob math o wasanaeth caled  
**DRÚDGERY**, (s.) trybestod, pob gwasanaeth caled, caled-waith  
**DRÚID**, (s.) derwydd : *pl.* derwyddon  
**DRUM**, (s.) tabwrdd : (v.) tabyrddio  
**DRUNK**, (adj.) meddw, brwysg, diawdrydd  
**DRÚNKARD**, (s.) meddwyn  
**DRÚNKEN**, (adj.) meddw. *Edr. Drunk*  
**DRÚNKENNESS**, (sub.) meddwdod, brwysgedd, meddwaint  
**DRY**, (adj.) sych, gwiw, sychedig : (v. a.) sychu, gwneuthur yn sych, dyhyspyddu  
**DRYNESS**, (s.) sychder, gwiwder, syched  
**DÚAL**, (adj.) a berthyn i ddau  
**DUB**, (v. a.) gwneuthur yn farchog, ordeinio, urddasu : (s.) llyn, pwll  
**DÚBIOUS**, (adj.) petrus, ammheus, annilys, ammwys, ansicr  
**DÚBIOUSLY**, (adv.) yn ammheus, yn ansicr, yn annilys  
**DÚBIOUSNESS**, (s.) ansicrwydd, petrusder, ammheuaeth, annilysrwydd  
**DÚBITABLE**, (adj.) a f'o petrus, a ellir ei ammau, ammheudwy  
**DUBITÁTION**, (s.) ammheuaeth  
**DÚCAL**, (adj.) dugaid, dugiawl  
**DUCE TAKE YOU**, ewch i andras  
**DUCK**, (s.) hwyad, hwyaden : (v. n.) myned tan ddwfr, bwrw tan ddwfr, soddi, suddo  
**DÚCKLING**, (s.) hwyad ieuange  
**DUCT**, (s.) tywysiad, hyfforddiad

- llywiad. "To follow the *duct* of the stars." Hammond
- DÚCTILE**, (adj.) hyddwyn, hydyn, hawdd ei dywys, ystwyth
- DUCTÍLITY**, (s.) hyblygedd, hydrinrwydd, rhiwiogrwydd, hydynrwydd
- DÚDGEON**, (s.) dageran, bidogan—malais, drwg-ewylllys, drygnwyd
- DUE**, (adj.) dyledus, iawn, addas, priodol, cyfiawn: (s.) dyled, iawn, cyfiawnder, eiddo
- DÚEL**, (s.) ornest, ymornest, cad, cadwent, ymladd rhwng dau: (v.n.) ymornest, ymladd cad
- DÚELIST**, (s.) ornestwr
- DUG**, (pret. of *dig*): (s.) teth, bron, diden
- DUKE**, (s.) dŷg, duc, penciwdod
- DÚKEDOM**, (s.) llywodraeth dŷg: dugiaeth
- DÚLCET**, (adj.) melus, pêr, peraidd—cynghaneddol
- DULCIFICÁTION**, (s.) melusâd, y weithred o wneud yn felus
- DÚLCIFY**, (v. a.) melusu, pereiddio
- DÚLCIMER**, (s.) dŷsmel
- DÚLCORATE**, (v. a.) *edr. Dulcify*
- DULCORÁTION**, (s.) *edr. Dulcification*
- DULL**, (adj.) dwl, pwl, hurt, syn, syfrdan: (v. a.) pwl, hurtio, dwlu, syfrdanu
- DÚLLARD**, (s.) dyn dwl, hurt
- DÚLNESS**, (s.) pylni, hurtrwydd, syfrdandod, syrthni, musgrelli
- DÚLY**, (adv.) yn addas, yn rheolaidd, yn ofalus, yn fanwl
- DUMB**, (adj.) mud, aflafar, tawedog
- DÚMBLY**, (adv.) yn fud, yn ddystaw
- DÚMBNESS**, (s.) mudrwydd, dystawrwydd, mudaniaeth
- DUMP**, (s.) gorffwyll, syfrdandod, syndod, hurtrwydd, irdang
- DÚMPISH**, (adj.) gorffwyllog, syfrdan, trist, alaethus
- DÚMPLING**, (s.) trolen, troli
- DUN**, (adj.) gwineu, gwineuddu, tywyll: (v. a.) gofyn dyled trwy daerni: (s.) a ofyno ddyled yn daer ac yn fynych
- DUNCE**, (s.) dyn dwl, hurt, syfrdan
- DUNG**, (s.) tom, tail, biswail, baw, ebod: (v. a.) tomi, teilo, ebodni
- DÚNGEON**, (s.) carchar tywyll
- DÚNGHILL**, (sub.) tomen, sybwl, troethbwl
- DÚNNER**, (s.) cynnullwr dyled, codwr dyled, taer-geisiwr
- DUODÉCIMO**, (adj.) deuddeg plyg
- DUPE**, (s.) hygred, ynfyd, hurt, disynwyr: (v. a.) twyllo, hudo, denu
- DÚPLR**, (adj.) deublyg
- DÚPLICATE**, (v. a.) dyblu, dyblygu, dauddyblu: (s.) cœpi ysgrifen, peth o'r un natur, neu yr un peth ag un arall
- DUPPLICÁTION**, (s.) dybliad, dyblygiad, deu-blygiad, adlefariad
- DÚPLICATURE**, (s.) *edr. Duplication*
- DÚPLICITY**, (s.) dau-wyneb, dyblygrwydd, dauddyblygrwydd, twyll
- DURABÍLITY**, (s.) parhausrwydd
- DÚRABLE**, (adj.) parhaus, o hir bara
- DÚRABLENESS** (s.) para, hiriant, hir-bara, parhausder
- DÚRABLY**, (adv.) yn barhaus
- DÚRANCE**, (s.) carchar, caethiwed, dalfa, attalfa—espeid, parhad
- DURÁTION**, (s.) parhad, para
- DURE**, (v. n.) parhau, aros
- DÚRELESS**, (adj.) dibara, trangcedig, darfodedig
- DURÉSSE**, (s.) carchar, trais-rwymiad
- DÚRHAM**, (s.) Dewyr
- DÚRING**, (part.) tra parhao, cyd ag
- DÚRITY**, (s.) caledrwydd
- DURST**, (pret. of *dare*) beiddio
- DUSK**, (sub.) gogyfnos, cyflychwr, gorchyfarwy, cyfnos, gŷyllnos
- DÚSKISH**, } (adj.) lled-dywyll, tyw-
- DÚSKY**, } yll, dylwyd—trist
- DUST**, (s.) llwch, pluor, ploro, lwrđ: (v. n.) llychwino.—*Mill-dust*, blot-waith
- DÚSTY**, (adj.) llychlyd, llawn llwch, llychwyn, ffylorog
- DÚTCHMEN**, (s.) yr Isellmyn
- DÚTCHESS**, (s.) duges
- DÚTCHY**, (s.) dugaeth
- DÚTEOUS**, } (adj.) ufudd, gostyng-
- DÚTIFUL**, } edig, parchus
- DÚTIFULNESS**, (s.) ufudd-dod, gostyng-eiddrwydd, parch, dyledgarwch
- DÚTY**, (s.) dyledswydd, dlêd, dyled, gwasanaeth—treth, tâl, cyllid, toll
- DWARF**, (s.) nâr, cor, llegyrn
- DWELL**, (v. n.) trigo, preswyllo, anneddu, cyfanneddu, cartrefu
- DWÉLLING**, (s.) trigle, trigfa, preswylfod, annedd, cyfannedd

**DWINDLE**, (v. n.) treulio, difa, darfod, lleihau, diflanu, gwywo  
**DYE**, (v. a.) lliwio, llifo: (s.) lliw, lliwiad, amlwiad, llifiad  
**DY'ER**, (s.) lliwiwr.—*Dyer's weed*, aurfanadl, banhadlos, corfanadl, llysiâu'r lliw, lliwlys  
**DY'ING**, (s.) lliwiad: (part.) yn marw  
**DY'NASTY**, (s.) arglwyddiaeth, rheolaeth, llywodraeth

**DY'SCRACY**, (s.) drwg ansodd corff, anhawnt, afiechyd  
**DYSÉNTERY**, (s.) darymred gwaed  
**DYSPÉPSY**, (s.) diffyg traul ar fwyd  
**DY'SPHONY**, (s.) *from Gr. dys, difficult*, anhawdd, and *phōnē, voice*, lleferydd; diffyg dywediad  
**DY'SPNOEA**, (s.) diffyg anadl  
**DY'SURY**, (s.) anhawsder troethi, atal dwfr, tostedd

## E.

**EACH**, (pron.) pob, pob un.—*Each other*, y naill y llall  
**E'AGER**, (adj.) sur, egr—taer, durfing, difri, angherddol, creulon, dywal, awyddus  
**E'AGERNESS**, (s.) awydd, aingc, taer- ni, chwant, dihwed—surni, llymder  
**EAGLE**, (s.) eryr: *fem.* eryres  
**EAR**, (s.) clust, ysgyfarn—tywysen: (v. a.) aredig, amaethu: (neut.) hadu, hodi.—*To give ear*, gwrando, clustymwrando, clustfeinio, rhoddi clust, dal sylw  
**EARL**, (s.) iarll  
**E'ARLDOM**, (s.) iarllaeth  
**E'ARLESS**, (adj.) diglust  
**E'ARLINESS**, (s.) cynharwch, tymoreiddrwydd, boreuedd  
**E'ARLY**, (adj.) boreuol, cynnar: (adv.) yn fore, bore, mewn amser  
**EARN**, (v. a.) ynnill, elwa, maelio—rhyglyddu, haeddu  
**E'ARNEST**, (adj.) prysur, difrif, diwegi, taer, gwresog, angherddol: (s.) prysurdeb, dwysder, difrifwch—ern, ernes, gwystl, bridyw  
**E'ARNESTLY**, (adv.) yn daer, o ddifrif, yn brysur, yn awyddus  
**E'ARNESTNESS**, (s.) awyddfryd, taerder, gwresogrwydd. *Edr.* *Eager*  
**E'ARNING**, (s.) cyflog, ynnylliad  
**E'ARRING**, (s.) clust-dlws, ysginen  
**EARST**, (adv.) o'r blaen, er ys talm  
**EARTH**, (s.) daear, tir, daeren, tûd, tudwedd, pridd: (v. a.) priddo, daearu: (neut.) ymguddio tan y ddaear.—*Earth-nuts*, clor, cylor, enau y ddaear.—*Earth-worm*, amwydyn, abwydyu, llyngheren y ddaear

**E'ARTHEN**, (adj.) priddol, o'r pridd, daearol, daierin, priddlyd  
**E'ARTHLINESS**, (s.) daearoldeb  
**E'ARTHLING**, (s.) preswlydd, un a'i fryd ar bethau daearol  
**E'ARTHLY**, (adj.) daearol, daierin, priddol, o'r pridd, bydol  
**EARTHQUAKE**, (s.) daeargryn  
**E'ARTHY**, (adj.) daearaidd  
**E'ARWIG**, (s.) chwilen y glust  
**EASE**, (s.) esmwythdra, llonyddwch, gorffwysdra, hamdden, seibiant, tawelwch: (v. a.) esmwythâu, llonyddu, dyhuddo, lliniaru  
**E'ASEMENT**, (s.) esmwythâd, hawsâd  
**E'ASILY**, (adv.) yn hawdd, yn ddi-boen, yn esmwyth  
**E'ASINESS**, (s.) rhwyddydd, hawsder, hawsedd, esmwythder, hynawsedd  
**EAST**, (s.) dwyrain—codiad haul  
**E'ASTER**, (s.) y pasc  
**E'ASTERLY**, (adv.) tu a'r dwyrain  
**E'ASTERN**, (adj.) dwyreiniol  
**E'ASTWARD**, (adv.) *edr.* *Easterly*  
**E'ASY**, (adj.) esmwyth, araf, llonydd, tawel, hawdd, rhwydd, hynwedd, hynaws, hydrin, meddal  
**EAT**, (v.) bwyta, llewa, ysu, difa, ymborthi, dyfetha  
**E'ATABLE**, (adj.) a ellir ei fwyta  
**E'ATER**, (s.) bwytawr—dyn glwth  
**E'ATING**, (s.) bwytdâd.—*Eating-house*, bwytty  
**E'AVES**, (s.) bargod tŷ, bondo.—*Eaves-drop*, lledymwrando, clustymwrando, ymglustfeinio.—*Eaves-dropper*, clustymwrandaer, a wrandawo tan ffenestri  
**EBB**, (s.) trai, ertrai, adlif, gwrthlif,

- mordrai: (v. n.) gwrthlifo, treio, lleihau
- E'BONY, (s.) pren du fel y muchudd
- EBRÍETY, (s.) meddwod, brwysgedd, meddwaint
- EBRÍOSITY, (s.) gwastadol feddwod, diodgarwch
- EBULLITION, (s.) berwad, gorferwad, crychias: *fig.* cynhyrriad, cyffroad, cythruddiad
- ECCÉNTRIC, } (adj.) yn myned  
ECCÉNTRICK, } oddiwrth y canolbwynt: *fig.* yn pallu ateb y dyben pwyntiedig—afreolaidd, gwrthwyneb i reol sefydledig
- ECCENTRÍCITY, (s.) ymadawriad oddiwrth y canolbwynt
- ECCLESÍÁSTICAL, (adj.) eglwysaidd
- ECCLESÍÁSTIC, (s.) eglwyswr, pregethwr, gwr eglwysig
- E'CHO, (s.) gwrthlais, adlais, adsain, craig lefair, dadsain, diaspad: (v. n.) dadseinio, diaspedain, darstain, rhoddi diaspad
- ECCLAIRCÍSSEMENT, (s.) amlygiad, eglurhad, esponiad, dangosiad
- ECLÁT, (s.) gloywder, dysgleirdeb, llwyrch—arlderchawgrwydd, gogoniant, anrhydedd, urddas
- ECLÉCTIC, (adj.) *from Gr. εκλεκτω, to chuse, dewis, ag awdurdod ganddo i ddewis, dewisawg, dewisgar*
- ECLÍPSE, (s.) *from Gr. εκλειψις, defects, diffyg; diffyg, pall, cil, eclips, tywyllwch, caddug: (v. a.) tywyllu, caddugo, cymylu, cuddio: fig. gwarthruddio*
- ECLÍPTIC, (s.) cylch blynyddol yr haul, cylch y diffygion
- ECLÓGUE, (s.) cân fugeilaidd
- E'CTACY, (s.) bloddest, mawr lawenydd a gorfoledd—llesmair
- EDÁCITY, (sub.) gwangc, glythni, rhythni, bwyteigrwydd, glythineb
- E'DDY, (s.) cylchdroad dwfr: *fig.* pwlltro, trowynt, corwynt: (adj.) troedig
- EDGE, (s.) min, awch, llymder, ymyl: (v. a.) llymu, hogi, awchu, golymu—annog, cyffroi
- E'DGED, (adj.) miniog, llym, awchllym
- E'DGING, (s.) llain ar ymyl gwisg, eirionyn, amaerwy, rhidens
- E'DIBLE, *edr. Eatable*
- E'DICT, (s.) gorchymmyn, ordinhad cyhoedd, cyhoeddiad
- EDIFICÁTION, (s.) adeiladaeth, addysgiad, hyfforddiad
- E'DIFICE, (s.) adeil, adeilad, adeildŷ
- E'DIFIER, (s.) adeiladydd
- E'DIFY, (v. a.) adeiladu, athrawu, athrawiaethu, addysgu, hyfforddi
- EDÍTION, (s.) argraffiad, cyhoeddiad
- E'DITOR, (s.) cyhoeddwr, diwygiwr, a pharotowr ysgrifenedau i'r argraffwasg
- EDMUND, (s.) Ednyfed
**EXTÉND**, (v. a.) ystyn, ymystyn, ystyn allan, parhau, hwyhau, mwyhau, gohirio, cyrhaedd, ehangu  
**EXTÉNSION**, (s.) ystyniad, chengiadiad, helaethiad, ymlediad  
**EXTÉNSIVE**, (adj.) llydan, helaeth, ehang, estynol  
**EXTÉNT**, (s.) ehangder, helaethrwydd, maint, cyrhaedd  
**EXTÉNUATE**, (v. a.) lleihau, teneuhau, culhau, eiddilo, esgusodi  
**EXTENUÁTION**, (s.) lleihad, teneuhad, toliad, ysgafnhad  
**EXTÉRIOR**, (adj.) allanol  
**EXTÉRMINATE**, (v. a.) dadwreiddio, dystrywio, dinystrio—gyru ymaith, llwyr-ddileu  
**EXTERMINATION**, (s.) dystrywiad, dinystriad, llwyr ddyfethiad  
**EXTÉRMINE**, *edr. Exterminate*  
**EXTÉRNAL**, (adj.) allanol, o'r tu allan, nesaf allan  
**EXTÉRNALLY**, (adv.) yn allanol  
**EXTÍNCT**, (adj.) diffoddedig, diddymedig, wedi darfod  
**EXTÍNCTION**, (s.) diffoddiad—dillad, dinystriad, diddymiad  
**EXTÍNGUISH**, (v. a.) diffoddi, diffodd — diddymu, dileu — tywyllu, cymyldu

- EXTINGUISHABLE**, (adj.) a ellir ei ddiffodd, diffoddadwy
- EXTINGUISHER**, (s.) diffoddydd
- EXTIRPATE**, (v. a.) dadwreiddio, diwreiddio—dystrywio, dinystrio
- EXTIRPATION**, (s.) diwreiddiad—dystrywiad, dinystriad
- EXTOL**, (v. a.) clodfori, mawrygu
- EXTORT**, (v. a.) gormesu, treisio, cribdeilio, dwyn o anfodd, cymmeryd trwy drais, ynuill trwy drais
- EXTORTION**, (s.) trais, gormes, cribddail, dirftra, gorthrymiad
- EXTORTIONER**, (s.) treisiwr, cribddeiliwr, 1 Cor. v. 11.
- EXTRACT**, (v. a.) tynu allan—talfyru, cwtogi: (s.) yr hyn a dynwyd allan—byrhad, talfyriad, crynoded, cwtogiad
- EXTRÁCTION**, (s.) tyniad allan, tyniad o beth—âch, cyffâch, cenedl, hiliogaeth—gwelygordd
- EXTRAJUDICIAL**, (adj.) allan o reol cyfraith, afreolaidd
- EXTRAMUNDÁNE**, (adj.) goruwch y byd, oddi allan i'r byd
- EXTRÁNEOUS**, (adj.) dycithr, estron, allanol, arallaidd
- EXTRÁORDINARY**, (adj.) anghynnefin, anarferol, hynod, odiaeth
- EXTRAPARÓCHIAL**, (adj.) amhlwyf-og, heb fod yn perthyn i blwyf
- EXTRÁVAGANCE**, } (s.) afradlon-
- EXTRAVAGÁNCY**, } rwydd, rhysedd, wtres, gwastraff
- EXTRAVAGANT**, (adj.) afradlon, difrodus, treulfawr, afreolaidd
- EXTRÉME**, (adj.) eithaf, cyntaf, pellaf, diweddaf: (s.) eithaf, dyben, cwr eithaf, eithafon
- EXTRÉMELY**, (adv.) yn ddirfawr, yn fawr, yn y radd uchaf, dros ben
- EXTRÉMITY**, (s.) blaen, eithaf, cwr eithaf, pen eithaf, pen pellaf, dyben—ing, ingder, cyfyngder, cyni
- EXTRICATE**, (v. a.) diddyrysu, di-rwystro; gwaredu, rhyddhau
- EXTRÍNSIC**, } (adj.) allanol, a
- EXTRÍNSICAL**, } fyddo oddi allan
- EXTRÍNSICALLY**, (adv.) o'r tu allan, oddi allan, nid o hono ei hun
- EXTRÚDE**, (v. a.) gwthio allan, gyru allan, bwrw allan
- EXTRÚSION**, (s.) gyriad allan, gwthiad allan
- EXÚBERANCE**, (s.) cŵydd, ymchwydd, hwrwg, oddf, gordyfiad
- EXÚBERANCE**, (s.) arddigonedd, rhyseidd, gormodedd, gorlawndid
- EXÚBERANT**, (adj.) gormodd, rhy, rhwy, gorllawn, gormodol
- EXÚLCERATE**, (v. a.) gwelio, peri twn croch, chwysigenu
- EXÚLT**, (v. n.) llemain gan lawenydd, llawenychu yn fawr
- EXULTÁTION**, (s.) crychnaid gan lawenydd: gorfoledd, gorawen
- EXUNDÁTION**, (s.) llifeiriant, rhyferthwy, gorllif, llifiad
- EYE**, (s.) llygad, golwg, trem: (v. a.) golygu, gwylied, llygadu.—*Eye-ball*, mablygad, canwyll y llygad.—*Eye-brow*, ael.—*Eyelid*, amrant clawr llygad.—*Eyeservice*, llygad, wasanaeth.—*Eyesight*, drem y llygaid.—*Blear eyed*, cibddall, coegddall
- EYEBRIGHT**, (s.) y dorfagl, golwg Crist, llygaid Crist, goleudrem, gloywlys, effros
- EY'ED**, (adj.) llygeidiog

## F.

- FÁBLE**, (sub.) chwedl, chwedl gwneuthur, rhith hanes, ffugchwedl: (v. n.) baldordd
- FÁBRICATE**, (v. a.) adeiladu
- FABRICÁTION**, (s.) adeilad, lluniad
- FÁBRIC**, (s.) adeilad, adail (v. a.) adeiladu, saerniaethu, ffurfio
- FÁBULOSITY**, (s.) dychymmygiad chwedlau, neu gelwyddau
- FÁBULOUS**, (adj.) peth dychymmyg, a ddychymmygwyd, ffugiol
- FACE**, (sub.) wyneb, wynebpryd, drych: (v. a.) wynebu
- FACÉTIUS**, (adj.) digrif, llawen, siriol, arab, arabedus, cellweirus
- FACÉTIUSNESS**, (s.) hawddgarwch, mwneidd-dia, digrifwch, sirioldeb, arabeddiaeth, digrifiaeth

- FÁCILE**, (adj.) hawdd, hyrwydd, rhwydd, esmwyth
- FACÍLITATE**, (v. a.) rhwyddhau, hawddhau, esmwythau, cyfrwyddo
- FACÍLITY**, (s.) hawsder, hawsedd, rhwyddydd, rhwyddineb
- FACÍNEROUS**, (adj.) drwg, diriad, ysgeler, drygionus, dyhir
- FACT**, (s.) gweithred, gwaith
- FÁCTION**, (s.) ymbleidiad, terfysg, ymraniad, anghytundeb, ymryson, cythrwfl, plaid, ymblaid
- FÁCTIOUS**, (adj.) terfysgus, ymrýsongar, cynhenus, pleidgar
- FÁCTIOUSLY**, (adv.) yn derfysgus
- FACTÍTIUS**, (adj.) peth gwneuthur, a wnelir trwy dychymmyg, gwneuthuredig, ffugiedig
- FÁCTOR**, (s.) dirprwywr, parwr, marchnatwr dros arall
- FÁCTORY**, (s.) lle y cyfannedda marsiandwyr, gweithfa
- FÁCULTY**, (s.) gallu, grym, dawn
- FÁDE**, (v. n.) diflanu, edwi, methu, gwiwo, difannu, tygio
- FADGE**, (v. n.) cyngweddu, cytuno, cyfladd, cyfatted
- FAG**, (v. n.) blino, dygnflino, bod yn lluddiedg: (act.) curo, baeddu
- FAGEND**, (s.) gobed brethyn, y pen eithaf
- FÁGOT**, (s.) ffagoden, swp o friwydd, ysgubell o fanwydd, cidysen
- FAIL**, (v. n.) diffygio, pallu, ffaclu, llaesu, methu: (s.) pall
- FÁILING**, } (s) pall, aball, difyg,  
**FÁILURE**, } gwall, cisiau, anghael, meth, ffael, ffaeledd, ffaeliad, bai
- FAIN**, (adj.) chwannog, awyddus, llawen, ewyllysgar: (adv.) yn llawen, yn ewyllysgar, yn chwannog
- FAINT**, (v. n.) llewygu, llesgâu, gwanhau, nychu, llesmeirio, llyfrhau, methu: (adj.) gwan, egwan, llesg, methodig, llwfr
- FÁINTING**, (s.) llewyg, llesmair
- FÁINTNESS**, (s.) nych, nychdod, methiant, llesgedd, gwendid, llesmair
- FÁINTY**, (adj.) egwan, llesmeiriol
- FAIR**, (adj.) tég, prydweddol, harddeg, dillyn, prydus, golygus, gosgeddig — eglur, amlwg, gloyw — cymmwys, cyfiawn, union: (adv.) yn deg, yn araf: (s.) ffair
- FÁIRING**, (s.) anrheg, rhodd mewn ffair, rhodd o'r ffair
- FÁIRIES**, (s. pl.) y tylwyth tég
- FÁIRLY**, (adv.) yn deg, yn gyfiawn
- FÁIRNESS**, (s.) tegwch, glendid, pryd, telediwrwydd—onestrwydd, unionder, iawnder
- FÁIRY**, (s.) swynwraig, gwyll, ellyll, un o'r tylwyth tég, neu fendith eu mamau: eu brenin oedd Gwyn ap Nudd
- FÁITH**, (s.) ffydd, cred, coel, hyder
- FÁITHFUL**, (adj.) ffyddlon, ymddiriedus: (s. pl.) ffyddloniaid
- FÁITHFULLY**, (adv.) yn ffyddlon
- FÁITHFULNESS**, (s.) ffyddlondeb, crêd, ymddiried, gwirionedd, onestrwydd, cywirdeb
- FÁITHLESS**, (adj.) anffyddlon, diffydd, digoel, anymddiriedol, bradog, bradwraidd, anghrediniol
- FÁITHLESSNESS**, (s.) anffyddlondeb, bradwriaeth
- FÁLCATED**, (adj.) crymanaid, bachog, fforchog, cyrnaidd
- FÁLCHION**, (s.) cleddyf cam, bidog
- FÁLCON**, (s.) hebog, gwalch.—*Gyr falcon*, hebog chwyldro.—*Perigrine falcon*, hebog tramor, cammin
- FÁLCONER**, (s.) hebogydd
- FÁLDAGE**, (s.) hawl gwarchaead
- FÁLDISTORY**, (s.) gorsedd esgob yn nghor ei eglwys gadeiriol, cailfaingc
- FÁLDSTOOL**, (s.) ystol neu faingc, ar ba un y penlinia brenhinoedd Lloegr pan eu coronir
- FALL**, (v. n.) cwympo, syrthio, cwyddo; dygwyddo, tramgwyddo: (s.) cwymp, codwm, tramgwydd, syrthiad, llithrad—dinystr, dystryw
- FÁLLÁCIOUS**, (adj.) twyllodrus, dichellgar, bradychus, siomgar
- FÁLLÁCIOUSLY**, (adv.) yn dwyllodrus
- FÁLLACY**, (s.) twyll, siomiant, siomedigaeth, dichell, hûd, hoced, cyfrwys-ddadl, anwiredd
- FÁILIBÍLITY**, (s.) posiblrydd o gael ei dwyllo, ffaeledigrwydd
- FÁLLIBLE**, (adj.) hydwyll, darostyngedig i gamsyniad, camsyniadwy
- FÁLLOW**, (adj.) gwyngoch: (s.) brannar, tir âr, tir gwydd, tir adwydd: (v. a.) brannaru.—*Fallow deer*, geifr danas

- FALSE**, (adj.) gau, geuog, ffugiol, celwyddog, twyllodrus, rhagrithiol, ffals, anwireddus
- FALSEHOOD**, } (s.) geudeb, ffalsedd,  
**FALSENESS**, } ffug, celwydd, anwir  
 —twyll, bradwriaeth, anwiredd
- FALSELY**, (adv.) yn dwyllodrus, yn anffyddlon, yn gelwyddog, yn anwir
- FALSIFY**, (v. a.) ffugio, ffuantu
- FALSITY**, (s.) cdr. *Falsehood*: fig. camsyniad
- FALTER**, (v. a.) petruso, baldorrd, dywedyd âg attal, gloesgi
- FAME**, (s.) y gair, y sôn—bri, parch, clôd—chwedl, newydd
- FAMÍLIAR**, (adj.) tenluaidd, arferedig, cynnefin—cyfeillgar, mwyn-aid, ymadroddfwyn—adnabyddus, hypsys: (s.) câr, cydymmaith, cyfaill
- FAMILIÁRITY**, (s.) cynnefindra, carwriaeth, cudeb, cyfeillgarwch
- FAMILIARÍZE**, (v. a.) cynnefino, gwneuthur yn gynnefin
- FAMILY**, (s.) teulu, tylwyth *tŷ*, *tŷ*-aid, teuluaeth, gosgordd—llwyth, tylwyth, cenedl, âch, carennydd
- FÁMINE**, (s.) newyn, priuder, angen, eisiau, diffyg ymborth
- FÁMISH**, (v. a.) newyno
- FÁMOUS**, (adj.) enwog, clodfawr, mawr y sôn am dano, hynod
- FÁMOUSLY**, (adv.) yn glodfawr
- FAN**, (s.) gwyntyll, mantell wynt: (v. a.) gwyntyllio, nithio
- FANÁTIC**, } (adj) gorphwyllog,  
**FANÁTICAL**, } gwallgofus, cynddeiriog, gwyllt-grefyddus, ynfyd
- FANÁTICISM**, (s.) gorphwyll crefyddol, gau-ysbrydoliaeth
- FÁNCFUL**, (adj.) dychymmygol
- FÁNCFY**, (s.) dychymmyg, bwriad meddwl, *tŷ*b meddwl, opiniwn, ffug; serch, hoffedd, tuedd: (v. a.) dychymmygu, tybio, bwriadu yn y meddwl—serchu, hoffi
- FANE**, (s.) teml, llan, eglwys
- FANG**, (s.) ewin, crafangc
- FANNER**, (s.) gwyntylliwr
- FANNING**, (s.) gwyntylliad, gwyntiad, nithiad
- FÁNTASM**, (s.) drychiolaeth, gwag eilun: cdr. *Phantasm* a *Phantom*
- FANTÁSTIC**, } (adj) dychymmyg-  
**FANTÁSTICAL**, } ol, ffugiol
- FANTÁSTICALNESS**, } (s.) ffug, an-  
**FANTÁSTICNESS**, } wastadrwydd, neu anwadalwch meddwl
- FÁNTASY**, cdr. *Fancy*
- FAR**, (adv.) pell, yn mhell: (adj.) pell, pellenig.—*By far*, o lawer.—*As far*, cyn belled
- FARCE**, (s.) diwedd chwedl, cellwair, croesanaeth, esgusbeth
- FÁRCY**, (s.) parsiwn, y clefri mawr
- FÁRDEL**, (s.) sypyn, pwn
- FARDINGALE**, } (s.) ceu-bais, cylch-  
**FARTHINGALE**, } bais
- FARE**, (s.) cynhaliath, ymborth—clud, arian clud: (v. n.) myned, rhodio o le i'w gilydd—byw
- FAREWELL**, (s.) ymadawiad, cyfarchiad wrth ymadael: (adv.) bydd wych, dos yn iach, hawdd ammor i'
- FARINÁCEOUS**, (adj.) blawdog
- FARM**, (s.) fferm, maenor, maenol, syddyn, tyddyn, rhandir
- FARMER**, (s.) ffermwr, amaethon, llafurwr, hwsmon, maerwr, rhentwr
- FÁRNESS**, (s.) pellder, pelledd
- FARRÁGO**, (s.) chwyn, cymmysg
- FÁRRIER**, (s.) meddyg meirch
- FÁRROW**, (v. n.) dyfod â pherchyll: (s.) porchell, porchellyn.—*A sow with Farrow*, hwch dorog.—*A Farrow cow*, myswynog
- FARSING**, (s.) hyd tair milldir
- FART**, (s.) bram, rhech, flair: (v.) bramu, rhechain, fleirio
- FÁRTHER**, (adv.) yn mhellach: (adj.) pellach
- FÁRTHEST**, } (adj.) pellaf, ei-  
**FÁRTHERMOST**, } thaf, olaf
- FÁRTHING**, (s.) ffyrting
- FÁSCES**, (s.) ffagau, yr ysgub wial a ddygid o flaen swyddogion Rhufein
- FÁSCINATE**, (v. a.) swynio, rheibio, llygad-dynu, arganfod
- FASCINÁTION**, (s.) arganfod, llygat-tyn, swyn, rhaib, llithiad
- FASCÍNE**, (s.) ffagoden, cidysen
- FÁSCINOUS**, (adj.) rheibus
- FÁSHION**, (s.) dull, gwedd, agwedd, gosgedd, ffurf, llun, modd, sut—arfer, defawd, cyflwr: (v. a.) ffurfio, ffurfeiddio, llunio, lluniaethu cymmwyso, addasu
- FÁSHIONABLE**, (adj.) ffurfiol, yn ol y ddull, a'r arfer, moes-wych



- FAST**, (v. n.) ymprydio, dirwestu: (s.) ympryd, dirwest, cythlwg, catgor: (adj.) sicr, diogel, diysgog, safadwy, dianwadal — buan, cyflym, heinyf
- FÁSTEN**, (v. a.) sicrhau, cadarnhau, diogelu, cyfrwymo
- FÁSTER**, (s.) ymprydiwr
- FASTÍDIOUS**, (adj.) dirmygus, diystyrllyd, cymmen-falch
- FÁSTNESS**, (s.) sadrwydd, sicrhawch, diysgogrwydd, diogelwch
- FAT**, (s.) brasder, tewder — llestr yn cynnwys wyth ystaca: (adj.) tew, bras, tîrf
- FÁTAL**, (adj.) tynghedfenol, dinystriol, marwol, angheuol
- FÁNTALISM**, (s.) yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, neu o fod holl ddamweiniau bywyd wedi eu harfacthu, trwy anghyfnewidiol angenrheidrwydd, neu dynghedfen
- FÁTALIST**, (s.) yr hwn sydd yn dal fod pob peth yn dygwydd trwy angenrheidrwydd, neu dynghedfen
- FATÁLITY**, (s.) tynghed, tynghedfen, neu wastadol drefn ar bethau a bair iddynt ganlyn yn angenrheidiol ar ol eu gilydd
- FÁTALLY**, (adv.) yn dynghedfenol, yn angenrheidiol — yn farwol
- FATE**, (s.) tynghed, tynghedfen, angenrheidrwydd — dystryw, angau
- FÁTHER**, (s.) tad, tadwys: (v. a.) mabwysiadu. — *Father in law*, chwegrwn, tad yn nghyfraith. — *Step-father*, llysdad. — *Fore-father*, henedad. — *Foster-father*, tadmaeth. — *Grand-father*, taid, tad-cu. — *Great Grand-father*, hen-daid, gorhenedad. — *Great great Grand-Father*, gorhenedaid
- FÁTHERHOOD**, (s.) tadaeth, tadogaeth, tadaeth
- FÁTHERLESS**, (adj.) amddifad
- FÁTHERLY**, (adj.) tadol, tadog, tadaid
- FÁTHOM**, (s.) gwrhyd: (v. a.) gwrhydio — mesuro dyfnder — treiddio i mewn i beth, dirnad, amgyffred
- FÁTHOMLESS**, (adj.) diwaelod, anfesurrol, anoddyfn, annirnadwy
- FATÍDICAL**, (adj.) a ddewinio bethau i ddyfod, tynghed-fynebol
- FATÍGUE**, (sub.) lludded, blinder, blinedd: (v. a.) blino
- FÁTILING**, (s.) llwdwn pasgedig
- FÁTNESE**, (s.) tewder, brasder
- FÁTTEEN**, (v. a.) brasâu, tewychu
- FÁTTY**, (adj.) tew, bras, ireidlyd
- FATÚITY**, (s.) ynfydrwydd, gwallgof, ffoledd, hurtrwydd
- FÁTUOUS**, (adj.) ynfyd, hurt, ffol
- FÁTWITTED**, (adj.) hurt, dwl, syfrdan, delffedd, penbylaidd
- FAÚSET**, (s.) canel, dwsel, yspigod
- FAÚLCON**, (s.) hebog, gwalch
- FAULT**, (s.) bai, cwl, camgwyl, caredd, gwyd, trosedd, amryfusedd
- FAÚLTLESS**, (adj.) difai, digwl, digaredd, diddrwg, dinam
- FÁULTY**, (adj.) beius, cylus, camgylus, ceryddus, ar fai, o le
- FÁVOUR**, (v. a.) ffafrio, annog, nerthu, dwyn yn mlaen — cynnhebygu: (s.) ffafor, hoffedd, cariad, serch
- FÁVOURABLE**, (adj.) ffafrol, hynaws, tirion, trugarog, addas
- FÁVOURABLENESS**, (sub.) tiriondeb, cymmwynasgarwch, rhadlonedd
- FÁVOURITE**, (s.) un mewn ffafri enwedigol, neu fwy o barch nag ercill: (adj.) caredig, parchedig, hoff
- FAUSEN**, (s.) math ar lysowen fawr
- FAWN**, (s.) eilon, elain, rhydain — carw ieuangc: (v. a.) gwenicithio, truthio, ymoleithio
- FAWNS**, (s.) math ar hanner duwiau yn mhlith y paganiaid yn cyfaneddau mewn coedydd
- FEAGUE**, (v. a.) gwialenodio
- FEÁLTY**, (s.) ffyddlondeb, cywirdeb
- FEAR**, (sub.) ofn, arswyd, pryder, dychryn, arynaig, braw, argyswr: (v.) ofni, arswydo, dychrynu, argysyru
- FÉARFUL**, (adj.) ofnus, ofnadwy, ofnog, arswydus, dychrynlyd, gorchwyllus, brawychus
- FÉARFULNESS**, (sub.) ofnogrwydd, gwyllder, arswyd, echryslonrwydd
- FÉARLESS**, (adj.) diofn, eofn
- FEÁSIBILITY**, (s.) peth a ellir ei wneuthur, hywneledd
- FÉASIBLE**, (adj.) gwneuthuradwy, a ellir ei wneuthur
- FEAST**, (s.) gwledd, cyfeddach, mastig, mestig: (v. n.) gwledda, cyf-

- eddach, cyfedd, gwesta.—*Solemn feast*, uchel-wyl, gŵyl arbennig.—*Wedding feast*, priodas wledd
- FEAT**, (s.) gweithred, gwrol-waith
- FÉATHER**, (s.) pluen, pluyn, plusyn: (v. a.) pluo
- FÉATLY**, (adv.) yn dêg, yn hardd, yn gywraint, yn gelfydd
- FÉATURE**, (s.) wynebpryd, pryd, gwêdd, wyneb-ddull, wyneb-drem
- FÉBRIFUGE**, (s.) meddyginiaeth i yru ymaith y crŷd, neu'r ddeirton
- FÉBRUARY**, (s.) chweffror, y mis bach
- FÉCULENCE**, } (s.) gwaddod, gwae-
- FÉCULENCY**, } lodion
- FÉCULENT**, (adj.) gwaddodlyd
- FÉCUNDITY**, (s.) firwythlonder
- FED**, (preter. and part. pass. of feed) pasgedig, porthiannus
- FÉDÉRAL**, (adj.) cyfammodol
- FEE**, (s.) gwobr, tâl, fis: (v. a.) gwobrwyo, talu
- FÉEBLE**, (adj.) gwan, llesg, eiddil, egwan, llerw, llegach
- FÉEBLENESS**, (s.) gwendid, llesgedd, eiddilwch, annerth
- FÉEBLY**, (adv.) yn wan, yn llesg
- FEED**, (v. a.) porthi, pesgi, meithrin, maethu, bwydo, porfau
- FEEL**, (v. n.) teimlo: (s.) teimlad
- FEELING**, (s.) teimlad, teimladrwydd
- FÉET**, (s. pl. of foot) traed
- FEIGN**, (v. a.) dychymmygu, Neh. vi. 8. ffugio, ffuantu, ymrithio
- FÉIGNEDLY**, (adv.) yn ffugiol, yn ffuantu
- FEINT**, (s.) ffûg, ffuant, lledrith
- FEIST**, (s.) ffair: (v.) ffleirio
- FÉLICITATE**, (v. a.) gwneuthur yn ddedwydd, llwyddiannu
- FÉLICITY**, (s.) dedwyddwch, dedwyddydd, gwynfyd, llwyddiant
- FELL**, (adj.) ffyrnig, creulon, taeg: (s.) croen, pân
- FÉLL-MONGER**, (s.) crwynwr, un yn prynu a gwerthu crwyn
- FELLÓE**, **FELLY**, (s.) cylch olwyn
- FÉLLOW**, (s.) cyfaill, cydymmaith, cydwr, cyfranog: (v. a.) cymdeithasu, cyngreiriaw.—*Fellow-creature*, cyd-greadur.—*Fellow-feeling*, cyd-ymdeimlad.—*Fellow-heir*, cydetifedd, Eph.iii.6.—*Fellow-labourer*, cyd-weithiwr.—*Fellow-servant*, cyd-was.—*A wretched fellow*, adyn.—*A wicked fellow*, dyhiryn, dyhirwas.—*A base fellow*, bawddyn, bawai.—*Sorry fellows*, dynionach.—*A pretty fellow*, propryn, siongcyn, pefryn.—*A little fellow*, dynyn.—*A proud fellow*, coegyn, belchyn.—*A surly fellow*, monyn, del-ddyn.—*A wrangling fellow*, cecryn, &c. &c.
- FÉLLOWSHIP**, (s.) cyfeillach, cymdeithas, cyweithas, cydymdeithas
- FÉLLY**, (adv.) yn greulou, yn ddywal, yn ffyrnig
- FÉLO-DE-SE**, (s.) un a laddo ei hunan yn ewyllysgar, neu o'i wir fodd
- FELON**, (s.) lleidr—bystwn
- FELÓNIOUS**, (adj.) drygionus, diriaid, ysgeler, barus
- FÉLONY**, (s.) pob drwg a wnel un yn ddarostyngedig i farwolaeth trwy'r gyfraith, cyflafan
- FELT**, (preter. of feel): (s.) brethyn llawban, brethyn hetiau: (v.) llawbannu.—*Felt-hat*, het frethyn.—*Felt-maker*, gweithiwr hetiau brethyn
- FELÚCCA**, (s.) math ar long fechan
- FÉMALE**, (s.) benyw, bun.—*Femecouvert*, benyw briod.—*Feme-sole*, benyw weddw
- FÉMININE**, (adj.) o ryw benyw, benywaidd—tyner, mwythus
- FÉMORAL**, (adj.) yn perthyn i'r morddwyd, morddwydawl
- FEN**, (s.) cors, gwaun wlyb
- FENCE**, (s.) amddiffynfa, achles—argae, clawdd: (v. a.) amgaeru, cau oddiamgych—diffyn, amddiffyn
- FÉNCIBLE**, (adj.) amddiffynadwy
- FEND**, (v. a.) cadw ymaith, dadleu
- FENDER**, (s.) diffynwr, neu haiarn i osod o flaen y tân, i gadw marwor, &c. rhag dyfod ar hŷd yr aelwyd
- FÉNNY**, (adj.) corsog, morfaol
- FÉOFF**, (v.) gosod mewn meddant
- FEOFFEE**, (s.) un mewn meddiant
- FÉOFFMENT**, (s.) rhoddiad meddiant
- FÉRIATION**, (s.) cadwad gwyl, gorphwysiad oddiwrth waith
- FÉRINE**, (adj.) gwylt, anwar
- FÉRINFNESS**, } (s.) gwylltineb, dyw-
- FÉRITY**, } alrwydd, creulondeb, gwylltfileiddrwydd
- FÉRMENT**, (v. a.) lefeinio, chwyddo gan surdoes: (s.) cynnwrf, cyffro

- FERN**, (s.) rhedynen: *pl.* rhedyn  
**FERNY**, (adj.) rhedynog  
**FERÓCIUS**, (adj.) creulon, gwyllt, gorwyllt, dywal, ffyrnigaidd  
**FERÓCITY**, (s.) creulonedd, gwyllt-ineb, ffyrnigrwydd, broch  
**FERREL**, (s.) amdorch, amgarn  
**FÉRREOUS**, (adj.) haiarnaidd, o haiarn  
**FÉRRET**, (s.) ffured: (v. a.) gyru allan  
**FÉRRAGE**, (s.) hur, neu dâl am ysgraff, porth lôg  
**FERRUGINOUS**, (adj.) haiarnaidd  
**FÉRRULE**, (s.) amgarn, neu dorch i roddi am ben pren i'w gadw rhag holli  
**FÉRRY**, (s.) ysgraff, trosglwyddfa.—  
*Ferry boat*, trosglwydd-fâd, ysgraff  
—*Ferry-man*, porthwys, porth-was.  
—*To ferry over*, trosglwyddo  
**FÉRTILE**, (adj.) ffrwythlawn, cyn-dfawr, toraethus, toreithiawg  
**FERTÍLENESS**, } (s.) ffrwythlonder,  
**FERTÍLITY**, } amledd, toraeth  
**FÉRTILLY**, (adv.) yn ffrwythlon  
**FERTILÍZE**, (v. a.) ffrwythloni, gwneuthur yn ffrwythlon  
**FÉRVENCY**, (s.) gwrês, gwresog-rwydd, awyddfryd, awydd, aingc  
**FÉRVENT**, (adj.) gwresog, poeth, brŵd, awyddus  
**FÉRVENTLY**, (adv.) yn wresog, yn frŵd, yn awyddus  
**FÉRVID**, (adj.) gwresog, awyddus, poeth, brŵd  
**FÉRULA**, (s.) crafell i guro dwylaw plant  
**FÉRVOUR**, (s.) gwrês, poethder, bryd-aniaeth, angerdd, taerni  
**FÉSTER**, (v. a.) crawni, gori, pydru, llygru, braenu, madru  
**FÉSTINATE**, (adj.) cyflym, bywiog, rhull, buan  
**FESTINÁTION**, (s.) brŷs, ffrwst  
**FÉSTIVAL**, (adj.) llawen, gorawenus, digrif, difyr: (s.) gŵyl, gwledd  
**FÉSTIVE**, (adj.) odr. *Festival*  
**FÉSTÍVITY**, (s.) llawenydd, digrif-wch, gorawen arabedd  
**FESTÓON**, (s.) corombleth o lysiau  
**FECH**, (v. a.) hercyd, cyrhaeddyd: (s.) cyfrwysder, dichell, hocced, twyll, ystrange  
**FÉTID**, (adj.) drewedig, drygsawrus  
**FÉTIDNESS**, (s.) drewiant, drewi
- FÉTTER**, (s.) llyffethair, hual, troed-og, cloffrwm, gefyn: (v. a.) llyff-etheirio, gefynu, hualu, troedogi, cloffrwynio  
**FÉTTLE**, (v. a.) simera, ffwdanu  
**FEUD**, (s.) ymgiprys, anghydfod, an-nysgymmod, ymryson, digasedd  
**FÉVER**, (s.) acses, clefydcryd, cryd, twymŷn, poeth-gryd  
**FEVERFEW**, (s.) amranwen, wermod wen, tarfgryd  
**FÉVILEMORT**, (s.) lliw deilen wywedig  
**FEW**, (adj.) ychydig, anaml  
**FEWÉL**, (s.) tanwydd, tanborth, mag-dan, gosgymmon, ysgrwth  
**FÉWNESS**, (s.) anamllder, bychan-rwydd, bychoddedd, ychydig  
**FIB**, (s.) celwydd, anwiredd: (v. n.) dywedyd celwydd  
**FÍBBER**, (s.) celwyddwr  
**FÍBRE**, (s.) manŵythi  
**FÍCKLE**, (adj.) anwadal, anwastad, ansafadwy, ansefydlog, orio, ys-goewan  
**FÍCKLENESS**, (s.) anwadalwch, an-wastadrwydd  
**FÍCTION**, (s.) ffûg, ffugiad, ffuant, celwydd, dychymmyg, twyllodrus  
**FÍCTIOUS**, } (adj.) ffugiol, ffuant-  
**FÍCTÍTIUS**, } us, dychymmygol  
**FÍDDLE**, (s.) crŵth, feiol  
**FÍDDLEFFÁDDLE**, (s.) arabedd, coeg simera, gwagbeth, oferbeth  
**FIDDLER**, (s.) crythor, ffilor  
**FIDDLESTICK**, (s.) bwa crwth, ffiloryn  
**FIDÉLITY**, (s.) ffyddlondeb, cred, gwirionedd, cywirdeb  
**FIDÚCIAL**, (adj.) ffyddlon, hyderus  
**FIDÚCIARY**, (s.) un a ymddiriedwyd iddo am beth—un yn ymorphwys-ar ffydd yn unig  
**FIEF**, (s.) gwobr, ffis, maenol  
**FIELD**, (s.) maes, coctgae, cae.—  
*Field mouse*, maes lygoden, twrlla, llyg.—*Field-sow*, twrch y coed, gwrach y lludw  
**FÍELDFARE**, (s.) math ar aderyn—y soccas lwyd, caseg y ddrycciu  
**FÍELD-MARSHAL**, (s.) rheolwr, neu flaenor byddin yn y maes  
**FIEND**, (s.) diafol, gelyn, ellyll  
**FIERCE**, (adj.) creulon, dywal, gor-wyllt, anystywallt, ffyrnig, gerwin  
**FIERCELY**, (adv.) yn ffyrnig, yn arw

- FÍERCENESS**, (s.) ffyrnigrwydd, creu-  
londeb, dywalrwydd
- FÍERY**, (adj.) tanlyd, poeth, tanbaid
- FÍFE**, (s.) math ar bib, neu gorsen
- FÍFTÉEN**, (adj.) pymtheg
- FÍFTH**, (adj.) pummed
- FÍFTY**, (adj.) deg a deugain
- FÍG**, (s.) ffigysen: *pl* ffigys
- FÍGTREE**, (s.) ffigysbren, ffigyswydden
- FÍGHT**, (s.) ymladd, ymwan, ym-  
drech, cãd, brwydr, catorfod, ystrin:  
(v. a.) ymladd, ymdrech, ymryson,  
ymwan
- FÍGHTER**, (s.) ymladdwr, rhyfelwr
- FÍGMENT**, (s.) ffug, dychymmyg
- FÍGURÁTION**, (s.) ffurfiad, lluniad
- FÍGURATIVE**, (adj.) cysgodol
- FÍGURE**, (s.) dull, gosgedd, llun, ei-  
lun, delw, gwedd, ffurf: (v. a.)  
ffurfio, llunio
- FÍLAMENT**, (s.) edefyn main
- FÍLBERT**, (s.) cneuen farfog, cneuen  
y garddau, barf gneuen
- FÍLCH**, (v. a.) lladrata, chwiwio
- FÍLE**, (s.) llifddur, rhyguen law, dur-  
lif—rhes, rhestr: (v. a.) durlif
- FÍLEMOT**, (s.) lliw tywyll, gwineu
- FÍLIAL**, (adj.) mabol, mabolaid
- FÍLINGS**, (s.) llifion y ddurlif
- FÍLL**, (v. a.) llenwi, cyflenwi, cyf-  
lawni, diwallu, digoni
- FÍLLET**, (s.) ysnoden—morddwyd  
llo, rhwymyn, ffunen: (v. a.) cyl-  
chynu, cylchu, Ecs. xxxviii. 28
- FÍLLIP**, (s.) cnipws. cnocell
- FÍLLY**, (s.) eboles, ffilog
- FÍLM**, (s.) pilionen, glos-groen, croen  
teneu, memrwn, pilen
- FÍLTER**, (v. a.) glanhidlo, hidlo  
trwy frethyn, &c.
- FÍLTH**, (s.) budreddi, brynti, aflen-  
did, abar, llysnafedd
- FÍLTHINESS**, (s.) brynti, aflen did
- FÍLTHY**, (adj.) brwnt, budr, aflen,  
halog, ffaidd, drewllyd
- FÍLTRÁTION**, (s.) purad trwy hidlo
- FÍN**, (s.) aden, neu asgell pysgodyn
- FÍNABLE**, (adj.) dirwyadwy
- FÍNAL**, (adj.) diweddaf, eithafig
- FÍNALLY**, (adv.) yn ddiweddaf
- FÍNANCE**, (s.) *seldom used in the sin-  
gular*; trysor y deyrnas, cyllid, ced
- FÍNCH**, (s.) llymysten.—*Bull-finch*,  
aderyn rhowngoch, peneuryn, gwas  
y sieiri
- FÍND**, (v. a.) cael, caffael
- FÍNE**, (adj.) tég, glân, tlws, dillyn,  
pingc, pefr, pert: (s.) ffîn, dirwy,  
camlwrw, fforifed: (v. a.) pincio,  
puro, glanhau—ffinio, dirwyo
- FÍNENESS**, (s.) dillynder, tegwch,  
meindra, pefredd, pertedd—*purdeb*
- FÍNERY**, (s.) harddwch, trwsiad
- FÍNÉSSE**, (s.) ystrangc, dichell
- FÍNGER**, (s.) bys: (v. a.) cyffwrdd.  
—*The fore finger*, y mynagfys, bys  
yr uwdd, y bys blaen.—*The middle  
finger*, y canolfys, yr hirfys, bys y  
diu.—*The ring finger*, bys y fod-  
rwy, y meddygfys, bys y gyfaredd.  
—*The little finger*, y bys bach, y  
byrfys: Cyf. H. Dda.
- FÍNICAL**, (adj.) pingc, destlus
- FÍNISH**, (v. a.) gorphen, diweddu,  
dybennu, terfynu
- FÍNISHER**, (s.) dybenwr, gorphen-  
wr, cwblhawr, perffeithydd, Heb.  
xii. 2.
- FÍNITE**, (adj.) terfynol, meidrol
- FÍNITENESS**, (s.) meidrolrwydd
- FÍR**, (s.) ffynidwydd, ffawydd
- FÍRE**, (s.) tân, ufel: (v. a.) tano
- FÍREBRAND**, (s.) pentewyn, etewyn
- FÍREMAN**, (s.) diffodydd tân
- FÍRENEW**, (adj.) newydd, newydd  
wneuthur, newydd tailliw
- FÍREING**, (s.) tanwydd, cynnud
- FÍRK**, (v. a.) ffangellu, ffrewyllio,  
gwialenodio, gwialenodi
- FÍRKIN**, (s.) pedwaredd ran baril
- FÍRM**, (adj.) cadarn, cryf, sicr, diog-  
el, diysgog, safadwy, dianwadal,  
nerthol, grymus, sad
- FÍRMAMENT**, (s.) ffurfafen, wybren
- FÍRMAMENTAL**, (adj.) wybrol, nefol
- FÍRMLY**, (adv.) yn gadarn
- FÍRMNESS**, (s.) sadrwydd, cryfder,  
cadernid, diysgogrwydd
- FÍRST**, (adj.) cyntaf, blaenaf, penaf,  
prif, goreu, rhagoraf: (adv.) yn  
gyntaf.—*First-born*, cyn blentyn,  
cyntafanedig, cynfab, cynferch.—  
*First fruit*, blaenffrwyth, cynwyn,  
cynffrwyth
- FÍSCAL**, (s.) trysor, cyllid
- FÍSH**, (s.) pysgodyn: *pl.* pysg: (v.  
a.) pysgota: *Dog-fish*, penci
- FÍSHER**, (s.) pysgodwr
- FÍSHERY**, (s.) pysgodfa
- FÍSHGUARD**, (s.) Abergwaun

- FÍSHING**, (s.) pysgota, edr. *Piscatio*, and *Piscatus*, Dr. Davies
- FÍSHMONGER**, (s.) gwerthwr pysgod
- FÍSSURE**, (s.) agen, hollt, rhwyg: (v. a.) agenu, holtti
- FIST**, (s.) dwrn
- FÍSTULA**, (s.) pibell—anafod ar gnawd a redo'n bibell, clefyd y fwng
- FIT**, (adj.) addas, cyfaddas, cyfwlch, cymmwys, cymhesur, union: (s.) cyrch y cryd—lewyg—cyffro cynnwrf: (v. a.) addasu, cyfaddasu, cymhwyso, cymhesuro
- FITCH**, (s.) gwýg, pŷs y llygod
- FÍTNESS**, (s.) addasrwydd, cyfaddasrwydd, cymhwysder
- FÍTCHET**, **FÍTCHEW**, (s.) ffwlbart
- FITZ**, (s.) mab, ab, ap
- FIVE**, (adj.) pump, pum
- FIX**, (v. a.) sicrhau, cadarnhau, sefydlu
- FÍXEDLY**, (adv.) yn ddiysgog, yn ddianwadal, yn sefydledig
- FÍXEDNESS**, (s.) dianwadalwch, diysgogrwydd, diogelwch
- FÍXTURES**, (s.) dodrefn arosol
- FÍZGIG**, (s.) tryfer morwyr
- FLÁBBY**, (adj.) llipa, meddal, masw, llibyn, llac, lliprynaidd
- FLÁCCID**, (adj.) ystwyth, llipa, gwyw, egwan, gwywlyd, nychlyd
- FLAG**, (v. n.) fflagio, gwywo, llipâu, edwi, methu, llech-lorio: (s.) lluman, baner, arwydd, penwn; llêch. —*Flag flower*, dail y gloria gellhesg
- FLÁGELET**, (s.) pibell, chwibanogl
- FLÁGGINESS**, (s.) ystwythder
- FLÁGÍTIUS**, (adj.) dyras, anfad, ysgeler, drygionus
- FLÁGÍTIUSNESS**, (s.) ysgelerder, drygioni, anrasedd, anfadrwydd
- FLÁGON**, (s.) cunach, costrel
- FLÁGRANCY**, (s.) fflamiad, fflamychiad, dysgleirdeb, dirchwant
- FLÁGRANT**, (adj.) gwresog, brŵd, poeth, angerddol, fflamawl
- FLAIL**, (s.) ffust, ffustfel.—*Flail handle*, *Helve*, or *Handstaff*, troed ffust.—*Flail yard*, or *Swipple*, gwial ffust
- FLAKE**, (s.) darn, drull; clwyd o eira, tafell, fflochen, gwanaf
- FLAM**, (s.) ffug, ffuant, celwydd, chwedl: (v. a.) twyllo, seithugio, twyll trwy gelwydd
- FLAME**, (s.) fflam, ffagl, eirias: (v. n.) fflamio, fflamychu, ffaglu
- FLÁMMEOUS**, (adj.) fflamllyd, llosgedig, fflamaidd, fflamliw
- FLÁMY**, (adj.) fflamllyd, fflamiog
- FLANK**, (s.) ystlys, ochr, tenewyn: (v. a.) gosod ar ochr byddin
- FLÁNNEL**, (s.) gwlanen
- FLAP**, (s.) llipryn, un peth a fo'n crogi, neu'n dbynn i lawr yn llipa.—ergyd â chledr llaw: (v. a.) taro â chledr llaw—lliphâu, ymddibynu, ymollwng
- FLARE**, (v. n.) llewychu, dysgleirio, lluchedenu, tywynu
- FLASH**, (s.) llewych, mellteniad, ffagl: (v. n.) melldenu, llewychu
- FLÁSHY**, (adj.) gwág, ynfyd, diflanedig, disylwedd, bostgar
- FLASK**, (s.) cunach, costrel—corn powdr gwn, corn fflwch
- FLÁSKET**, (s.) basged, cawell
- FLAT**, (adj.) llyfn, gwastad, cyfartal—ffadr, merf, diflas, anghrwm
- FLÁTNESS**, (s.) gwastadrwydd, cyfartalwch—ffadrwydd, diflasrwydd
- FLÁTTE**, (v. a.) gwastatâu, gwneuthur yn ffadr, neu yn ferf
- FLÁTTER**, (v. a.) ymoleithio, gwenieithio, truthio, ymlochlach
- FLÁTTERY**, (s.) gweniaith, truth, ymolaith, truthiaith
- FLÁTULENCE**, } (s.) gwyntchwydd
- FLÁTULENCY**, } —gwagedd
- FLÁTULENT**, (adj.) gwyntog, awellog, chwythlyd, gwyntchwyddedig—gwág, ofer
- FLÁTUOUS**, (adj.) gwyntog
- FLAUNT**, (v. a.) gwneuthur gwag ymddangosiad mewn gwisgoedd—ymddwyn yn falch
- FLÁVOUR**, (s.) archwaith, blas—arogl, arogledd, sawr, safr
- FLÁVOUROUS**, (adj.) blasus, sawrus, aroglber
- FLAW**, (sub.) agen, gagen, hollt, rhwyg—diffyg, bai, meth: (v. a.) holtti, agenu: *fig.* tori, troseddu
- FLÁWY**, (adj.) agenog, holltrog
- FLAX**, (s.) llin
- FLÁXEN**, (adj.) llinog, o lin, neu tebyg i lin, neu o liw'r llin
- FLAY**, (v. a.) blingo, digroeni
- FLEA**, (s.) chwanen: *pl.* chwain
- FLEAM**, (s.) fflaim, fflam: edr. *Phlegm*

- FLECK**, (v. a.) mannu, britho  
**FLEDGE**, (v.) plüenu, esgyllu  
**FLÉDGED**, (adj.) adenog, plüog, as-gellog  
**FLEE**, (v. n.) ffoi, cilio, diange  
**FLEECE**, (s.) cnu, cnuf, cnaif: (v. a.) cneifio, gwelleifio: *fig.* anrheithio, yspeilio  
**FLEER**, (v. n.) dyfalu, gwatwor, ymgellwair, gwawdio: (s.) cellwair, gwatwor  
**FLEET**, (s.) llynges, llu, mintai: (adj.) buan, cyflym: (v. n.) llithro ymaith, diange ymaith, diflanu  
**FLÉETING**, (adj.) trangcedig, breuol, diflanedig, rhedadwy  
**FLÉETNESS**, (s.) buanrwydd  
**FLESH**, (s.) cig, cnawd, cigfwyd  
**FLÉSHLY**, (adj.) cnawdol, anllad  
**FLÉSHY**, (adj.) cigog, cnawdog  
**FLÉTCHER**, (s.) gwnenthurwr saethau, saersaethau, paledrydd  
**FLEW**, (s.) gweflau bytheiad  
**FLÉXIBILITY**, (s.) hyblygrwydd, ystythder, hynawsedd  
**FLÉXIBLE**, (adj.) hyblyg, ystwyth, hydro, plygadwy, anwadal  
**FLÉXIBLENESS**, (sub.) hynawsedd, rhywiogrwydd, hyblygrwydd  
**FLÉXION**, } (s.) ystumiad, plygiad,  
**FLÉXURE**, } ystum, trôad  
**FLÍCKER**, (v. n.) ysgwyd adenydd  
**FLIGHT**, (s.) ffo, cil, encil, ffôadwriaeth, helfa, ehediad  
**FLÍGHTY**, (adj.) ansefydlog, gwyllt, trangcedig, anwadal, anwastad  
**FLÍMSY**, (adj.) gwan, egwan, llesg, dincerth, llipa—gwael, masw  
**FLINCH**, (v. n.) cilio yn ol, cilio oddiwrth boen, neu niweid, pallu  
**FLING**, (v. a.) tafnu, ergydio, lluchio, saethu: (s.) taffiad, ergyd  
**FLINT**, (s.) callestr, cyllestr, callestrfaen, carreg dân, cellt  
**FLÍNTSHIRE**, (sub.) bro teg-eingl, swydd cellt, sir y Fflint  
**FLÍNTY**, (adj.) callestrawl, callestrig  
**FLIP**, (s.) math ar ddiod  
**FLÍPPANT**, (adj.) cyflym, clau, buan, gwisgi—siaradus, dywetgar  
**FLIRT**, (v. a.) gwatwor, gwawdio, goganu—rhedeg o fan i fan, cyhwfan: (s.) cellwair, cytgam—gwib, chwýf—côegen, dihiren  
**FLIT**, (v. n.) mudo, symudo, treiglo, gwibio, cyhwfan, chwyfio—ffoi, ehedeg ymaith, diflanu  
**FLITCH**, (s.) ystlys o facwn, hanner-eg mochyn, hannerob  
**FLOAT**, (s.) nawf, un peth a fyddo yn nofio, cludair: (v. n.) nofio, bod ar wyneb y dwfr  
**FLÓATING**, (s.) nawf, bwhwman  
**FLOCK**, (s.) diadell, gre, cadw, gyr, pari, mintai, praid, torf: (v. n.) dyfod yn nghyd, cynniweir i le, cyd-dyru  
**FLOG**, (v. a.) fflangellu, ffrewyllio  
**FLOOD**, (s.) diluw, llif, llifeiriant, rhyferthwy, llifddwfr: (v. a.) llifeirio  
**FLÓODGATE**, (s.) gollyngfa dwfr, bala llyn, dyfrddor  
**FLOOR**, (s.) parth, llawr tŷ: (v.) llorio  
**FLÓRID**, (adj.) blodeuog, gwridgoch  
**FLORÍFEROUS**, (adj.) blodeufag, a ddwg flodau, blodeu-fagol  
**FLOUNCE**, (v. n.) trochi, treiglo yn y dwfr—cynhyrfu, neu gyffroi gan ddigofaint: (s.) pob addurn a wneir wrth wisgoedd, ysnoden, sider  
**FLÓUNDER**, (s.) lleden ddu, llythien  
**FLOUR**, (s.) can, blawd pail  
**FLÓURISH**, (v. n.) blodeno, bod yn ei flodau, llwyddaw—ffrostio, ymffrostio: (v. a.) addurno, harddu, trwsio: (s.) harddwch, addurn—ffrost, ymffrost—addurn mewn ysgrifeniad  
**FLOUT**, (v. a.) gwatwor, gwawdio, ymgellwair: (s.) gwatwor, gwatworiad, gwatworgerdd, cellwair, gwawd  
**FLOW**, (v. n.) llifo, dylifo, ffrydio, llifeirio, goferu, rhedeg, deillio: (s.) dylifiad, llifeiriant, llif  
**FLÓWER**, (s.) blodeuyn, blaendardd: (v. n.) blodeuo, bod yn ei flodau, blaendarddu—bod yn llwyddiannus  
**FLÓWERY**, (adj.) blodeuog  
**FLÚCTUANT**, (part.) anwastad, anwadal, ansicr, ansafadwy  
**FLÚCTUATE**, (v. n.) bwhwman, bod yn anwastad, anwadalu, petruso  
**FLUCTUÁTION**, (s.) bwhwman, anwastadrwydd, anwadalwch, petrusder, ymdoniad, ddygyfor  
**FLUE**, (s.) simnai, neu bib i ddwyn mwg neu wres—mân blu, neu pân  
**FLUÉNCY**, (s.) rhugledd, a thrybel-

- ydrwydd ymadrodd, parodrwydd, a chyflymder ymadrodd, hyawdledd  
**FLUENT**, (adj.) ffrydiol, rhedegog—cyflym, trybelydr, fraeth, ymadroddus, cymmen, rhugl, hyawdl  
**FLUID**, (adj.) gwlyb, ffrydiol, rhedegog, hylif, teneu-wlyb  
**FLUMMERY**, (s.) llymru, llymruwd, mwdran, brwchan, sucen  
**FLURRY**, (s.) brys, firwst, ffwdan, ymfirwst, terfysg, trafferth, trabludd  
**FLUSH**, (v. a.) brysio, firwstio—gwrldio: (s.) amledd, haffog, helaethrwydd (adj.) gwryf, ir—llawn, helaethlawn, aml  
**FLUSTER**, (v. n.) gwneuthur yn haner meddw, annhrefnu'r meddwl  
**FLUTE**, (s.) chwibanogl, pibell: (v. a.) tori ceudod mewn colofnau  
**FLUTED**, (adj.) rhychawg  
**FLUTTER**, (v. n.) ysgwyd adenydd, bwhwman, anwadal, petruso—baldordd: (s.) bwhwman, ysgydwad, anwadalwch. petrusder—annhrefn  
**FLUX**, (s.) rhediad, darymred: (adj.) rhedegog, anwadal, ansafadwy, trangcedig: (v. a.) toddi—glofoerio  
**FLUXION**, (s.) rhediad, darymrediad, toddiad, dylifiad, ffrydiad  
**FLY**, (v. n.) hedeg, ehedeg — ffoi, cilio, encilio, rhedeg, diangc: (s.) cleren, clyryn, ednogyn, cylionyn  
**FOAL**, (s.) ebol, eboles, llwdu: (v.) llydnu, ymoci, bwrw ebol  
**FOAM**, (v. n.) ewynu, malu ewyn—ymgynddeiriogi: (s.) ewyn, ewyn-gant, gorferw, burman, swyf, ysgai  
**FOAMY**, (adj.) ewynog  
**FOB**, (s.) coden fechan mewn clos, neu llawdr: (v. a.) twyllo, hudo, siomi, seithugio  
**FOCUS**, (s.) lle y mae pelydr goleu yn cydgyfarfod, ffoc, ffwrn, aelwyd fan  
**FODDER**, (s.) gogawr, ogawr, ebran, porthiant, bwyd anifeiliaid: (v. a.) porfau, ymbawr, porthi anifeiliaid  
**FOE**, (s.) gelyn, casddyn  
**FŌETUS**, (s.) milrhith  
**FOG**, (s.) niwl, ysmwcan, nifwl, caddug—sych-borfa, myngwellt  
**FŌGGY**, (adj.) niwlog, cymylog, tywyll—potenog, swrth-dew  
**FŌIBLE**, (s.) ochr gwan, gwendid  
**FOIL**, (v. a.) gyru ar ffo, cael yr oruchafiaeth, ynnill y dydd: (s.) goruchafiaeth, caffaeliad, y fantais ar y gelynyon, ond nid cwbl fuddugoliaeth—gwrthlen  
**FOIN**, (v. a.) gwanu, brathu: (s.) brath, brathiad, gwân  
**FOIST**, (v. a.) ffugio, gosod peth ffugiol yn lle yr iawn beth  
**FOISTY**, (adj.) ffleiriawg, drewllyd  
**FOLD**, (s.) corlan, buarth, defeidle—plyg, plygiad, dull: (v. a.) plygu, dullio—buarthu  
**FŌLIAGE**, (s.) casgl o flodau, dail, &c.  
**FŌLIO**, (s.) dalen lawn: (adj.) unplyg, llawn-ddalen, dalen-lawn  
**FOLK**, (s.) pobl, dynion  
**FŌLKMOTE**, (s.) cymmanfa o bobl  
**FŌLLICLE**, (s.) côd, coden, cibyn, masgl, hâd goden  
**FŌLLOW**, (v. a.) canlyn, dilyn, erlyn, myned ar ol  
**FŌLLY**, (s.) ynfydrwydd, ffolineb, gwallsynwyr, ffledd  
**FOMÉT**, (v. a.) achlesu, ymgeleddu, meithrin, magwriaethu — cysuro, cefnogi, cynnal—cynhesu  
**FOMENTATION**, (sub.) mwydiad a gwlybwr gwresog, brwd-olchiad  
**FOND**, (adj.) ynfyd, ffol, maldodus, tyner, ysmala, mal, hoff.—*To be fond of*, hoffi, maldodi, serchu  
**FŌNDLE**, (v. a.) maldodi, ymgeleddu, cofcidio, hoff-lochi, mawrhau  
**FŌNDLING**, (s.) anwylyd, hoffddyn  
**FŌNDNESS**, (s.) maldod, maledd, hoffder, anwes, cudeb, cuedd  
**FONT**, (s.) bedyddfaen, bedyddlestr, bedyddfan, troch-lestr  
**FOOD**, (s.) bwyd, ymborth, porthiant, lluniaeth, maeth  
**FOOL**, (adj.) ffôl, ynfyd, dw!, disynwyr, hurt, ffadr—ffol-was, ffwl.—*Fool-born*, ffol geni  
**FOOLHÁRDINESS**, (s.) cofnder ynfyd, antur byrbwyll, rhyfyg  
**FOOLHÁRDY**, (adj.) hy, hyderus, cofn, anturiol mewn modd ynfyd  
**FŌOLISH**, (adj.) ynfyd, ffol, annoeth  
**FŌOLISHNESS**, (s.) ynfydrwydd, ffolineb, gwallsynwyr, annoethineb  
**FOOT**, (s.) troed, troedfedd.—*Football*, pêl droed.—*Foot-bridge*, pont-bren  
**FŌOTING**, (s.) cerddediad, pedestrig,

- cam, arllwybr—sail, sylfaen: *fig.*  
dechreuad, sefydliad
- FÓOTMAN, (s.) pedestr, peddestr, gwr traed, pedestrig, rhedegwr
- FÓOTPAD, (s.) yspeiliwr traed
- FÓOTPATH, (s.) llwybr troed, troedffordd, arllwybr
- FÓOTSTEP, (s.) ol troed, ol, arwydd, nód, marc, arlwybr
- FÓOTSTOOL, (s.) troedfaingc, lleithig
- FOP, (s.) dyn cymmyreddus, cymmyreddwr, mursenwr, coegyn
- FÓPPER-Y, (s.) ofregedd, ynfydrwydd, ffloneb, arabedd, ffloreg—cymmyredd, cymmyraeth, rhodres
- FÓPPISH, (adj.) ynfyd, ofer, rhodresus, cymmyreddus, balch
- FÓPPISHNESS, (s.) oferedd cymmyreddus, coegyndod
- FOR, (pre. & conj.) can, gan, canys, am, o herwydd, o blegyd, o achos, dros, tros, o ethryb, yn lle, er, rhag
- FÓRAGE, (s.) gogawr, cōran, porthiant, ysborthion: (v.) myned i geisio ymborth anifeiliaid, yspailio
- FÓRBEAR, (v. a.) peidio, gadael heibio, gadael, oedi, ymattal, goddef, dyoddef
- FÓRBEARANCE, (s.) dyoddefgarwch, ymaros, goddefedd, hir-ymaros
- FÓRBI'D, (v. a.) gwahardd, gwarafun, rhwystro, lluddias.—*God forbid*, na atto Duw, Duw yn y blaen
- FÓRCE, (s.) trais, nerth, grym, dir, egni, dirni, gallu, rhygyr: (v. a.) cymmell, dirio, gwthio, goresgyn
- FÓRCES, (s.) llu o wyr, gallu, byddin, lluoedd, galluoedd
- FÓRCIBLE, (adj.) nerthol, grymus, galluog, cryf, cadarn
- FÓRD, (s.) rhyd, bais, rhydle: (v. a.) rhydio, heisio
- FÓRDABLE (adj.) a ellir ei rydio
- FÓRE, (adj.) blaenaf, blaen: (adv.) cyn, o flaen, yn mlaen
- FÓREBODE, (v. a.) rhagddywedyd, rhagddewinio, darogan, darmain
- FÓRECAST, (v. n.) rhagweled, rhag-ganfod — dychymmygu, dyfaisio: (s.) dychymmyg, dyfais—rhagwellediad, rhagddarbodaeth
- FÓRECASTLE, (s.) ffureg, pen blaen llong
- FÓRECLÓSE, (v. a.) cau, gwarchau, rhwystro, rhagflaenu, argau
- FÓREFÁTHER, (s.) hendaidd, gorhendaidd, hynafiad
- FÓREGÓ, (v. a.) gwrthod, llysu, gadaw, gadael heibio, rhoddi fynu, rhagfyned, gollwng gafael
- FÓREHEAD, (s.) talcen, tál
- FÓREIGN, (adj.) dyeithr, dyeithrol, estronol, amherthynasol, annhebyg
- FÓREIGNER, (s.) alltud, estron, dyeithr, adfan
- FÓREKNÓW, (v. a.) rhagwybod, rhagddarbod, rhagweled
- FÓREKNÓWLEDGE, (s.) rhagwybodaeth, rhagddeall
- FÓRELAY, (v. a.) cynllwyn: *An ambush'd thief forelays a traveller. Dry.*
- FÓRELOCK, (s.) blaen gydyn
- FÓREMAN, (s.) blaenor, byfforddwr
- FÓREMOST, (adj.) blaenaf, penaf
- FÓRERÚN, (v. a.) rhagredeg, rhedeg o'r blaen, blaenori, rhagflaenu
- FÓRERÚNNER, (s.) rhagiedwr, blaenred, cōnad a êl o'r blaen—rhamant, rhagflaenydd
- FÓRESÁY, (v. a.) rhagddywedyd
- FÓRESÉE, (v. a.) rhagweled, rhag-ganfod
- FÓRESHÉW, (v. a.) rhagddangos
- FÓRESIGHT, (s.) rhagwelediad, rhagddarbod, rhagolwg
- FÓRESKIN, (s.) blaen groen
- FÓREST, (s.) fforest, coedwig
- FÓRESTÁLL, (v. a.) rhagachub, rhagflaenu, rhagbrynu, edwica
- FÓRETÉL, (v. a.) rhagddywedyd, rhagddewinio, darogan, daroganu
- FÓRETHÓUGHT, (s.) rhagfysyr, rhagfeddwl, rhagfwriad
- FÓREWÁRN, (v. a.) rhagrybuddio, rhybuddio yn mlaenllaw
- FÓRFEIT, (s.) fforffed, camgwl, dirwy, camlwrw, colled: (v. a.) fforffetio, dirwyo, ffinio, fforffedu
- FÓRFEITURE, (s.) fforffed, dirwy
- FÓRGE, (s.) gefail gof, morthwyldý haiarn, ffwrn-weithdý: (v. a.) morthwylio, gwneuthur a morthwyl—ffugio, ffug-fathu, ffug-lunio, twyllunio
- FÓRGERY, (s.) ffug, twyll, ffugiad
- FÓRGÉT, (v. a.) anghofio, ebargofio, gollwng yn anghof
- FÓRGETFUL, (adj.) anghofus, ebargofus, drwg ei gof



- FORGÉTFULNESS**, (s.) anghof, ebar-gofiad, gwallgof, ebar-gof  
**FORGÍVE**, (v. a.) maddeu, rhyddhau, pardynu, cyreifio  
**FORGÍVENESS**, (sub.) maddeuant, rhyddhad, gollyngdod  
**FORK**, (s.) fforch, ffwrch  
**FÓRKED**, (adj.) fforchog  
**FORLÓRN**, (adj.) gwrthodedig, gwedi ei adael, amddifad, colledig, truenus, anobeithiol, diymgeledd  
**FORM**, (s.) dull, gwedd, agwedd, gos-gedd, sud, sut, llun, math, modd, ffurf, ffurud, trefn—llen-ddull ar-graffydd: (v. a.) ffurfio, ffurfeiddio, llunio, lluniaethu  
**FÓRMAL**, (adj.) ffurfiol, rheolaidd, trefnus. cywraint, allanol, defodus  
**FORMÁLITY**, (s.) defod, arfer, trefn, rheol cyfraith, ffurfioldeb  
**FORMÁTION**, (s.) ffurfiad, lluniad  
**FÓRMER**, (adj.) cynt, cyntaf: (s.) ffurfwr, lluniwr, lluniedydd  
**FÓRMERLY**, (adv.) gynt, yr amser a aeth heibio, cyn hyn  
**FÓRMIDABLE**, (adj.) ofnadwy, erchyll, arswydol, arswydus  
**FÓRMULARY**, (s.) llyfr defodau  
**FORNICÁTION**, (s.) godineb, puteindra, anniweirdeb  
**FORNICÁTOR**, (s.) gordderchwr, godinebwr, puteinwr, anllad-fab  
**FORSÁKE**, (v. a.) gadaw, gadael, gwrthod, ymadael â  
**FORSÓOTH**, (adv.) yn wir, yn ddiaw, yn sicr, o brysur  
**FORSWEAR**, (v. a.) tyngu anudon  
**FORSWEÁRER**, (s.) anudonwr  
**FORT**, (s.) castell, amddiffynfa, caer  
**FORTH**, (adv.) yn mlaen, ymlaen, allan, rhagllaw, rhagddo  
**FORTHWÍTH**, (adv.) yn ddiattreg, yn y man, yn fuan, ar frys, yn ddioed  
**FORTIFICÁTION**, (sub.) amddiffynfa, diogelfa, cadarnlle, rhagfur  
**FÓRTIFY**, (v. a.) cadarnhau, diogelu, cryfhau, amddiffynu, caeru  
**FÓRTITUDE**, (s.) cryfder, cadernid, grym, nerth, glewder, gwycheder  
**FÓRTNIGHT**, (s.) pythefnos, pymthengnos  
**FÓRTRESS**, (s.) amddiffynfa, diogelfa, rhagfur, caer, caerfa  
**FORTÚITOUS**, (adj.) damweiniol  
**FÓRTUNATE**, (adj.) dedwydd, ffynedig, ffortunol, ffortunus, hylwydd  
**FÓRTUNE**, (sub.) ffortun, damwain, damchwain—dedwyddydd, dâ, golud, cyfoeth, ffawd, gwaddol  
**FORTUNETÉLLER**, (s.) daroganwr, dewin, dywedwr ffortun  
**FÓRTY**, (adj.) deugain  
**FÓRWARD**, (adv.) yn mlaen, yn union yn mlaen: (adj.) hŷ, cofn, dewr, tradewr, ehud, parod: (v. a.) annog yn mlaen, prysuro, brysio, ffrystio  
**FÓRWARDNESS**, (s.) parodrwydd  
**FÓRWARDS**, (adv.) yn y blaen  
**FOSSE**, (s.) ffôs, clawdd  
**FÓSSIL**, (s.) un peth a gloddiwyd o'r ddaear, mwyn, mwn  
**FÓSTER**, (v. a.) maethu, magu, meithrin. — *Foster-father*, tadmaeth, maethydd. — *Foster-mother*, mammaeth, maethyddes  
**FOUL**, (adj.) brwnt, ffaidd, budr, halog, aflan—drwg, anonest: (v. a.) diwyno, budreddu, halogi  
**FÓUENESS**, (s.) budreddi, brynti, aflendid, gwrthyni—creulonedd—anonestrwydd, annhegweh  
**FOUND**, (v. a.) seilio, sylfaenu, gosod sylfaen, sefydlu, sicrhau—bwrw, neu redeg metel, tawdd-fwrw  
**FOUNDÁTION**, (s.) sail, sylfaen, gwaelod, gwadn, gosail, grwndwal  
**FÓUNDER**, (s.) seiliwr, sylfaenwr—toddydd: (v. n.) cloffi—methu, ffaelu—suddo, soddi—ymddryllio  
**FÓUNDRY**, (s.) tawdd-dŷ, tawdd-lé, gwaith toddi, tawdd-gelfyddyd  
**FÓUNDLING**, (s.) plentyn gwrthodedig, neu a lyswyd gan ei rieni  
**FOUNT, FÓUNTAIN**, (s.) ffynnon, ffynnonell. — *Fount of letters*, nifer cyfrdo o argraff-lythyrenau  
**FOUR**, (adj.) pedwar: *fem.* pedair.—*Fourfold*, pedwar dyblyg.—*Four-score*, pedwar ugain.—*Foursquare*, pedwar onglog, pedror  
**FOURTEEN**, (adj.) pedwar ar ddeg  
**FOURTH**, (adj.) pedwerydd  
**FOWL**, (s.) echediad, echedyn, aderyn  
**FÓWLER**, (sub.) saethydd, adarwr, heliwr adar  
**Fox**, (s.) cadno, cadnaw, llwynog.—*ox-gloves*, bysedd eilyllon, me-

- nig ellyllon, bysedd cochion, bysedd y cwn, llwyn tewlaeth, dail ffion ffrwyth, a dail ffïol ffridd, am eu bod yn debyg i ffïol
- FRACTION**, (s.) toriad, rhwygiad—twn rif, rhan-nifer, nifer anghyfan
- FRACTIOUS**, (adj.) ceintachlyd, ceccus, anynad, cwerylus
- FRACTURE**, (s.) toriad, twn, bradwy: (v. a.) tori asgwrn
- FRAGILE**, (adj.) brau, breuol, hydor
- FRAGILITY**, (s.) breuolder
- FRAGMENT**, (s.) dryll, darn
- FRAGRANCE**, } (s.) perarogl, per-
- FRAGRANCY**, } arogledd
- FRAGRANT**, (adj.) peraroglaidd
- FRAIL**, (adj.) brau, breuol, gwan, eiddil—darostyngedig i gamsyniaid
- FRAILNESS**, (s.) breuolder, gwendid, eiddilwch, gwander, llesgedd
- FRAILTY**, (s.) breuder, llesgedd
- FRAME**, (s.) ansawdd, gwedd, cyflwr, ystad, trefn—peth i ddaladlwau, a lluniau, &c.: (v. a.) ffurfio, llunio, lluniaethu, gwneuthur—dychymmygu, dyfeisio.—*Frame of a table*, atteg bwrdd
- FRANCE**, (s.) Ffraingc, Ffrainc
- FRANCHISE**, (v. a.) breinio, gwneuthur yn rhydd: (s.) rhyddid, braint, rhagorfraint, dinasfraint
- FRANGIBLE**, (adj.) brau, breuol
- FRANK**, (adj.) hael, rhydd, hyged—diragrith, diffuant: (s.) llythyr rhydd—ffrongc, twlc: (v. a.) pesgi, doddi mewn ffrongc.—*To frank a letter*, breinio llythyr
- FRANKINCENSE**, (s.) math o ystor per-aroglaidd—thus, Dr. Davies
- FRANKLY**, (adv.) yn hael, yn rhydd, yn ddiragrith, o fodd calon
- FRANTIC**, (adj.) gwallgofus, gorphwyllus, ynfyd, cynddeiriog
- FRATERNAL**, (adj.) brawdol
- FRATERNITY**, (sub.) brawdoliaeth, brawdoldeb, brawdoriaeth
- FRATRICIDE**, (s.) brawdloedd, brawdlofruddiaeth, brawdloddiad
- FRAUD**, (s.) twyll, dichell, hoced, hûd, siom, ystryw
- FRAUDFUL**, (adj.) twyllodrus
- FRAUDULENCE**, } (sub.) siomant,
- FRAUDULENCY**, } twyll, siomedigaeth, dichellgarwch, twyllgarwch
- FRAUDULENT**, (adj.) twyllodrus, dichellgar, hocedus
- FRAY**, (sub.) ymladdfa, ymgiprys, cynnen, ymrafael: (v. a.) brawychu, dychrynu, tarfu, peri ofn
- FREAK**, (s.) chwim, chwyf, neu gyfnewidiad disymwth meddwl, gwammaliaeth, anwastadrwydd
- FREAKISH**, (adj.) gwammal, anwastad, cyfnewidiol, pen-chwiban
- FRECKLE**, (s.) brychni, man, siamp, brychyni, bych-nodi
- FRECKLY**, (adj.) manog, llawn brychni, brychlyd
- FREE**, (adj.) rhydd, breiniol, hael, haelionus, rhwydd
- FREEDOM**, (s.) rhyddid, rhydd-did, braint, trwydded, gollyngdod
- FREEHOLD**, (sub.) rhydd-dyddyn, rhydd-feddiant, perchenogaeth
- FREENHOLDER**, (s.) uchelwr, rhydd-feddiannwr
- FREESTONE**, (s.) carreg nadd, tywodfaen, nadd-faen
- FREEWILL**, (s.) cwylllys rhydd
- FREEZE**, (v. n.) rhewi, ceulo
- FREIGHT**, (s.) llwyth llong, hur llong: (v. a.) llwytho llong
- FRENCH**, (adj.) ffrengig, ffreinig: (s.) Ffrangege, Ffrangcod
- FRENZY**, (s.) gorphwyll, cynddaredd, cynddeiriogrwydd, gwallgof
- FREQUENCY**, (s.) mynych ddygwyddiad, amledd, mynychder, gwneuthuriad, neu welediad, cyffriedinrwydd—cyrchfa, ymgysarfod
- FREQUENT**, (v. a.) mynychu, cynniweir, cynried, hygyrchu, mynychau: (adj.) mynych, aml, hygyrch
- FREQUENTLY**, (adv.) yn fynych, yn gyffredin, yn aml
- FRESCO**, (s.) oerder, oerfel, cysgod
- FRESH**, (adj.) newydd, gwyra, croyw, ir—oer: (s.) dwfr croyw
- FRESHNESS**, (s.) newydd-der—croywder—oerder, creuder
- FRET**, (sub.) dig, digter, irlonedd, gŵyth, llid, llidiawgrwydd, cyffro, cyffroad—cramen, llwgr: (v. a.) llygru, ysu—gofidio, dygnlino, digio, ymddigio, ffromi
- FRETFUL**, (adj.) digofus, digllon, ffrom, siomgar, anfoddog

- FRÍAGLE**, (adj.) hyfryw, a altir ei friwsiônî, briwsiônllud
- FRÍAR**, (s.) manach, crefydd frawd
- FRÍCTION**, (s.) rhwbiad, rhugliad
- FRÍDAY**, (s.) dydd Gwener
- FRIEND**, (s.) câr, anwylddyn, cyfaill, cyfaillt, cydymmaith
- FRIENDLESS**, (adj.) diborth, digyf-aill, rheidus, amddifad, digâr
- FRIENDLINESS**, (s.) caredigrwydd, ewyllys da, cyfeillgarwch
- FRIENDLY**, (adj.) caredig, cariadus, hoff, mwyn, gweddaidd
- FRIENDSHIP**, (s.) cyfeillach, caredigrwydd, cymdeithas, cariad
- FRIEZE**, (s.) brethyn blewog, cedenog, addurn dalaith adeilad
- FRÍGATE**, (s.) ysgafulong, llong ryfel fechan, llong dan 50 gwn
- FRIGHT**, (s.) braw, ofn, dychryn: (v. a.) brawychu
- FRÍGHTEN**, (v. a.) dychrynu, brawychu, ofni, ofnhau
- FRÍGHTFUL**, (adj.) dychrynllyd, ofnadwy, erchyll, anferth
- FRÍGID**, (adj.) oer, oerfelog, egwan
- FRIGÍDITY**, (s.) oerni, oerder, oerfel, marweidd dra, anwrês
- FRINGE**, (s.) cddi, a rhidens, sider
- FRISK**, (v. n.) crychneidio, crychlamu, llamsach: (s.) crychnaid
- FRISKET**, (s.) cylch haiarn i ddal y bapur-len a roddir dan y wasg
- FRITH**, (s.) morgamlas, cyfyngfor, môr-gyfyng, caingc o fôr
- FRÍTTER**, (s.) cramwythen—derbyn, crempogen, miod deisen
- FRÍVOLOUS**, (adj.) ofer, gwael, salw, disas, dibris, dibwys, diwerth
- FRIZLE**, (v. a.) crychu, modrwyo
- FROCK**, (s.) twyg, hugan, arwisg
- FROG**, (s.) llyffant melyn, ffroga
- FRÓLIC**, (s.) chwim, gwammalrwydd, gwagsawrwydd, anwastadrwydd, ar-  
abedd, cellweirgamp
- FRÓLICKSOME**, (adj.) llawen, difyr, llon, gagsaw, gwammal, drythyll
- FROM**, (prep.) o, iwrth, oddiwrth
- FRONT**, (s.) tâl, talcen, tu blaen, wyneb, blaen y gâd, y fyddin flaen: (v.) wynebu, gwrthwynebu
- FRÓNTIER**, (s.) cyffin, terfyn, ffin
- FRÓNTISPIECE**, (s.) wyneb, tâlwyn-  
eb—wyneb addurn llyfr
- FRÓNTLESS**, (adj.) digywilydd, hŷ, haerllyg, talgryf
- FRÓNTLET**, (s.) rhagtal, talcenliain, ffunen, talaeth, tal-liain
- FROST**, (s.) rhew. — *lioar-frost*, llwydrew, barrug
- FRÓSTY**, (adj.) rhewog, rhewllyd
- FROTH**, (s.) ewin, gorferw, burman, burym: (v. n.) ewynu
- FRÓTHY**, (adj.) ewinog, burmanog
- FROUNCE**, (v. a.) crychu, modrwyo
- FRÓUZY**, (adj.) drewedig, drewllyd
- FRÓWARD**, (adj.) cyndyn, siomgar, aynad, drwgnaws, anhynaws, af-  
rywiog, gwrthnysig, cildynus
- FRÓWARDNESS**, (s.) cyndynrwydd, siomgarwch, gwrthnysigrwydd
- FROWN**, (s.) cuwch, cuch, cilwg: (v. a.) cuchio, edrych yn guchio
- FRUCTÍFEROUS**, (adj.) yn dwyn ffrwyth, cynysawr, ffrwythlawn
- FRÚCTIFY**, (v. a.) ffrwythloni, gwneuthur yn ffrwythlawn, cynyio
- FRÚGAL**, (adj.) cymmedrol, cynuil, anhreulgar, ardymerus
- FRUGÁLITY**, (s.) cymmedrolder, cyn-  
nildeb, cynnilwch; ymarweddiad  
da, toliant
- FRUIT**, (s.) ffrwyth, cynnyrch
- FRÚTFUL**, (adj.) ffrwythlon
- FRÚTION**, (s.) mwyniant, mwyn-  
hâd, meddiant
- FRÚITLESS**, (adj.) anffrwythlon, di-  
ffrwyth, difudd, diles, ofer
- FRÚSTRATE**, (v. a.) seithugio, siomi,  
twyllo, diddymu
- FRY**, (s.) hedyn pysgodyn, mân bysg,  
pysg haig: (v. a.) ffrio
- FRYED**, (s.) cras-bob, cras-boeth
- FRYING**, (s.) cras-boethiad, ffriad
- FRYING PAN**, (s.) padell ffrio
- FRYTH**, (s.) ffrith, prysg-lwyn
- FUAGE**, (s.) treth aelwyd
- FUCATE**, (v.) rhith-liwio
- FUCUS**, (s.) golch liw, arliw—math  
o fôr-lysienyu
- FÚDDLE**, (v. a.) meddwi, gwneuthur  
yn feddw, diota, ymyfed
- FUDGE**, (s.) ffug waith: (v.) ffug-  
liwio; rhith-weithio; chwilena
- FÚEL**, (s.) tanwydd, tanborth, cyn-  
 MOOR, (sub.) morfa, rhos—dyn dâ, blomon: (v. a.) angori  
 MÓORING, (s.) angorfa  
 MÓORISH, MÓORY, (adj.) corsog  
 MOOSE, (s.) math o anifail yn America, â phen fel carw, ond yn droed-drwm i redeg  
 MOOT, (v. a.) dadleu, arferyd i ymddadleu, ffug-ddadleu

- MOP**, (s.) mopa, mop, ysgubell eddi  
**MOPF**, (s.) begegwr, diogyn : (v. n.) bod yn ddiog—penddaru  
**MÓRAL**, (adj.) bucheddol, moesol : (s.) addysg, casgliad oddiwrth chweil  
**MORÁLITY**, (s.) moesoldeb  
**MÓRALS**, (s.) moesau, ymarweddiad, ymddygiad ; dyledswyddau  
**MORÁSS**, (s.) cors, signen, mignen  
**MORBÍD**, (adj.) clwyfus, heinus, claf, afiach, clefydlyd, heintiol  
**MORDÁCIUS**, (adj.) a fratho â dannedd, neu â cholyn—llym-eiriog  
**MORE**, (adj.) mwy, ychwaneg, rhagor  
**MOREÓVER**, (adv.) yn mhellach  
**MÓRLING**, (s.) gwlan llwdu marw  
**MORN**, **MÓRNING**, (s.) boreu, bore  
**MORÓSE**, (adj.) gwrthnysig, sarug, anynad, anhynaws, drygnawsus  
**MORÓSENESS**, (s.) drygnaws, anynadrwydd, drwg-naturiaeth, gwrthnysigrwydd, sarugrwydd  
**MÓRROW**, (s.) y foru, y bore nesaf, tranoeth.—*To morrow*, y foru, eforu.—*The day after to-morrow*, trenydd, tradwy  
**MORSE**, (s.) y mor-farch  
**MÓRSEL**, (s.) tamaid, safnaid, bochaid  
**MÓRTAL**, (adj.) marwol, trangedig, angeuol : (s.) dyn  
**MORTÁLITY**, (s.) marwolder—naturddynol, angeuolrwydd. "*Mortality cannot bear it.*" Dryden.  
**MÓRTAR**, (s.) mortar, cymrwd, simant—llestr i guro peth ynddo  
**MÓRTGAGE**, (s.) gwystl, attafaelaeth, marw-wystlad : (v. a.) gwystlo  
**MÓRTIFICÁTION**, (s.) marwhad—gofid, dolur, poen, siomedigaeth  
**MÓRTIFY**, (v.) marwhau—gofidio, mallu, marw-lygru  
**MÓRTISE**, (s.) rhwyll, mortais  
**MÓRTMAIN**, (sub.) tir anaralladwy, neu na ellir ei werthu, tir eglwys  
**MÓRTUARY**, (s.) rhodd at eglwys  
**MOSAIC**, (adj.) perthynol i Moses, neu Moesen, moesenaidd.—*Mosaic dispensation*, goruchwyliaeth Moesen.—*Mosaic work*, brith-waith mewn palmant, &c.  
**MÓSQUE**, (s.) teml Mahomet  
**Moss**, (s.) mosogl, migwyn, callodr  
**MÓSSY**, (adj.) mwsoglyd, mwswn  
**MOST**, (adj.) mwyaf, amlaf  
**MOTE**, (s.) brycheuyn, ffws  
**MOTH**, (s.) gwyfyn, pryfyn dillad  
**MÓTHER**, (s.) mam, mamwys.—*Mother in law*, mam y'nghyfraith, llysfam, elltrewen, mam wen, chwegr.—*The mother*, y bru, y famog, clefyd y fam.—*Mother-tongue*, mam-iaith, prif-iaith.—*Motherwort*, llysiâu'r fam  
**MÓTHERLESS**, (adj.) difam, amddifad  
**MÓTHERLY**, (adj.) mamol, mamaidd  
**MÓTHERY**, (adj.) gwaddodlyd  
**MÓTION**, (s.) symudiad, ysgydwad, cynnwrf, cyffro, cynhygiad  
**MÓTIVE**, (s.) achos, achlysur, anogiad, egwyddor, cynhyrfaid  
**MÓTELY**, (adj.) brychlyd, mwltai  
**MÓTTO**, (s.) arwydd-ysgrifen, arwydd, ymadrodd a'sgrifeniwr ar beth  
**MOVE**, (v.) ymmod, cynhyrfu, cyffroi, symud, mudo, cymhell  
**MÓVEABLE**, (adj.) symudol  
**MÓVEABLES**, (s.) dodrefn, moddion  
**MÓVEMENT**, (s.) symudiad, cyffroad—rhanau cloc, neu orlais  
**MÓVING**, (adj.) tosturiol, galarus  
**MOULD**, (sub.) mold—daear : (v. a.) ffurfio, llunio—moldio, tyllio  
**MÓULDER**, (v.) darfod, troi yn bridd  
**MÓULDINESS**, (sub.) llwydni, llwydedd, egrwydd  
**MÓULDING**, (s.) ceudod mewn carreg, neu bren, addurn dalaith  
**MÓULDY**, (adj.) llwyd, mws  
**MOULT**, (v. n.) colli pluf, &c.  
**MOUNCH**, (v. a.) cnoi, bwyta  
**MOUND**, (s.) clawdd, gwarchglawdd, moelglawdd : (v.) amgloddio  
**MOUNT**, (v.) dyrchafu, myned ar gefyl : (s.) crug-fryn, twmpath  
**MÓUNTAIN**, (s.) mynydd, bryn, bre  
**MOUNTAINEER**, (s.) mynyddwr  
**MOUNTAINOUS**, (adj.) mynyddig  
**MÓUNTÉBANK**, (s.) crwydr-feddyg, meddyg pen twyn—gwag-fostiwr  
**MOURN**, (v.) galaru, arwyo  
**MÓURNFUL**, (adj.) galarus, trist  
**MÓURNING**, (s.) galar, tristwch—dillad galar, galarwisg, gwrwmdy  
**MOUSE**, (s.) llygoden, llyg, twrlla  
**MOUTH**, (s.) genau, safn  
**MÓUTHFUL**, (s.) tamaid, safnaid  
**MÓUTHLESS**, (adj.) dienau  
**Mow**, (v. a.) lladd gwair, neu fyd â phladur : (s.) dâs, mwdwl, beisgaw  
**MÓWER**, (s.) pladurwr, pladuriwr

- MUCH**, (adj.) llawer, mawr, aml, lliosog. — *As much*, cymmaint. — *Much the same*, agos yr un. — *Much like*, tra thebyg. — *Too much*, gormod, gormod. — *Make much of it*, gwna yn fawr o hono
- MUCID**, (adj.) llwyd, mws, llysog
- MUCILAGE**, (s.) llysnafedd, sudd
- MUCK**, (s.) tail, tom, gwrtaith
- MUCKENDER**, (s.) llaw-liain
- MUCKHILL**, (s.) tomen, crug o faw
- MUCKINESS**, **MUCKISHNESS**, (s.) allendid, baweidd-dra, brynti
- MUCKLE**, (adj.) llawer, mawr
- MUCK SWEAT**, (s.) mawr chwys
- MUCK-WORM**, (s.) pryf y domen: *fig.* cybydd, cribyn was, cerlyn
- MUCKY**, (adj.) aflan, atgas, ffiadd
- MUCOUS**, (adj.) llysnafeddog
- MUD**, (s.) llaid, llaca, baw, tom
- MUDDLE**, (v. a.) diwyno: *fig.* gwn-euthur yn hanner meddw
- MUDDY**, (adj.) lleidiog, tomlyd—niwlog, tywyll, afloyw, plwca
- MUFF**, (s.) peth i gadw dwylaw yn wreſog yn y gauaf, dyrn-dorch
- MUFFIN**, (s.) math o deisen
- MUFFLE**, (v. a.) pennori, moledu, mwfflo—cuddio, celu—baldordd
- MUFFTI**, (s.) arch-offeiriad y Maho-
- MUG**, (s.) cwpan [metaniaid
- MUGGY**, (adj.) llaith, llwydlyd
- MULATTO**, (s.) dyn y byddo ei dad a'i fam o wahanol liw, sef un yn ddu a'r llall yn wyn; mul-ddyn
- MULBERRY**, (s.) morwydden
- MULCT**, (v. a.) ffinio, fforffetu, dirwyo: (s.) ffin, fforffed, dirwy
- MULE**, (s.) mul: *pl.* mulod
- MULIÉBRITY**, (s.) gwreigdra, gwreigeidd-dra, gwreigod
- MULL**, (v. a.) claiaru, neu ferwi gwin
- MULLAR**, (s.) careg falw, maliedydd
- MULLEIN**, (s.) y dew banog, y banog hanner-pan, tapr dunos, tapr Mair, sircyn y melinydd, dail y melfed, elust y fuwch, clust y tarw, canwyll yr adar
- MULLOCH**, (s.) sorod: *edr.* *Rubbish*
- MULSE**, (s.) bragawd, melwin
- MULTÁNGULAR**, (adj.) amlgonglog
- MULTIFORM**, (adj.) amryddull, aml-ddull, amrylun, amrywedd
- MULTILÁTERAL**, (adj.) aml-ochrog
- MULTIPÁRTITE**, (adj.) lliawsranog
- MULTIPLÍABLE**, (adj.) a ellir ei amlhau, a'i 'chwanegu, lliosogadwy
- MULTIPLICAND**, (sub.) y nifer i'w lliosi mewn rhifyddiaeth
- MULTIPLICÁTION**, (sub.) lliosogiad, anghwanegiad, mwyedigaeth
- MULTIPLICÁTOR**, (s.) lliosogwr
- MULTIPLICÍTY**, (s.) lliosogrwydd
- MULTIPLÍER**, (s.) lliosogwr
- MÚLTIPLY**, (v.) lliosi, amlhau, mwyhau, lliosi, dybwyo
- MULTIPÓTENT**, (adj.) mawr alluog
- MÚLTITUDE**, (s.) lliaws, llios, llu, tyrfa, rhawd. lliosogrwydd, amllder
- MUM**, (s.) math o ddiod a wneir o frág gwenith a cheirch, &c.: (interj.) ust, taw â sôn
- MÚMBLE**, (v. n.) dywedyd dan ddannedd, sibrwd, grydian, mwngial
- MUMP**, (v. a.) cnoi, cardota
- MÚMPER**, (s.) cardodyn, bolerwr
- MUMPS**, (s.) digofaint, lliodiogrwydd dirgel y pŵd, y bensach
- MUNCH**, (v. a.) cnoi, bwyta
- MÚNDANE**, (adj.) bydol, bydawl
- MÚNDATORY**, (adj.) a lanhao
- MÚNGREL**, (s.) cymmysg-ryw
- MUNÍCIPAL**, (adj.) breiniol
- MUNIFÍCENCE**, (s.) haeledd, haelioni, haelder, cedrwydd-der
- MUNIFÍCENT**, (adj.) hael, haelionus
- MÚNIMENT**, (s.) amddiffynfa, diogelfa, amddiffyn
- MUNÍTION**, (s.) diffyn-waith
- MÚRAL**, (adj.) a berthyn i fur
- MÚRDER**, (s.) llofruddiaeth, lladdiad dyn, mwrn, murndwrn, mwrdd-dra: (v. a.) llofruddio, lladd, dyhennyddio, cyflafanu—dystrywio
- MÚRDERER**, (s.) llofrudd, mwrddrwr
- MÚRDEROUS**, (adj.) llofruddaidd
- MURK**, (s.) cibyn, plisgyn
- MÚLLET**, (s.) hyrddyn, mingrwn
- MÚRMUR**, (s.) murmur, grwgnach, manson, tuchan, gorunad: (v. n.) murmur, grwgnach, manson, grydian
- MÚRMURER**, (s.) grwgnachwr
- MÚRRAIN**, (s.) chwaren, cornwyd, y pla ar anifeiliaid, y clefyd du
- MÚRREY**, (adj.) rhyddgoch, cochtywyll, gwineu-lwyd, gwineu
- MÚRRION**, (s.) helm, penwisg
- MÚSCADEL**, **MÚSCADINE**, (s.) math o rawn a gwin peraidd
- MÚSCLE**, (s.) cyhyr, cyhyr-glwm,

- gewyn, gwythi—math o gragen-bysg, misglen: *pl.* misgl
- MÚSCULAR**, (adj.) cyhyrawl
- MÚSCULOUS**, (adj.) cyhyrog
- MUSE**, (s.) dwysfyfyrdod—cerdd—duwies dysg: (v. n.) myfyrio, ystyried, meddyliaid, dwys ystyried
- MÚSES**, (s.) naw duwies y dysg, neu y gerdd, duwiesau barddoniaeth
- MUSEUM**, (sub.) trysorfa cywreinarwydd, amgueddfa, cuedd-gell
- MUSHROOM**, (s.) madarch, bwyd y llyffaint, caws y llyffaint, bwyd ellyllon, bwyd y boda.—*Phalloide*, or *stinking mushroom*, y gingron
- MÚSIC**, (s.) miwsig, cerdd, cywyddoliaeth, peroriaeth, cerddoriaeth
- MÚSICAL**, (adj.) cynghaneddol, perseiniol, cerddgar, cynghaneddawl
- MUSICIAN**, (s.) cerddor, clerwr, can-
- MUSK**, (s.) mwsg [iadydd
- MÚSKET**, (s.) gwn llaw, byr-ddryll
- MÚSKETÉER**, (s.) mwsgedwr [mwsged
- MÚSKETÓON**, (s.) gwn byr llydan
- MUSKMELON**, (s.) pompiwn pêr
- MÚSKY**, (adj.) peraroglaidd
- MÚSLIN**, (s.) defnydd tég o gotwm
- MUSROL**, (s.) trwyn ffrwyn
- MÚSSULMAN**, (s.) un o fydd, neu gred Mahometanaidd
- MUST**, (v. imper.) dir yw, mae yn rhaid: (s.) newydd win, diod newydd, diod yn yr îl
- MÚSTÁCHES**, (s.) trawswch, trawswych, y farf ar y wefus uchaf
- MÚSTARD**, (s.) mwstard, cethw
- MÚSTER**, (v.) golygu byddin, crynhoi yn nghyd, mwstrio: (s.) dysgwyliad dros fyddin, cofrestr o fyddinoedd a edrychwyd drostynt.—*Muste-book*, llyfr yn mha un y dodir i lawr enwau milwyr.—*Muste-roll*, rhifrestr byddinoedd
- MÚSTINESS**, (s.) llwydni, drygsawrwydd, mws, mysni
- MÚSTY**, (adj.) llwyd, drygsawrus, drewllyd, llwydlyd
- MÚTABÍLITY**, (sub.) newidiolder, anwadalwch, anwastadrwydd
- MÚTABLE**, (adj.) newidiol, cyfnewidiol, anwadal, anwastad, trofaus
- MÚTÁTION**, (s.) cyfnewidiad, newidiad
- MUTE**, (s.) mudan: (adj.) mud, tawedog, aflafar, dilafar, tawedawg
- MUTES**, (s. pl.) llythyrenau mudion—math o alarwyr mewn angladdau
- MÚTILATE**, (v. a.) anafu, anurddo
- MÚTILÁTION**, (sub.) anafiad, toriad ymaith, anffurfiad, hacriad
- MÚTINÉER**, (s.) cynhyrfwr terfysg ac anghydfod, terfysg-godwr
- MÚTINOUS**, (adj.) terfysgus, ymrysongar, gwrthryfelgar, terfysglyd
- MÚTINY**, (s.) terfysg, gwrthryfel, ymryson: (v.) gwrthryfela, codi yn erbyn gwyr mewn awdurdod
- MÚTTER**, (v. n.) murmur, grwgnach
- MÚTTERER**, (s.) grwgnachwr
- MÚTTON**, (s.) cig gwedder, cig maharen, cig llwdn dafad—manllwdn
- MÚTUAL**, (adj.) cyfnewidiol, ar gyfnewid, o'r ddwy ochr—cyd
- MÚTUALLY**, (adv.) ar gylch, ar gyfnewid, o bob ochr
- MÚZZLE**, (v. a.) pennori, rhwymo trwyn: (s.) genau, safn, penfar
- MY**, (pron.) mau, fy, eiddof
- MY'RIAD**, (s.) myrdd, myrddiwn
- MYRRH**, (s.) myrr: (adj.) myrlllyd
- MY'R TLE**, (s.) myrtwydd, myrt
- MYSELF**, (pron.) mi (myfi) fy hun
- MYSTAGOGUE**, (s.) dehonglydd dirgelion crefyddol
- MYSTÉRIOUS**, (adj.) dirgel, tywyll
- MY'STERY**, (s.) dirgelwch, dirgeledd—cyfriniaeth—crefft, galwad
- MYSTIC**, (s.) dychymygwr dirgelion, cyfriniolwr
- MY'STIC**, **MY'STICAL**, (adj.) tywyll, dirgel, cuddiedig, cyfrinol
- MYTHÓLOGIST**, (s.) deonglwr chwedlau yr hên baganiaid
- MYTHÓLOGY**, (s.) hypsisiad chwedlau, deongliad damhegion

## N.

- N** **FEL** byr-nod, a saif am am-ryw eiriau; megis N. S. *New Style*, y Cyfrif newydd.—N. B. *Nota Bene*, daliwch sylw.—N. W. *North west*, y Gogledd-orllewin: ac No. *Number*, rhif
- NAB**, (v. a.) dal heb wybod
- NÁDIR**, (s.) y pwynt sydd yn un-iawn gyferbyn a'n traed
- NAG**, (s.) ceffyl, cryn-farch
- NAIL**, (s.) hoel, hoelen—ewin—yr unfed ran ar bymtheg o lathed: (v. a.) hoelio, cethru
- NÁKED**, (adj.) noeth, llwm, llymsi
- NÁKEENESS**, (s.) noethni, llymder
- NAME**, (s.) enw: (v. a.) enwi
- NÁMELESS**, (adj.) dienw, anenwog
- NÁMELY**, (adv.) sef, sef yw hyny, yn enwedigol, wrth ei enw
- NÁMESAKE**, (s.) un o'r un enw
- NANTWICH**, (s.) yr Heledd wen
- NAP**, (s.) hun—ceden, casnach: (v. a.) cysgu, bod yn gysglyd
- NAPE**, (s.) gwegil, gwar
- NÁPKIN**, (sub.) napcin, Ioan xx. 8. Iliain, cedaflen, llawliain
- NÁPLESS**, (adj.) digeden, digasnach
- NÁPPY**, (adj.) cedenawg, casnachog.—*Nappy ale*, cwrw cryf
- NARCOTICS**, (sub.) cyffyrïau i beri cws, a thynu ymaith y teimlad
- NÁRRABLE**, (adj.) traethadwy
- NARRÁTION**, **NÁRRATIVE**, (s.) hanes, traethiad, traethawd, mynag, mynegiad, adroddiad, copinod
- NÁRRROW**, (adj.) cul, cyfyng, caeth: (v. a.) culhau, caethiwo, cyfyngu
- NÁRRROWNESS**, (s.) cyfyngder
- NÁSTINESS**, (s.) budreddi, brynti, aflendid, aflanweithdra, budredd
- NÁSTY**, (adj.) cas, ffiائد, budr, brwnt, aflan, swga
- NÁTAL**, (adj.) genedigol, anianol
- NATÁTION**, (s.) nawf, nosiad
- NÁTION**, (sub.) cenedl, cenhedlaeth, gwlad, cenel, ciwdod
- NÁTIONAL**, (adj.) cenhedlawl, teyrnasol, cenhedlaethol, ciwdodawl
- NÁTIVE**, (adj.) genedigol, naturiol, cynhenid: (s.) priodor, ciwdawdwr
- NATÍVITY**, (s.) genedigaeth
- NÁTURAL**, (adj.) naturiol, anianol, wrth naturiaeth, cynhenid
- NÁTURALIZE**, (v. a.) breinio, rhoddi braint brodolion i ddyeithraid—gwneuthur yn naturiol
- NÁTURALLY**, (adv.) yn naturiol
- NÁTURE**, (s.) natur, naturiaeth, anian
- NÁVAL**, (adj.) llyngesol, a berthyn i longau, morawl, llyngesawl
- NAVE**, (s.) bôth, bwl rhod—canol eglwys, corff eglwys
- NÁVEL**, (s.) bogail, y canol
- NAUGHT**, (adj.) drwg, drygionus
- NAUGHTINESS**, (s.) drygioni, brynti
- NÁVICABLE**, (adj.) hylong, mordwyol
- NÁVIGATE**, (v.) hwylio, mordwyo
- NAVIGÁTION**, (s.) mordwyad, mordwyaeth, llongwriaeth, morwriaeth
- NAVIGÁTOR**, (s.) mordwywr, morwr
- NÁUSEATE**, (v.) gwrthwynebu
- NÁUSEOUS**, (adj.) gwrthwyneblyd
- NÁUSEOUSNESS**, (s.) ffeiddrwydd
- NÁUTICAL**, (adj.) a berthyn i long, neu forwyr, llongwriaethol
- NÁVY**, (s.) llynges, llu môr
- NAY**, (adv.) nage, nac, nid felly
- NEAL**, (v. a.) tymheru trwy wres
- NEAP**, (adj.) isel, trai, treiawl
- NEAR**, (prep. & adj.) agos, cyfagos, gerllaw, eiddwg, eiddwng
- NÉARNESS**, (s.) nesder—cybydd-dra
- NEAT**, (sub.) eidion: *pl.* eidionau: (adj.) dillyn, glân, hardd, teg, tlws
- NÉATNESS**, (sub.) tegwch, hoywder,
- NEB**, (s.) pig, trwyn [tlysní
- NÉCESSARIES**, (s.) angenrheidiau
- NÉCESSARY**, (adj.) angenrheidiol, rheidiol, anhepgor, rhaid
- NECESSITOUS**, (adj.) anghenus, tlawd
- NECÉSSITY**, (s.) angenrheidrwydd, angenrhaid, rhaid, angen, eisiau
- NECK**, (s.) gwddf, gwddwg, mwnwgl
- NÉCKCLOTH**, (s.) gwddf-wisg, clwtyn gwddf, cadach gwddf
- NÉCKLACE**, (sub.) torch mwnwgl, gwddf gadwyn, gwddf-addurn
- NÉCROMANCER**, (s.) dewin
- NÉCROMANCY**, (s.) dewiniaeth, dewindabaeth trwy ymddyddan â'r meirw, y gelfyddyd ddu



- NÉCTAR**, (s.) diod y duwiau, yr hon, pwy bynag a'i hyfai, fyddai anfar-
- NÉCTARINE**, (adj.) melus [wol]
- NEED**, (s.) angenrheidrwydd, angen: (v.) bod mewn eisiau, bod âg eisiau
- NÉEDFUL**, (adj.) angenrheidiol
- NÉEDINESS**, (s.) angen, rhaid, eisiau,
- NÉEDLE**, (s.) nodwydd [tlodi]
- NÉEDLE-WORK**, (s.) gwaith nodwydd
- NÉEDLESS**, (adj.) afreidiol
- NÉEDY**, (adj.) rheidus, tlawd, ang-
- NEESE**, (v. n.) trewi [henog]
- NEFARIOUS**, (adj.) drygionus, anfad, echryslon, melldigedig, ysgeler
- NEGATION**, (s.) nâg, naghad, pall, gwâd, negyddiaeth, nacâd
- NÉGATIVE**, (adj.) nacâol: (s.) negydd
- NÉGATIVELY**, (adv.) yn nacâol
- NEGLECT**, (v. a.) esgeuluso, dibrisio: (s.) esgeulusdra, diofalwch, gwall, gwallusdra, esgeulusiad
- NEGLECTFUL**, (adj.) esgeulus, diofal
- NÉGLIGENCE**, (s.) gwallusdra, esgeulusdra, diofalwch, anofalwch
- NÉGLIGENT**, (adj.) esgeulus, gwallus
- NEGOTIATE**, (v. a.) negeseua, masnach, marsianda, gorchwyllo
- NEGOTIATION**, (s.) masnach, marsiandaeth, negeswriaeth, cynnadledd
- NÉGRO**, (s.) dyn du, blwmon
- NEIGH**, (v. n.) gweryru, gweryrad
- NÉIGHBOUR**, (s.) cymmydog
- NÉIGHBOURHOOD**, (s.) cymmydogaeth
- NEIGHING**, (s.) gweryrad
- NÉITHER**, (conj.) na, nac, ychwaith: (adj.) nid yr un o'r ddau
- NEMINE-CONTRADICENTE**, (adv.) yn ddiwrthwynebiad, yn unfarn
- NEOMENIA**, (sub.) y newydd-loer, gŵyl y newydd loer
- NEOPHYTE**, (sub.) un newydd-blau, dysgybl ieuangc
- NEOTÉRIC**, (adj.) newydd, diweddar
- NÉPHEW**, (s.) nai: *pl.* neiaint
- NERVE**, (s.) gewyn, gŷeuynd
- NÉRVELESS**, (adj.) gwan, egwan
- NÉRVOUS**, (adj.) gewynog, gŷeulyd, cefnog, cryf, nerthog, cadarn
- NESS**, (s.) penrhyn, penfro, pentir
- NEST**, (s.) nyth: (v. a.) nythu
- NÉSTLE**, (v. n.) nythu, trigo, cyfanneddu, ymgeleddu, rhagnythu
- NET**, (s.) rhwyg, balleg, ballegrwydd
- NÉTHER**, (adj.) is, iselach
- NÉTHERMOST**, (adj.) iselaf, isaf
- NÉTTLE**, (s.) danadlen: *pl.* danadl: (v. a.) symbylio, pigo, annog, cymhell, cynhyrfu.—*Dead nettle*, danhadlen ddall, danhadlen farw.—*Hemp dead nettle*, yr erw boeth
- NETWORK**, (s.) gwaith rhwyd
- NÉVER**, (adv.) erioed, byth
- NEVERTHELESS**, (adv.) er hyn, etto, eithr, anllai, er hyn oll
- NÉUTER**, **NÉUTRAL**, (adj.) na'r naill na'r llall, nid yr un o'r ddau
- NEUTRALITY**, (s.) anmhleidgarwch
- NEW**, (adj.) newydd, diweddar, îr, gwy-
- NÉWLY**, (adv.) yn newydd [ryf]
- NÉWNESS**, (s.) newydd, der, newydddeb, newyddrwydd
- NÉWPORT**, *in Pembrokeshire*, (s.) Trefdraeth
- NEWS**, (s.) newydd, newyddion
- NÉWSMONGER**, (s.) dygwr newyddion — gwerthwr papurau newyddion
- NÉWSPAPER**, (s.) papur newydd
- NEWT**, (s.) budrchwilen, genau goeg
- NÉWYEAR'S DAY**, (s.) dydd calan
- NÉWYEAR'S-GIFT**, (s.) calenig
- NEXT**, (adj.) agosaf, nesaf
- NIB**, (s.) pig, blaen pin ysgrifenu
- NÍBBLE**, (v.) cnoi yn esmwyth, hwyta yn llonydd: *fig.* beio, cablu
- NICE**, (adj.) cywraint, manol—mwythus, destl, destlus, cynnil
- NÍCENESS**, (s.) cywreinrwydd, manylrwydd—destlusrwdd
- NÍCETIES**, (s.) ammheuthunion
- NÍCETY**, (s.) manylrwydd
- NICHE**, (s.) ceudod i osod delw ynddo
- NICK**, (s.) rhigol, bwllch: (v. a.) bylchu, rhintachu, rhygn-dori
- NÍCKNAME**, (s.) llysenw
- NIECE**, (s.) nith [crinwas]
- NÍGGARD**, (s.) cybydd, bawddyn,
- NÍGGARDLINESS**, (s.) cybydd-dod
- NÍGGARDLY**, (adj.) cybyddlyd
- NIGH**, (adj.) agos, cyfagos: (prep.) yn agos, yn ymyl, gerllaw
- NÍGNESS**, (s.) nesder, agosrwydd
- NIGHT**, (s.) nos.—*To night*, heno
- NÍGHTINGALE**, (s.) ëos, ëaws
- NÍGHTLY**, (adv.) o hyd nos, beunos, bob nos: (adj.) nosol
- NÍGHTMAN**, (s.) carthwr geudai
- NIGHT-RAVEN**, (s.) aderyn y corff
- NÍGHTWALKER**, (sub.) nos-gerddwr, gwilliad—heol-ferch, putain
- NÍGHTWARD**, (adv.) tu a'r nos

- NÍ'GRESCENT**, (adj.) yn tywyllu  
**NILL**, (v. a.) anewyllysio, pallu, gwrthod, nagu. — *Will they, mill they*, er eu bodd, neu eu hanfodd  
**NIM**, (v.) chwiw-ladrata  
**NÍMBLE**, (adj.) buan, cyflym, clau, gwisgi, bywiog, buandroed  
**NÍMBLENESS**, (s.) buanrwydd, cyflymder, bywiogrwydd  
**NÍNCOMPOOP**, (s.) cadafael  
**NINE**, (adj.) naw. — *Ninesfold*, nawplyg  
**NINETEEN**, (adj.) pedwar ar bymtheg  
**NÍNETY**, (adj.) pedwar ugain a deg  
**NÍNNY**, **NÍNNYHAMMER**, (s.) penwan-ddyn, ffwlcyn, syber-geisiwr  
**NIP**, (v. a.) tymmhigio, tori ymaith ág ewinedd, neu ddannedd—deifio,  
**NÍPPERS**, (s.) gefail [poethi  
**NÍPPLE**, (s.) bron, teth, diden  
**NIT**, (s.) nedden: *pl.* nedd  
**NÍTID**, (adj.) gloyw, dysglair  
**NÍTRE**, (s.) nitr, math o halen  
**NÍTROUS**, **NÍTRY**, (adj.) llawn nitr  
**NÍTTY**, (adj.) neddog, llawn nedd  
**NÍVEOUS**, (adj.) eiryog, llawn eira  
**NÍZY**, (s.) delff, drel, cadafael  
**No**, (adv.) na, nac, nad, nid, nage, naddo: (adj.) neb, neb rhyw  
**NOBILITY**, (s.) bonedd, boneddigeiddrwydd, dyledogrwydd — boneddigion, dyledigion  
**NOBLE**, (adj.) boneddig, dyledog, cynhwynol—rhagorol, ardderchog, godidog, hael, arwraidd: (s.) pendefig, gwr bonheddig — ffwring, neu chwech swllt ac wyth ceiniog  
**NÓBLEMAN**, (s.) pendefig, gwr bonheddig, arglwydd, dyledog  
**NÓBLENESS**, (s.) hynodrwydd, ardderchawgrwydd, rhagoriaeth  
**NÓBLESS**, (s.) pendefigion  
**NÓBLY**, (adv.) yn rhagorol, yn ardderchog, yn foneddawl, &c.  
**NÓBODY**, (s.) neb, nebun, neb dyn  
**NÓCENT**, (adj.) niweidiol, drygionus, argyweddus, euog  
**NÓCTURN**, (s.) gweddi nosawl  
**NOCTÚRNAL**, (adj.) nosawl, a berthyn i'r nos: (s.) deial nos  
**NOD**, (s.) amnaid, awgrym, hep: (v.) amneidio, awgrymu; bod yn gysglyd  
**NÓDDLE**, (s.) pen, gwegil, clopa  
**NÓDDY**, (s.) hurthgen, drelyn  
**NODE**, (s.) cwiwm, clwm, cwgn—y pwynt lle mae cylch y lleuad yn croesi cylch blynyddol yr haul  
**NÓGGIN**, (s.) picyn, cwarter peint  
**NOISE**, (s.) trwst, swm, dwndwr, nâd, rhwad, ynglef, twrwf, aedd, pawns: (v. n.) trystio, darstain, dadseinio  
**NÓISINESS**, (s.) trwst, cri, diaspad  
**NÓISOME**, (adj.) niweidiol, afiach  
**NÓISOMENESS**, (s.) brynti, allendid, budreddi, ffeiddrwydd—drewiant  
**NÓISY**, (adj.) trwstfawr, gwaeddgar, bloeddfawr, bloeddgar  
**NÓMBLES**, (s.) perfedd carw  
**NOMENCLÁTURE**, (s.) y weithred o ddywedyd enwau dynion, neu beththau—geir-lyfr, enw-lyfr  
**NÓMINAL**, (adj.) enwol, yn unig mewn enw, galwedigawl  
**NÓMINATE**, (v. a.) enwi, appwyntio  
**NOMINATION**, (s.) enwad, appwyntiad, pennodiad, enwedigaeth  
**NOMINATIVE**, (adj.) yn enwedigol.— *Nominative case*, yr achos enwedigol, enwedigaethydd, enwai  
**NONAGE**, (s.) ieuengcyd, yr amser hyd yr oedran pwyntiedig trwy y gyfraith i un weithredu drosto ei hun  
**NONCE**, (s.) dyben, amcan, bwriad  
**NONCONFORMIST**, (s.) un ni chydffurfio â'r drefn sefydledig o addoliad, anghyddfurfiwr, ymneillduwr  
**NONCONFORMITY**, (s.) anghyddfurfriad, ymneillduacth  
**NONE**, (adj.) neb, nebun, dim  
**NONÉNTITY**, **NONEXISTENCE**, (sub.) dihanfodedigaeth, an-fod  
**NONJÚROR**, (sub.) yr hwn ni thwng ffyddlondeb i'r brenin, annhyngwr  
**NONPAREIL**, (sub.) digymmar, enw rhyw afal, a math o argraff lythyren  
**NÓNPLUS**, (s.) astrusi, neu anhawsdra, trwy ba un y mae dyn yn cael ei ddwyn fel na's gall na dywedyd, na gwneuthur mwy: (v. a.) dyrysu un fel na's gall ddywedyd mwy  
**NONRÉSIDENCE**, (s.) absennoldeb o fywioliaeth eglwys, annhrgiant  
**NONRÉSIDENT**, (s.) un ni thrigo yn y plwyf lle byddo ei fywioliaeth  
**NONRÉSISTANCE**, (s.) anwrthwynebiad, diwrthrynedd  
**NÓNSENCE**, (s.) afresymoldeb, dŵli, iaith ddisynwyr, ffladredd, ffoledd  
**NONSÉNSICAL**, (adj.) afresymol, dŵl

- NÓN-SUIT**, (s.) gwrthodiad cynghaws-  
edd, anhawl, hawl goll  
**NÓDLE**, (s.) symlyn, hurthgen  
**NOOK**, (s.) cornel, ongl, congl  
**NOON**, **NÓONDAY**, (s.) hanner dydd,  
canol dydd, canol-ddydd  
**NOOSE**, (s.) byddag, cwlwm rhedeg-  
og, magl : (v. a.) byddaglu, maglu  
**NOR**, (conj.) na, nac  
**NORTH**, (s.) gogledd : (adj.) gog-  
leddawl, gogleddig. — *North-pole*,  
pegwn y gogledd. — *North star*, se-  
ren y gogledd — *North-Wales*, gog-  
ledd Cymru, Gwynedd, Gwyndud,  
Gwyndawd, Gwyndodydd. — *A*  
*North-Wales man*, gwr o Wynedd,  
Gwyndodyn. — *A North-Wales wo-*  
*man*, Gwyndodes. — *North-Wales*  
*dialect*, Gwyndodeg  
**NÓRTHERN**, (adj.) gogleddol  
**NÓRTHWARD**, (adv.) tu a'r gogledd  
**NORWICH**, (s.) yr Heledd ddu  
**NORWAY**, (s.) Llychlyn  
**NOSE**, (s.) trwyn : (v.) trwyno  
**NOSEGAY**, (s.) blodeu glwm  
**NOSLE**, (s.) trwyn megyn  
**NÓSTOCK**, (s.) chwydredd y sêr  
**NÓSTRIL**, (s.) ffoen : *pl.* ffoenau  
**NOT**, (adv.) na, nac, ni, nid, nis  
**NÓTABLE**, (adj.) hynod, nodedig  
**NÓTABLENESS**, (s.) hynodrwydd  
**NÓTARY**, (s.) ysgrifenydd, nodiadur  
**NOTCH**, (s.) bwich, rhygyn, rhint  
**NOTE**, (s.) arwydd, marc—byrhad—  
eglhurhad, esponiad—gweithred, neu  
rwymedigaeth tan law un : (v. a.)  
nodi, arwyddo, dal sylw—gosod i  
lawr, llyfru, cof-nodi, sylwi  
**NÓTED**, (adj.) nodedig, hynod  
**NÓTHING**, (s.) dim, diddym  
**NÓTICE**, (s.) sylw, rhybudd, copi-  
nod, hyspysiad, hyspysrwydd  
**NOTIFICÁTION**, (s.) hyspysiad, rho-  
ddiad gwybodaeth, rhybuddiad  
**NÓTIFY**, (v. a.) peri gwybod, hys-  
pysu, mynegi, cyhoeddi  
**NÓTION**, (sub.) tyb, meddwl, barn,  
opiniwn, dychymmyg, rhith  
**NÓTIONAL**, (adj.) dychymmygol,  
tybiol, ffugiol, tybygawl  
**NOTÓRIOUS**, (adj.) adnabyddus, am-  
lwg, hyspys, hynod, carn  
**NOTÓRIOUSNESS**, **NOTORÍETY**, (s.)  
hynodrwydd, erchylldra  
**NÓTTINGHAM**, (s.) Din Obant  
**NÓTWITHSTANDING**, (conj.) er hyn,  
etto, er, hagen, er hyn oll  
**NÓVEL**, (s.) ffug-draethawd, hancs  
ddychymmygol : (adj.) newydd  
**NÓVELTY**, (s.) newydd-der  
**NOVEMBER**, (s.) mis Tachwedd  
**NOUGHT**, (s.) dim, dyddim  
**NÓVICE**, (s.) newyddian, dyn an-  
nysgedig, dechreuwr celfyddyd  
**NOVÍTIATE**, (s.) newyddianaeth  
**NOUN**, (s.) enw, gair. — *A noun sub-*  
*stantive*, enw cadarn, sylwedd-air.  
— *A noun adjective*, enw gwan,  
ychwaneg air, ansodd-air  
**NÓURISH**, (v. a.) meithrin, magu,  
maethu, achlesu, porthi  
**NÓURISHMENT**, (s.) maeth, magwr-  
iaeth, meithrin, meithriniaeth, ym-  
borth, lluniaeth, cynhaliaeth  
**Now**, (adv.) yr awr hon, yn awr, yr  
wan, bellach, weithian, y pryd hyn  
**NÓXIOUS**, (adj.) niweidiol, adgywe-  
ddus, euog, afiach, adwythig  
**NÓZEL**, (s.) trwyn : (v.) trwyno  
**NÚBBLE**, (v. a.) maethu, ffusto  
**NUCÍFEROUS**, (adj.) a ddygo gnau  
**NÚDITY**, (s.) noethni, noethder  
**NUGÁCITY**, (sub.) gwag chwedlau,  
ofer chwedl, coeg chwedliad  
**NÚGATORY**, (adj.) ofer, gwag, arab-  
aid, disylwedd, ffladr  
**NÚISANCE**, (sub.) niweid, un peth a  
f'o yn gwneud niweid, blin-beth  
**NULL**, (v. a.) diddymu : (adj.) di-  
rym, gwag, ofer, diddym, dyddim  
**NÚLLITY**, (s.) diddymrwydd, di-  
rymrwydd, gwendid, dimedd  
**NUMB**, (adj.) marwaidd, syn, hurt  
**NÚMBER**, (s.) nifer, rhif, rhifedi,  
cyfrif : (v. a.) rhifo, cyfrif  
**NÚMBERLESS**, (adj.) ancirif  
**NÚMBNESS**, (s.) hurtrwydd, mydryn-  
dod, irdang, syndod, marweidd-dra  
**NÚMERAL**, (adj.) rhifol, cyfrifol  
**NUMERÁTION**, (s.) rhifiad, cyfrifiad  
**NÚMÉRICAL**, (adj.) cyfrifol, rhifus  
**NÚMEROUS**, (adj.) aml, lliosog  
**NÚMSKULL**, (s.) penbwl, drelyn  
**NUN**, (s.) lleian, mynaches  
**NÚNCHION**, (sub.) prydnawn-fwyd,  
ciniaw-echwydd, nawn-damaid  
**NÚNCIATURE**, (s.) swydd cenad y  
pab, cenadwriaeth  
**NÚNCIO**, (s.) prif-genad y pab  
**NÚNCUPATIVE**, **NÚNCUPATORY**, (adj.)

cyhoeddus, wedi ei fynegi yn eglur ac ar gyhoedd, cyhoedd-fynegol  
**NUNNERY**, (s.) lleiandy, gwryfdy  
**NUPTIALS**, (s.) priodas, neithior  
**NURSE**, (s.) mammaeth, merolaeth, magari, magwraig, maethwraig  
**NURSERY**, (s.) mammaethiad—mammaethdy—lle planir coed ieuangc, planfa, planhigfa—dysgeidle  
**NURTURE**, (s.) ymborth, lluniaeth—dygiad i fynu, meithrin-ddysg  
**NÚSTLE**, (v. a.) maldodi, ymgeleddu  
**NUT**, (sub.) cneuen, mesen.—*Nut-crackers*, gefail gnau.—*Nut-gall*,

afal y derw.—*Nuthatch*, delor y cnau.—*Nut-shell*, plisgyn caeuen.  
*Nut-tree*, pren cnau, collen  
**NUTRIFICATION**, (s.) porthiad  
**NÚTRIMENT**, (sub.) ymborth, lluniaeth, maeth, magwraig  
**NUTRIMENTAL**, (adj.) meithrinol, maethol, maethgar, magwraig  
**NUTRITION**, (s.) maeth, maethiad  
**NÚTRITIVE**, (adj.) maethol  
**NÚZZLE**, (v.) trwyn-dwrio  
**NYMPH**, (sub.) duwies y coedydd, gwaunydd, a'r dyfroedd—merch ieuangc dlws, tlws-ferch, angyles

## O.

**O**, (adv.) O, ha: (interj.) O, oio, och, O: (byrhad o'r gair *Old*.)—*O. S. Old Style*, yr hen gyfrif (o'r flwyddyn)  
**OAF**, (s.) hurtyn, hutan, symlyn, caðafel, penbwl, drel  
**OÁFISH**, (adj.) dwl, hurt, anghall  
**OAK**, (s.) derwen, dâr, mesbren: *pl.* derw, deri.—*A stunted oak*, cor-dderwen.—*A stately oak*, catarwen.—*The scarlet oak*, prinwydden.—*A young oak*, glas-dderwen.—*Oak apple*, afal y derw, darafal.—*Oak grove*, llwyn derw, derlwyn, derwlwyn.—*Oak lungwort*, clustiau'r derw, callod y derw  
**OÁKEN**, (adj.) o dderw, derwaidd  
**OÁKUM**, (s.) carth, rhaffau datodedig  
**OAR**, (s.) rhwyf: (v. n.) rhwyfo  
**OAT**, (s.) ceirchen: *pl.* ceirch.—*Oat-bread*, bara ceirch.—*Oat-cake*, teisen geirch.—*Oat-meal*, blawd  
**OÁTEN**, (adj.) ceirchawl [ceirch  
**OATH**, (s.) llw, twng, rhaith  
**OATS**, (s.) ceirch: *sing.* ceirchen  
**O'BDURACY**, (s.) caledrwydd, cyndynrwydd, ystyfnigrwydd  
**O'BDURATE**, (adj.) caled, cyndyn, ystyfnig, anedifeiriol, anhyblyg  
**OBEDIENCE**, (s.) ufudd-dod, gostyngedd, gwarogaeth  
**OBÉDIENT**, (adj.) ufudd, gostyngedig, ufuddgar, ufuddawl  
**OBÉISANCE**, (s.) ymgrymiad, cyfarchiad, moes-blygiad

**O'BELISK**, (s.) math o adail, neu golofn pedeir-onglog a brig-fain—y cyfryw nôd + —ber-nod  
**OBÉSE**, (adj.) tew, bras, pendew  
**OBÉSENESS**, (s.) tewder, brasder  
**OBÉY**, (v. a.) ufuddhau, ymddarostwng, ymostwng  
**O'BJECT**, (s.) gwrthddrych, gwrthddrychiad: (v. a.) gwrthddadlu, gosod yn erbyn, ammau, gwrthateb  
**OBJÉCTION**, (s.) gwrthreswm, gwrthddadl, bai, beiad, anach  
**OBITUARY**, (s.) marw restr  
**OBLÁTION**, (s.) offrwm, rhodd  
**O'BLIGATE**, (v. a.) rhwymo  
**OBLIGÁTION**, (s.) rhwym, rhwymedigaeth, rhwymiad, dyled  
**OBLIGÁTORY**, (adj.) ymrwymol  
**OBLÍGE**, (v. a.) rhwymo, cymhell, dirio, peri—boddhau  
**OBLIGÉE**, (s.) ysgrif-rwymydd  
**OBLIGEOR**, (s.) yr ymrwymydd  
**OBLÍGING**, (adj.) cymmwynasgar, cyweithas, hynaws, caruaidd  
**OBLIQUE**, (adj.) gŵyr, gwyrdraws, traws, gŵyrog, lleddf, ystlysol  
**OBLÍQUITY**, (s.) gŵyredd, gŵyrni  
**OBLÍTERATE**, (v. a.) dileu, crafu ymaith, didoli, dadnodi  
**OBLÍVION**, (s.) anghof, ebargoñiad  
**O'BLONG**, (adj.) hir-gul, bychan-led  
**O'BLOQUY**, (s.) enllib, gogan, hort, sen, gwaradwydd, athrod, anair  
**OBNOXIOUS**, (adj.) euog, beius, darostyngedig, rhwymedig, atgas

- OBSCÉNE**, (adj.) budr, brwnt, aflan, anllad, trythyll, anniwair—serth  
**OBSCÉNESS, OBSCÉNITY**, (s.) anlladrwydd, trythyllwch, aflendid  
**OBSCÚRE**, (adj.) aneglur, tywyll, dyrus: (v. a.) tywyllu, gwneuthur yn fwy annealladwy  
**OBSCÚRITY**, (s.) tywyllwch, tywyllni, caddug, aneglurder  
**OBSEQUIES**, (s.) arlwy angladd  
**OBSEQUIOUS**, (adj.) ufudd, ufuddgar, cymmwynasgar, moesgar  
**OBSEQUIOUSNESS**, (sub.) ufudd-dod, gwasanaethgarwch, hyblygedd  
**OBSERVABLE**, (adj.) sylwadwy, hynod, hybarch, nodadwy, nodawl  
**OBSERVANCE**, (s.) sylw, daliad sylw, parch, cyfarchwyliad  
**OBSERVANT**, (adj.) gofalus, ufuddgar  
**OBSERVATION**, (s.) sylwad, daliad sylw, cyfarchwyliad, nodiad  
**OBSERVATORY**, (sub.) cyfarchwylfa, arsyllfa, treyn-dwr  
**OBSERVE**, (v. a.) dysgwyl ar, dal sylw, cyfarchwyllo, ystyried, cadw  
**OBSESSION**, (s.) amgylchiad tref, neu gastell, cynllwyniad, cylchyniad  
**OBSOLETE**, (adj.) hen, anghynnefin, wedi myned allan o arfer  
**OBSTACLE**, (s.) rhwystr, attal, llestair, lluddias, goludd, attalfa  
**OBSTINACY**, (s.) cyndynrwydd, ystyfnigrwydd, gwrthnysigrwydd  
**OBSTINATE**, (adj.) cyndyn, gwrthnysig, anhydyn, ystyfnig, pendew  
**OBSTRÉPEROUS**, (adj.) drygnadus  
**OBSTRUCTION**, (s.) rhwymedigaeth  
**OBSTRÚCT**, (v. a.) attal, rhwystro, gwrthgau, rhagod, dyhoryd  
**OBSTRÚCTION**, (s.) attal, rhwystr, gwrthgae, lludd, dyhoriad, tagfa  
**OBTÁIN**, (v. a.) cael, caffael, ynnill, cyrhaeddyd, ynnill lle  
**OBTRÚDE**, (v. a.) gwrthio i mewn, ymwrthio, traws-gymell  
**OBTÚSE**, (adj.) pŵl, heb flaen, difin, anfiniog: *fig.* hurt, dwl  
**OBTÚSENESS**, (s.) pylni, hurtrwydd  
**O'BIATE**, (v. a.) myned yn erbyn, cyfarfod, rhagflaenu, rhagod  
**O'BVIOUS**, (adj.) amlwg, agored, hawdd ei ddyall, eglur, hyspys  
**OCCÁSION**, (s.) achlysur, achos, angenrheidrwydd, ethryb, cyfle, odfa: (v. a.) achos, achlysyru, peri  
**OCCÁSIONAL**, (adj.) achlysurol  
**OCCIDÉNTAL**, (adj.) gorllewinol  
**OCCÚLT**, (adj.) cuddiedig, dirgel  
**OCCUPÁTION**, (sub.) crefft, swydd, gwaith, gorchwyl, galwedigaeth, goresgyniad—cymmeriad meddiant  
**OCCUPIER**, (sub.) meddiannwr, daliwr, deiliad, crefftwr  
**O'CCUPY**, (v. a.) meddiannu, dal mewn gwaith, trin, gweithio, Ecs. xxxviii. 24. Barn. xvi. 11.  
**OCCÚR**, (v. n.) ymgyfarfod, cyfarfod, ymgaffael, dyfod mewn cof, gwrthladd—dygwydd  
**OCCÚRRENCE**, (s.) dygwydd, dygwyddiad, ymgyfarfod, damwain  
**OCCÚRRENT**, (s.) ymgyfarfod  
**O'CEAN**, (s.) y môr, yr eigiawn, y cefusor, y dyfnfor, y môr mawr  
**O'CTAGON**, (s.) wyth-ongl  
**OCTÁNGULAR**, (adj.) wyth-onglog  
**O'CTAVE**, (sub.) yr wythfed dydd, wythfed—wyth radd tôn  
**OCTÁVO**, (s.) llyfr wyth plyg  
**OCTÓBER**, (s.) y mis Hydref, Hyddfref  
**O'CULAR**, (adj.) yn ymddibynu ar y llygad, a welir â'r llygad  
**O'CULIST**, (s.) meddygwr llygaid  
**ODD**, (adj.) anghynnifer, amynifer, dros ben, yn ychwaneg, Num. iii. 48.—od, rhyfedd, anghyffredin  
**O'DDNESS**, (sub.) amniferwch, oddrwydd, anghyffredinolrwydd  
**ODDS**, (s.) gwahaniaeth—ymryson, anghydfod, amrafael—rhagoriaeth  
**ODE**, (s.) caniad, awdl, owdl  
**O'DIOUS**, (adj.) cas, atgas, dygasog  
**O'DIUM**, (s.) cas, atgasrwydd, dial, bai  
**ODORÍFEROUS**, } (adj.) peraid, ar-  
**O'DOROUS**, } oglber, aroglaidd  
**O'DOUR**, (s.) arogl, arogledd, sawyr  
**ECÓNOMY**, (s.) rheolaeth tŷ, llywodraeth teulu, teuluwriaeth  
**ECÓNOMIST**, (s.) rheolwr tŷ—un a lywodraetho bethau yn ddoeth  
**ECUMÉNICAL**, (adj.) hollol, cyffredinol, perthynol i'r byd oll  
**OF**, (prep.) o, am, ynghylch, gan  
**OFF**, (interj.) ymaith, i bant: (adv.) oddiyma, oddiwrth, yn ymhell  
**O'FFAL**, (s.) carthion, gweddillion  
**OFFÉNCE**, (s.) tramgwydd, sarhad, cawdd, coddiant, trosedd, bai  
**OFFÉND**, (v. a.) sarhau, anfoddhau, coddi, gwneud ar fai, tramgwyddo

- OFFENSIVE**, (adj.) niweidiol, tram-gwyddus, atgas, ffaidd  
**OFFER**, (v.) cynnyg—cyflwyno—offrymu: (s.) cynnyg, cais  
**OFFERING**, (s.) offrwm, aberth  
**OFFERTORY**, (s.) y peth a offrymir, offrymiad, y lle yr offrymir  
**OFFICE**, (sub.) swydd, gwasanaeth, galwad, gwaith—gweithdy  
**OFFICER**, (s.) swyddog, swyddwr  
**OFFICIAL**, (s.) swyddog mewn llys eglwysig, is-swyddog, rhaglaw  
**OFFICIATE**, (v. n.) dirprwyo, gwasanaethu dros arall, gweinidogaethu  
**OFFICIOUS**, (adj.) parod i ymyred âg achosion rhai creill, swyddgar  
**OFFICIOUSNESS**, (s.) gormod parodrwydd i foddhau ereill, rhodresgar  
**OFFSCOURING**, (s.) ysgarth, sorod  
**OFFSPRING**, (s.) hil, hiliogaeth, ep-pil, silltydd, addon, sil, esillt  
**OFT**, **OFTEN**, **OFTENTIMES**, (adv.) yn fyuych, yn aml, llawer gwaith  
**OGLE**, (v. a.) edrych â llygad-wyr, cymmeryd cip olwg, llygadu  
**OH** (interj.) oh! och! oho!  
**OLE**, (s.) olew, ul: (v. a.) eneinnio âg olew, ulo  
**OLNESS**, (s.) brasder, irder  
**OLY**, (adj.) olewog, olewaidd, ul-aidd, ireiddlyd, saimlyd  
**OLINT**, (v. a.) eneinnio  
**OLINTMENT**, (s.) enaint, eli  
**OLD**, (adj.) hên, henaidd, oedranus, oediog: (s.) oed, oedran  
**OLEAGINOUS**, **OLÉOSE**, (adj.) olewaidd, eliaidd, olewog  
**OLIGARCHY**, (s.) gwladwriaeth y byddo yr awdurdod a'r llywodraeth ar ddwylo ychydig wŷr  
**OLIO**, (s.) saig gymmysgedig o fwyd  
**OLITORY**, (adj.) yn pethyn i ardd llysiau: (s.) gardd llysiau cegin  
**OLIVE**, (s.) olew-wydden—grawn yr olew-wydd, pren olew  
**OLYMPIAD**, (s.) yspaid 4 blynedd  
**OLYMPIC-GAMES**, (s.) campau mynydd Olympus, a gynhelid gynt bob pedair blynedd  
**OMÉGA**, (s.) y llythyren ddiweddaf yn y Groeg—y diwedd, y diweddaf  
**OMELET**, (s.) cramwythen wyau  
**OMEN**, (s.) arwydd, darogan, rhamant, argoel, coel, arma  
**OMER**, (s.) omer, Ecs. xvi. 16.  
**OMINOUS**, (adj.) arwyddol, arwydd-ocaol, argoeliog, daroganus  
**OMISSION**, (sub.) esgeulusiad, gom-meddiad, gwall, anweithrediad  
**OMIT**, (v. a.) gadael heibio, esgeuluso  
**OMNIFARIOUS**, (adj.) amryw, amra-fael, hollrywiog  
**OMNIGÉNOUS**, (adj.) o bob rhyw  
**OMNIPOTENCE** **OMNIPOTENCY**, (s.) hollalluogrwydd—Dowdod  
**OMNIPOTENT**, (adj.) hollalluog  
**OMNIPRESENT**, (adj.) hollbresennol  
**OMNISCIENCE**, (s.) hollwybodaeth  
**OMNISCIENT**, (adj.) hollwybodol  
**ON**, (prep.) ar, ar uchaf, ar warthaf  
**ONCE**, (adv.) unwaith—gynt  
**ONE**, (adj.) un, rhyw un  
**ONERATE**, (v. a.) llwytho, pynio  
**ONEROUS**, (adj.) llwythog, pwys-fawr, llwythfawr, trwm  
**ONION**, (s.) wynwynyn  
**ONLY**, (adj.) unig: (adv.) yn unig  
**ONSET**, (s.) ymosod, rhuthr, ymgyrch  
**ONWARD**, (adv.) yn mlaen  
**ONYX**, (s.) rhyw faen gwerthfawr  
**Ooze**, (v. n.) nawtio, nodd-ddyferu, dylifo yn esmwyth: (s.) llaid  
**Oozy**, (adj.) lleidiog, llysllyd  
**OPACITY**, (s.) tywyllwch, tywyllni  
**OPACOUS**, (adj.) tywyll, caddug  
**OPÁQUE**, (adj.) tywyll, na's gellir gweled trwyddo, annhryloyw  
**OPEN**, **OPE**, (v.) egoryd, agor, dat-guddio, annirgelu, datgan, amlygu: (adj.) agored, amlwg, eglur  
**OPENING**, (s.) agoriad, toriad  
**OPENLY**, (adv.) yn agored, yn gyhoeddus, ar gyhoedd, yn amlwg  
**OPENNESS**, (s.) amlygder, diddich-ellrwydd, anghaeadrwydd  
**OPERA HOUSE**, (s.) chwareudy  
**OPERATE**, (v. a.) gweithio  
**OPERATION**, (sub.) gwaith, gweithrediad, gweithred, effeithiolaeth  
**OPERATIVE**, (adj.) gweithredol  
**OPERATOR**, (s.) gweithiwr, crefftwr  
**OPERÓSE**, (adj.) llafurus, trafferthus, poenus, poenfawr—gweithgar  
**OPTHÁLMIC**, (adj.) yn perthyn i'r llygad, llygadaidd  
**OPiate**, (s.) meddyginiaeth a baro-gysgu, diod gwsg  
**OPINIATIVE**, (adj.) opiniynus, cyn-dyn yn ei farn, tybgar, cryf-dybus, tyn-dybus, hunan-dybiol

- OPÍNIÓN**, (sub.) tyb, godyb, barn, meddwl, opiniwn, cred  
**ÓPIUM**, (s.) sudd y babi, opiwm  
**OPPÓNENT**, (sub.) gwrthwynebwr, gwrthddadleuwr, gwrthebydd  
**OPPÓRTÚNE**, (adj.) cyfaddas, pryd-lawnd, cymmwys  
**OPPOTÚNITY**, (s.) cyfle, amser cyfaddas, odfa, arfod, cymmwysder  
**OPPÓSE**, (v.) gosod yn erbyn, gwrthwynebu, gwrtheb, gwrthddadleu  
**ÓPPÓSITE**, (adj.) gwrthwyneb, gyferbyn, cyfarwyneb, ar gyfer  
**OPPOSITION**, (s.) gwrthwynebiad, gwrthosod, gwrthosodiad, cyferbyniad, gwrthsañiad, gwrthladdiad  
**OPPRÉSS**, (v. a.) gormesu, gorthrymu, treisio, gorthrech, llethu  
**OPPRÉSSION**, (s.) gormes, trais, gorthrymiad, gorthrech, gormesiad  
**OPPRÉSSIVE**, (adj.) gormesol, gorthrymus, gorthrwm  
**OPPRÉSSOR**, (s.) gormeswr, gorthrymwr, gorthrechwr, treisydd  
**OPPRÓBRIOUS**, (adj.) gwarthus, enllibus, gwaradwyddus, sarhaus  
**OPPÚGN**, (v. a.) gwrthwynebu, ymosod yn erbyn, gwrthladd  
**ÓPTATIVE**, (adj.) dymunol, eiddunol, dymunedigol  
**ÓPTICS**, (s.) celfyddyd yn nghylch y golwg, y golygon, y llygaid  
**ÓPTIMACY**, (s.) greugwyr, dyledogion, boneddigion, pendefigion  
**ÓPTION**, (s.) dewis, dewisiad  
**ÓPULENCE**, **ÓPULENCY**, (s.) golud, cyfoeth, cyfoethogrwydd  
**ÓPULENT**, (adj.) goludog, cyfoethog  
**OR**, (conj.) neu: (s.) earliw, aur  
**ÓRACLE**, (s.) ateb dduw, y lle yn mha un, neu'r dyn trwy ba un y mae terfyniadau'r nefoedd yn cael eu hamgylchu iddynion—ymadrodd doeth, atebfa—dewin—oracl  
**ÓRAISON**, (s.) gweddi  
**ÓRAL**, (adj.) geneuol, a draddodwyd trwy ciriau, o ben i ben  
**ÓRANGE**, (s.) afal curaid, eur-afal  
**ÓRÁTION**, (s.) araith, araeth, ymadrodd, arawd, traethawd  
**ÓRATOR**, (s.) areithydd, areithiwr  
**ÓRATORY**, (s.) areithyddiaeth  
**ORB**, (sub.) cylch, modrwy, sidell, rhod, pêl, pellen, bwlyn  
**ÓRBÍCULAR**, (adj.) cylchaidd  
**ÓRBIT**, (s.) cylch-droad y planedau, cylch-daith, cylch-lwybr  
**ÓRCHARD**, (s.) perllan, afallach  
**ÓRCHESTRE**, (sub.) chwareu-dy lle byddo'r gwyr wrth gerdd yn dangos eu cyfarwyddyd, cerddle  
**ÓRCHIS**, (s.) y galdrist, eirin y ci, ceilliau'r ci, tegeirian, Adda ac Efa, baldar.—*Lady trace orchis*, teircaill  
**ÓRDAIN**, (v. a.) ordeinio, urddo, appwyntio, gosod, trefnu  
**ÓRDEAL**, (s.) profiad dieuogrwydd un trwy dân a dwfr, dwys brofiad  
**ÓRDER**, (sub.) gorchymmyn, trefn, tres—rheol—gradd—urdd: (v. a.) trefnu, gorchymmyn, cyfarwyddo  
**ÓRDERLY**, (adv.) yn drefnus, yn rheolaidd, mewn trefn  
**ÓRDERS**, (s.) urddau, gorchymmyn  
**ÓRDINAL**, (adj.) rhestrawl, rhesawl  
**ÓRDINANCE**, (s.) cyfraith, rheol, ordinhad, gorchymmyn, appwyntiad  
**ÓRDINARY**, (adj.) cyffredin, arferol, cynnesinol—gwael, isel—anferth: (s.) ynad eglwysig—caplan carchar—bwydy, bwydfa gyffredin  
**ÓRDINATE**, (adj.) rheolaidd, trefnus: (v. a.) appwyntio, trefnu  
**ORDINATION**, (s.) ordinhad, urddiad  
**ÓRDNANCE**, (s.) gwnnau mawrion  
**ÓRDURE**, (s.) tom, tail, aflendid  
**ÓRE**, (s.) mwyn, delid, metel  
**ÓRGAL**, (s.) sych-waddod  
**ÓRGAN**, (s.) organ, offeryn, ermyg, peiriant—peiriant-ymadrodd  
**ÓRGÁNIC**, **ÓRGÁNICAL**, (adj.) offerynol, a wnaed i ateb rhyw ddyben neillduol—organaidd  
**ÓRGANIST**, (s.) cantwr organ  
**ORGANIZATION**, (s.) gosodiad rhanau yn y fath drefn ag y byddont yn cyd-weithio, ac yn nerthu'r naill y llall, cyfansoddedigaeth  
**ÓRGANIZE**, (v. a.) cyfansoddi rhanau corff, fel ag y byddont yn cydweithio, iawn-drefnu  
**ÓRIENT**, (adj.) dwyreiniol, yn codi, dysglaer, gloyw: (s.) y dwyrain  
**ORIENTAL**, (adj.) dwyreiniol  
**ÓRIFICE**, (sub.) agoriad a wneir â blaen peth, briw-dwll  
**ÓRÍGIN**, **ÓRÍGINAL**, (s.) dechreuad, cychwyniad, ffynhonell: (adj.) dechreuol, anianol, gwreiddiol

- O'RNAMENT**, (s.) addurn, harddwch, prydfferthwch, anrhydedd  
**ORNAMENTAL**, (adj.) addurnol  
**O'RPHAN**, (s.) plentyn amddifad  
**O'RRERY**, (sub.) offeryn yn dangos troadau y cyrff wybrol, orreri  
**O'RTHOX**, (adj.) iawn-gred, iawnffyddiog, iachus-gred  
**O'RTHOXY**, (s.) iawn-gred, uniondeb ffydd, union-gred  
**O'RTHOGRAPHY**, (s.) iawn-ysgrifenyddiaeth—argraff adeiladaeth  
**ORTS**, (s.) gweddillion, gwehilion  
**OSCILLATION**, (s.) symudiad yn ol ac yn mlaen, sigl-houciad  
**O'SCITANCY**, (s.) dylyfiad gên—esgeulusdra, diogi, diofalwch  
**O'SCITANT**, (adj.) yn dylyfu gên—cysglyd, diog, esgeulus  
**OSCITATION**, (s.) dylyfiad gên  
**OSCULATION**, (s.) cysaniad [weilgi  
**OSPRAY**, (s.) pysg eryr, gwalch y  
**O'SSIFRAGE**, (s.) eryr mawr y môr, mor-eryr, mor-wennol  
**O'SSIFY**, (v. a.) troi yn asgwrn  
**O'SSUARY**, (s.) asgyrnfa, esgyrnle  
**OSTENTATION**, (s.) ffrost, ymfrost, gwagfolach, balchder, rhodres  
**OSTENTATIOUS**, (adj.) ffrostus, rhyfygus, balch, ceinfalch  
**OSTEÓLOGY**, (s.) desgrifiad esgyrn, esgyrn-draeth  
**O'STLER**, (s.) march-was  
**O'STRACISM**, (s.) deol, neu herwiaeth yn mhlith yr Atheniaid  
**O'STRICH**, (s.) estrys, ostruth  
**O'THER**, (pron.) all, arall, llall  
**O'THERWISE**, (adv.) yn amgen, mewn modd arall, onidê  
**O'TTER**, (s.) dyfrgi, dwrgi  
**O'VAL**, (adj.) hirgul megis wy  
**OVATION**, (s.) llawenydd am orfodaeth, isradd o orfoledd [aid  
**O'VEN**, (s.) ffwrn.—*Oven-full*, ffyrn  
**O'VE**, (prep. & adv.) uwchlaw, uch, uwch, uwch ben, dros ben, dros  
**O'VEACT**, (v. a.) gwneuthur mwy nâ digon—gorchwarae  
**OVERALLS**, (s.) arbais, arlodryn  
**O'VEAWE**, (v. a.) cadw mewn ofn  
**OVERBALANCE**, (v. a.) rhagbwyso, pwyso mwy, tra-phwyso  
**O'VEBEAR**, (v. a.) darostwng  
**O'VEBID**, (v. a.) cynnyg mwy  
**O'VEBOARD**, (adv.) maes o long, allan o long, dros y bwrdd  
**O'VERCAST**, (v.) cymmylu, tywyllu—cuddio, toi—crymbwytho  
**O'VERCHARGE**, (v. a.) gormesu, llwytho yn ormodol, trymhau, Luc xxi. 34. pwyso ar, 2 Cor. ii. 5.—llanw'n rhy lawn—prisio yn rhy uchel  
**O'VERCOME**, (v. a.) gorfod, gorchfygu, goresgyn, trechu, darostwng  
**O'VERDRESS**, (v. a.) addurno yn ormodol, rhy bingcio, gordrwsio  
**O'VERFAL**, (s.) disgynfa dwfr  
**O'VERFLOW**, (v.) llifeirio drosodd, gorllifo, llifeirio, bod yn ormodd  
**OVERFLÓWING**, (s.) gorllif, gormodd, rhyseidd, llifeiriant, llifiad drosodd  
**O'VERGROWN**, (adj.) gordyfu  
**OVERHÁLE**, (v. a.) ail-holi  
**OVERHÁNG**, (v. n.) crogi uwch ben  
**O'VERHEAD**, (adj.) uwch ben, dros ben  
**O'VERHEAR**, (v. a.) erglywed  
**O'VERJOY**, (s.) gormod gorfoledd  
**OVERLÁY**, (v. a.) llethu, mogi  
**OVERLÓAD**, (v.) llwytho yn ormodol  
**O'VERLONG**, (adj.) rhy hir, go hir  
**OVERLÓOK**, (v. a.) pasio heibio, edrych dros, goruchwylied, esgeuluso  
**OVERMÁTCH**, (v.) bod yn drech nag un, gorchfygu, maeddu  
**OVERMÚCH**, (adj.) gormod, rhy  
**OVERNÍGHT**, (s.) y nos o'r blaen  
**OVERPÁSS**, (v. a.) pasio, neu fyned heibio, esgeuluso, myned trosodd  
**O'VERPAY**, (v. a.) talu gormodd  
**O'VERPLUS**, (s.) gwargred, gweddill, rheliw, ychwaneg, sarid  
**OVERPÓWER**, (v. a.) gorchfygu trwy nerth, gorthrechu  
**O'VERRATE**, (v. a.) prisio yn rhy uchel  
**OVERREÁCH**, (v. a.) twyllo, myned tu hwnt, gorymestyn  
**OVERRÚLE**, (v. a.) goruchreoli, goruchlywodraethu, gwrthod dadl  
**OVERRÚN**, (v. a.) rhedeg dros, anrheithio, goresgyn, rhedeg o flaen  
**OVERSÉE**, (v.) edrych dros, golygu  
**OVERSÉER**, (s.) golygwr, ymgeleddwr, arolygwr, cyfarchwyliwr  
**OVERSÉLL**, (v.) gorwerthu  
**OVERSET**, (v.) dymchwelyd  
**OVERSHÁDOW**, (v. a.) cysgodi  
**OVERSHÓOT**, (v.) traws nôd, ~~collir~~ nôd, saethu dros y nôd



- O'VERSIGHT**, (s.) gwall, camsyniad, arolygiaeth, camgymeriad  
**OVER'ÓON**, (adv.) yn rhy gynnar  
**OVERSPRÉAD**, (v. a.) gorchuddio  
**OVERSWAY**, (v. a.) goruchreoli  
**O'VERT**, (adj.) agored, cyhoeddus, amlwg, eglur, cyhoedd  
**OVERTAKE**, (v. a.) gorddiwes, goddiwes, goddiweddyd, dal  
**VERTHROW**, (v. a.) taflu i lawr, dymchwelyd, dadymchwel, dinystrio: (s.) dymchweliad, dinystr  
**VERTHWART**, (adv.) ar draws  
**VERTÓP**, (v. a.) rhagori, uwchbenu  
**VERTURE**, (s.) cynnyg, cynnygiad, agoriad, prawf, argais  
**VERTÚRN**, (v. a.) gwrthdroi, dymchwelyd—gorchfygu, dinystrio  
**VERVÁLUE**, (v.) prisio yn rhy uchel  
**VERWHÉLM**, (v. a.) llethu, rhuthro, Job vi. 27.—gorchuddio, Sal. lv. 5.—llesmeirio, Sal. lxi. 2.  
**UGHT**, (s.) rhyw beth, rhyw ran, dim: (v.) dyly.—*I ought, you ought, &c.* dylwn, dylit, dylai, dylem, dylech, dylent, dylaswn, &c.  
**VIPAROUS**, (adj.) pob mil a ddodwa wyau, a phob pysgod a fago rawn  
**OUNCE**, (s.) wns—bwystfil ffyrnig  
**OUR**, (pron.) ein.—*Our's*, einon, einym, eiddom.—*Our men*, ein gwýr ni.—*Our selves*, nynt (ni, ninnau) ein hunain  
**OUSE**, (s.) blawd rhisgl derw  
**USEL**, (s.) aderyn du, mwyalchen  
**UST**, (v. a.) cymmeryd ymaith, difeddiannu, difeddu, bwrw allan  
**OUT**, (adv.) allan, i maes: (v. a.) danfon ymaith, difeddiannu  
**ÚTCASTS**, (s.) gwyr deol, gwasgar-edigion, Sal. cxlvii. 2.  
**OUTCRY**, (v.) gorfloedd, dolef  
**OUTDO**, (v. a.) rhagori, blaenu  
**O'UTER**, (adj.) nesaf allan, allanol, eithaf, Mat. viii. 12.  
**OUTGO**, (v. a.) rhagori, blaenu  
**OUTLÁNDISH**, (adj.) alltud, dycithr, o wlad arall, estronol  
**ÚTLAW**, (sub.) herwr, gwr deol: (v. a.) deol, difroi, alltudo, dinoddi  
**ÚTLAWRY**, (s.) barn a roir ar un i'w dynu oddi tan nawdd y gyfraith  
**ÚTLET**, (s.) ffordd i fyned allan, mynediad allan, rhydd-lwybr  
**OUTLINE**, (s.) llinell allanol  
**OUTLÍVE**, (v. a.) hwy-oesi, byw ar ol—byw yn rhy uchel  
**ÚTMOST**, (adj.) pellaf allan  
**OUTRÚMBER**, (v. a.) rhagori mewn rhif, bod yn lliosocach  
**OUTPÁRISH**, (s.) plwyf tu allan i'r murian, allan-blwyf  
**ÚTRAGE**, (s.) creulonedd, cynnwrf  
**ÚTRÁGEOUS**, (adj.) creulon, diwal, erchyll, dryg-wyllt, ysgeler  
**ÚTRÁGEOUSNESS**, (s.) creulonedd, ffyrnigrwydd, anfadrwydd  
**ÚTRÉACH**, (v. a.) cyrhaeddyd uwchlau, cyrhaedd tu hwnt  
**OUTRÚN**, (v. a.) rhedeg o'r blaen, rhedeg yn gynt, trech-redeg  
**OUTSHÍNE**, (v. a.) rhagori mewn dysgleirdeb, gorddysgleirio  
**OUTSIDE**, (s.) tu allan, arwynebedd  
**OUTSPRÉAD**, (v. a.) tanu ar y lled  
**OUTSTÁND**, (v. a.) gwrthwynebu—cynnal—aros yn hwy nâ'r amser priodol—dal allan  
**OUTSRÉTCH**, (v.) lledu, tanu ar led  
**OUTSTRÉTCHED**, (adj.) estynedig  
**OUTSTRÍP**, (v. a.) myned yn gynt nag arall, blaenu, trech-redeg  
**OUTVÍE**, (v. a.) rhagori ar  
**OUTWÁLK**, (v. a.) cerdded yn gynt  
**OUTWÁLL**, (s.) y mur nesaf i maes  
**ÚTWARD**, (adj.) allanol [pwys  
**OUTWÉIGH**, (v. a.) rhagori mewn  
**OUTWIT**, (v. a.) twyllo trwy gyfrwysdra, trech-ddichellu  
**ÚTWORK**, (s.) y rhan nesaf i'r gelynion o amddiffynfa  
**OWE**, (v.) dylu, bod mewn dyled, bod dan rwymau, perchenogi  
**OWL**, (s.) dylluan, cuan  
**OWN**, (s.) eiddo: (pron.) hun: (v. a.) cyfaddef, cyffesu, arddel  
**O'WNER**, (s.) perchen, perchenog, meddiannydd, meddwr  
**Ox**, (s.) ych, eidion.—*A young ox*, bustach.—*A wild ox, or buffalo*, bual.—*An ox-driver*, cethreinwr.—*The ox-fly*, cethreor  
**O'XFORD**, (s.) Caer Fembyr, Caer Wysog, Rhyd-ychen, Rhyd-Wysg  
**OXGANG**, (s.) cyfar o dir, erw  
**O'XYMEL**, (s.) gwinegr a mêl  
**O'YER**, (v.) clywed  
**O'YSTER**, (s.) llenmarch, wystrysen  
**O'ZIER**, (s.) helygen, merhelygen  
**OZOENA**, (s.) cornwyd yn y ffroenau

## P.

- P** fel talfyriad, a arwydda mewn yr ysgrif-feddygol, *Pugail*, neu a arwyddant *Post Meredian*, wedi hanner dydd.—P. mewn cerddoriaeth, a arwydda *Piano*, tyner.—P. P. *Pianissimo*, tyner ac araf.—P. P. P. *Pianissimo*, sef tra thyner ac araf [borthiad]
- PABULÁTION**, (sub.) ymbawr, ym-
- PÁBULOUS**, (adj.) a ddug borfa
- PACE**, (s.) cam, camre, cerddediad—mesur o ddwy droedfedd a hanner: (v. n.) cerdded yn y blaen yn esmwyth—rhygyngu, camu
- PACÍFIC**, (adj.) heddychol, llonydd, tangnefeddus, dyhuddgar
- PACIFICÁTION**, (sub.) heddychiad, tangnefeddiad, dyhuddiant
- PACIFICÁTOR**, } (sub.) heddychwyr,
- PACIFÍER**, } tangnefeddwr, dyhuddwr, dyddiwr
- PÁCIFY**, (v. a.) heddychu, tangnefeddu, dyhuddo, diddigio
- PACK**, (sub.) sypyn, sopen—haich, pwn—pac, gre, gyr, haid, rhawd, torf: (v. a.) rhwymo i fynu
- PÁCKET**, (sub.) pecyn—bwlgan—y llong a ddygo'r bulanod
- PÁCKSADDLE**, (s.) ystarn, ystrodyr, pynnoreg, panel pwn, sadell [ynau]
- PÁCKTHREAD**, (s.) edau i rwymo syp-
- PÁCTION**, (sub.) cytundeb, ammod, cyfammod, cyngair
- PAD**, (s.) pad—ffordd, troedffordd—ceffyl esmwyth rhygyngog—yspeiliwr traed—clustog a wisg dynion crwca, clustogan, sachell
- PÁDDER**, (s.) yspeiliwr traed
- PÁDDLE**, (v.) rhwyfo; chwaraeu mewn dwfr: (s.) rhwyf, rhail, rhawffon
- PÁDDOCK**, (s.) llyffant mawr—cae
